# Rhaglen Gyflawn

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 24AIN CHWEFROR, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**


Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**

**01286 679665**

**NatalieLloydJones@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 16 Chwefror 2021)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Meirion Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Ian Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd Cemlyn Rees Williams | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Rosalind Williams | Eglwys yng Nghymru |
| Claire Armitstead | Secondary School Representative |
| Richard Collet | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Jonathan Morgan | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwr |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Garem Jackson | Cyngor Gwynedd |
| Rhys Howard Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Karen Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geraint Davies | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dafydd L. Edwards | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |
| Susan Owen Jones | Rheolwr Busnes GwE |
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Gareth Williams | Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE |

## Sylwedydd

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 11

(Ynghlwm).

**5. CYLLIDEB GWE 2020-21 - ADOLYGU CHWARTER 3** 12 - 16

Arwyn Thomas a Dafydd Edwards i ddiweddaru aelodau'r Cyd-Bwyllgor am yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2020/21.

**6. CYLLIDEB GWE 2021-2022** 17 - 21

Dafydd Edwards i gyflwyno'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2021/22 i'r Cyd-bwyllgor.

**7. ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN** 22 - 75

Arwyn Thomas i gyflwyo'r adroddiad i'r Cyd-bwyllgor..

**8. RHAGLEN WAITH GWE - TYMOR YR HYDREF 2020 DIWEDDARIAD & BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL** 76 - 88

Alwyn Jones i gyflwyno'r adroddiad i aelodau'r Cyd-bwyllgor.

**9. CEFNOGI YSGOLION** 89 - 91

Arwyn Thomas i gyflwyno'r adroddiad i'r Cyd-bwyllgor.

**10. Y DAITH DDIWYGIO A DYSGU PROFESIYNOL** 92 - 96

Arwyn Thomas i gyflwyno'r adroddiad i'r Cyd-bwyllgor.

**11. DYSGU O BELL AC YMGYSYLLTIAD RHIENI/GOFALWYR** 97 - 110

Arwyn Thomas i rannu gwybodaeth gyda'r Cyd-bwyllgor am y strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion mewn perthynas â dysgu o bell.

**12. RHAGLENNI DYSGU CARLAM AR GYFER Y GYMRAEG** 111 - 113

Alwyn Jones i geisio cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i ddatblygu rhaglenni Dysgu Carlam ar gyfer y rhai sy'n derbyn ei haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (Iaith Gyntaf).

**13. CALENDR CYFARFODYDD 2021/2022** 114 - 117

Arwyn Thomas i wneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar raglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

**CYD-BWYLLGOR GWE – 11/11/2020**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cadeirydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

**Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais:** Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd).

**Swyddogion Heb bleidlais:** Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych).

**Swyddogion yn bresennol:** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Annwen Morgan (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Hywyn Jones (Cyfrifydd Grŵp, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd, Cyngor Gwynedd – Yr Awdurdod Lletyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad, GwE), Annes Sion (Arweinydd Tim Democratiaeth, Cyngor Gwynedd) a Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Bu i'r Cyng. Phill Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ei ethol yn gadeirydd ar gyfer 2020/21.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Bu i'r Cyng. Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) ei ethol yn is-gadeirydd ar gyfer 2020/21.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Iwan Evans (Cyngor Gwynedd), Richard Collett (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Karen Evans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATEIRON BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd yn gofnod priodol o'r cyfarfod ar 15 Medi, 2020.

**7. TREFNIADAU LLYWODRAETHU: ARCHWILIO MEWNOL**

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwywyd y trefniadau fel y'i nodwyd ym mhwynt 4.1 o'r adroddiad, gan ychwanegu fel eithriad lle'n briodol, y bydd angen i rai adroddiadau archwilio unigol gael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor pan fydd angen yn codi, yn hytrach nac aros am yr adroddiad blynyddol.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr eitem yn cael ei chyflwyno yn dilyn y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod diwethaf. Diolchwyd i'r Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Gyfarwyddwr am amlinellu'r protocol a'i gyd destun. Amlygwyd y broses a gytunwyd arno, gan amlygu ar ddechrau blwyddyn archwilio y bydd cytundeb ar beth fydd yn cael ei archwilio ac y bydd hyn yn cael ei rannu â'r Cyd-bwyllgor.

Nodwyd fod angen i'r Cyd-bwyllgor amlygu os am gael adroddiad blynyddol neu fod pob adroddiadau archwilio yn dod ger bron y Cyd-bwyllgor. Pwysleisiwyd y bydd Rheolwr Archwilio Mewnol yr Awdurdod Lletyol yn adrodd i Gyd-Bwyllgor GwE fel rheol, ac nid i Gyngor Gwynedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:-

- Croesawyd y protocol, gan nodi na fydd angen i bob eitem archwilio fel cadarnhad o iawn-weinyddu grantiau ddod at y Cyd-Bwyllgor pan yn codi, heblaw am eithriadau ble bydd yn briodol i'w cyflwyno yn unigol, yn hytach nac aros am yr adroddiad blynyddol.

**8. ADRODDIADAU ARCHWILIADAU MEWNOL**

**PENDERFYNIAD**

**Nodwyd a derbyniwyd yr adroddiadau.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd yr adroddiadau archwilio gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE, a nododd fod dwy elfen sef y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol. Tynnwyd sylw at y lefel sicrwydd 'Uchel' a derbyniodd yr archwiliadau, sy'n adlewyrchu bod trefniadau priodol yn eu lle i weinyddu'r grantiau.

Mynegwyd diolch i'r holl aelodau staff sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith yn ymwneud â'r grantiau ac i Uned Archwilio Mewnol yr Awdurdod Lletyol am y cadarnhad. Er hynny, nododd y Cadeirydd bod y Cydbwyllgor yn derbyn yr argymhelliad blaenorol na fydd y math yma o adroddiad angen dod gerbron y pwyllgor yn y dyfodol.

**9. COFRESTR RISG**

**PENDERFYNIAD**

**Bu i'r Cydbwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr ac i dderbyn y wybodaeth.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y gofrestr risg yn eitem reolaidd ar agenda'r Cydbwyllgor. Amlygwyd fod y risgiau mawr i'w gweld mewn coch. Pwysleisiodd y Pennaeth Cyllid fod y risg cyntaf o ran toriadau yng nghyllideb Graidd GwE yn ddibynnol ar setliad grant y Llywodraeth ar gyfer awdurdodau lleol 2021/22. Ychwanegwyd y bydd cyhoeddiad ar 22 Rhagfyr ac felly nid yw'n bosib edrych ar y gyllideb hyd fis Ionawr.

Yn ystod y drafodaeth -

- Nodwyd diolch am y gwaith mewn sefyllfa sydd mor wahanol o ganlyniad i Covid-19. Pwysleisiwyd fod y ffordd o weithio wedi gorfod newid a nodwyd fod GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ysgolion y rhanbarth a'u cymunedau.

## 10. CYLLIDEB - MONITRO AIL CHWARTER

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd yr adroddiad.**

Trafodaeth

Gan drafod yr eitem nododd Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol a Rheolwr Gyfarwyddwr GwE nad oedd unrhyw newyddion trawiadol ynghylch y gyllideb, ond ei fod yn darparu diweddariad am y sefyllfa ariannol am y flwyddyn gyllidol 2020/21.

Amcangyfrifwyd tanwariant net o (£31,502), yn bennaf yn sgil arbediad ar y gyllideb costau teithio craidd, gan fod safleoedd ysgolion ar gau yn sgil yr argyfwng.

Cyfeiriwyd at yr adroddiad sydd yn egluro i fanylder y rhesymau dros orwariant a thanwariant.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch hawlio colledion yn ôl gan y Llywodraeth Cymru, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr bydd GwE yn gwneud hynny lle sy'n bosib, a cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod y digolledu'n digwydd yn bennaf drwy gyfrifon yr awdurdodau cyfansoddol.

## 11. RHAGLEN TRAWSNEWID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwywyd yr offeryn hunan asesu a'r Cynnig Proffesiynol Anghenion Dysgu Ychwanegol fydd yn cefnogi'r Awdurdodau Lleol a'r ysgolion i weithredu'r diwygiadau fel yr amlinellir yng Nghod Anghenion Dysgu Drafft Cymru.**

**Gofynnwyd am adroddiad pellach i'r cyfarfod nesaf yn nodi sut y bydd yr offeryn hunanasesu yn gweithio ac i nodi unrhyw oblygiadau ariannol fydd o ganlyniad i'r Cod Anghenion Dysgu drafft.**

Trafodaeth

Nodwyd mai Karen Evans sydd yn arwain ar y gwaith yma ar draws y gogledd. Cynhyrchwyd yr offeryn hunanasesu gan y Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol i gefnogi Awdurdodau Lleol i asesu pa mor barod ydynt i weithredu'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Drafft Cymru. Pwysleisiwyd y bydd yr offeryn yn galluogi

awdurdodau lleol i gael gwell dealltwriaeth o'r meysydd sydd angen eu gwella ac i ddeall eu cryfderau presennol. Ategwyd y bydd hefyd yn rhoi trosolwg rhanbarthol o barodrwydd Awdurdodau Lleol ar gyfer gweithredu'r diwygiadau ADY.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Gofynnwyd a oes cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r Cod. Mynegwyd fod y Llywodraeth wedi nodi ei fod yn ymarfer cost niwtral.
- Ategwyd pryderon am y gost ychwanegol o'r Cod hwn.
- Nodwyd pan yn symud i gynllun newydd y pwysicrwydd o godi ymwybyddiaeth rhieni.
- Gofynnwyd am adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf i nodi unrhyw oblygiadau ariannol fydd o ganlyniad i'r Cod ADY drafft Cymru.

## 12. CANLYNIADAU 2020 - ADOLYGIAD ANNIBYNNOL Y GWEINIDOG ADDYSG

**PENDERFYNIAD**

**Cytunwyd mai prif flaenoriaeth y rhanbarth dros y cyfnod nesaf fydd rhoi'r gefnogaeth briodol i'r ysgolion uwchradd i gefnogi dysgwyr CA4 a CA5 i gael eu hachredu'n deg. Er mwyn gweithredu hyn, cytunwyd i ddefnyddio refeniw wrth gefn sydd o ganlyniad i'r tanwariant.**

**Penderfynwyd ysgrifennu at y Gweinidog Addysg, yn gyntaf i ddiolch am ei chyhoeddiad ar y 10fed o Dachwedd ar y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau ar gyfer 2021, ac yn ail i nodi pryderon sydd yn codi o'r cyfarfod.**

**Penderfynwyd ysgrifennu at Geraint Rees, Cadeirydd y Grŵp Dylunio a Chynllunio, yn amlinellu'r pryderon a nodwyd.**

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE ar yr Adolygiad Annibynnol o ddyfarnu Cymwysterau yng Nghymru a derbyniwyd sylwadau gan gynrychiolydd yr Ysgolion Uwchradd. Ychwanegwyd fod y Gweinidog Addysg wedi gwneud cyhoeddiad hyn diwrnod cyn cyfarfod o'r Cydbwyllgor.

Diolchwyd i'r holl benaethiaid a chadeiryddion y fforymau sydd wedi bod yn allweddol i gyfleu safbwynt y rhanbarth ar y mater i'r Gweinidog Addysg.

Trafodwyd yr adroddiad ymysg aelodau'r Cyd-bwyllgor a chroesawyd datganiad y Gweinidog Addysg. Nodwyd y byddai'r cyhoeddiad yn rhoi cyfle i benaethiaid ac athrawon ganolbwyntio ar addysgu am y tro. Fodd bynnag, codwyd sawl cwestiwn ynghylch gweithrediad y datganiad a bod angen eglurder cyn gynted ag sy'n bosib.

**Sylwadau sy'n codi o'r drafodaeth:**

- Nodwyd fod yr ymchwiliad annibynnol yn adlewyrchu anghenion y dysgwyr ac nid y system arholi.
- Lleisiwyd y farn bod angen i benaethiaid ac athrawon gael cyfle i arwain ar y trafodaethau dilynol ac y dylai'r cyd bwyllgor wneud cais i weld aelodau'r pwyllgor.
- Awgrymwyd y gallai hyn fod yn ffordd newydd o asesu heb arholiadau yn y dull traddodiadol.

- Gofynnwyd am eglurder ar y sefyllfa ar gyfer disgyblion y dyfodol yn 2022, gan ystyried na fydd gan rhai plant brofiad o sefyll arholiadau. Nodwyd bod angen ystyried iechyd a lles y disgyblion yma.
- Nodwyd bod y Cyd-bwyllgor yn awdurdodi defnyddio refeniw wrth gefn sydd o ganlyniad idanwariant o'r gyllideb i gefnogi ysgolion gydag unrhyw gostau ychwanegol fydd yn codi wrth iddynt wireddu'r argymhellion.
- Awgrymwyd ysgrifennu at y Gweinidog Addysg er mwyn dangos gwerthfawrogiad am ei datganiad.
- Cytunwyd y byddai'n syniad i gyfathrebu pryderon y Cyd-bwyllgor at Geraint Rees fel Cadeirydd y Bwrdd.

**13. ADNODDAU DYSGU CYFUNOL**

**PENDERFYNIAD**

**Nodwyd a derbyniwyd yr adroddiad ac i gefnogi'r dull a'r model rhanbarthol i sicrhau parhad y dysgu yng Ngogledd Cymru.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion.

Bydd llyfrgell o adnoddau dysgu cyfunol ar gael i ysgolion y rhanbarth, wedi'u creu gan athrawon, ar gyfer athrawon. Mae clystyrau a chynghreiriau wrthi'n casglu, cyd-lunio a rhannu adnoddau gyda'i gilydd ac ar draws y rhanbarth. Bydd yr adnodd hwn ar gael drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE ac yn cynnwys adnoddau o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 5. Bydd yr adnodd hwn yn fodd i ysgolion barhau â'u harferion cydweithio cadarn drwy rannu'r adnoddau y byddent wedi'u datblygu. Bydd yn fodd i gefnogi cydweithwyr ar draws Gogledd Cymru yn ystod yr amser heriol hwn, a thu hwnt. Bydd YCG GwE ar gael i hwyluso a chefnogi'r gwaith yma gan obeithio y bydd hyn yn ysgafnu'r llwyth gwaith, ac yn rhoi modd i ysgolion gynllunio ar gyfer unrhyw beth allai ddigwydd.

**14. ADRODDIAD LLESIANT**

**PENDERFYNIAD**

**Nodwyd a derbyniwyd cynnwys yr adroddiad ac i gefnogi'r dull rhanbarthol o gefnogi lles plant a gweithlu'r rhanbarth.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd yr adroddiad ar y dull rhanbarthol o gefnogi lles y plant a'r gweithlu. Trafodwyd cynnwys y cynllun gan nodi bydd cyfres o weithdai yn cael eu cynnig i arweinwyr ysgolion a swyddogion addysg. .

Bydd hyblygrwydd i ysgolion gymryd rhan yn y sesiynau hyn, a'u defnyddio yn eu hysgolion eu hunain os dymunant. Claire Chidley, arbenigwr profiadol ac uchel ei pharch yn y maes ac sy'n gweithio'n rheolaidd gyda SOLACE, fydd yn hwyluso'r gweithdai.

Cyfeiriodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE at yr adroddiad sy'n amlinellu beth fydd y rhaglen yn ei gynnig. Ymhelaethwyd gan nodi y bydd y cynnig cyffredinol ar ffurf un digwyddiad 'byw' i lansio'r rhaglen, lle mae nifer galonogol o 185 o benaethiaid wedi cofrestru hyd

yma. Yn dilyn hyn, cynigir cyfres o webinarau, a fydd yn canolbwyntio ar amrywiol themâu ac agweddau ar lesiant a gwytnwch.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cydnabuwyd bod y rhaglen yn un ddiddorol sy'n nodi sawl dull o gefnogi lles.
- Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r awdurdodau sydd eisoes yn darparu gweithdai o'r fath yma er mwyn cefnogi penaethiaid a staff ysgol.
- Croesawyd yr adroddiad gan yr aelodau gan nodi ei bwysigrwydd yn y cyfnod presennol.

## 15. ADOYLGIAD THEMATIG ESTYN

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd a nodwyd cynnwys yr adroddiad a chytunwyd i gynnal trafodaethau pellach yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad.**

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cydbwyllgor eisoes yn ymwybodol o adolygiad thematig Estyn. Ychwanegwyd fod sesiwn diwrnod wedi ei gynnal yn ôl ym mis Hydref ac fod Estyn wedi cynnal cyfarfodydd â'r Awdurdodau Lleol yn ogystal. Mynegwyd fod llawer o ddogfennau a chrynodebau wedi eu hanfon i Estyn fel ran o'r gwaith paratoi.

Pwysleisiwyd fod yr adroddiad yn crynhoi yr hyn a gyflwynwyd i Estyn ac yn amlinellu'r rhaglen waith, y prif ddeilliannau a'i effaith. Mynegwyd nad oes adborth ffurfiol wedi ei dderbyn gan Estyn hyd yma ac y bydd adroddiad cyflawn cenedlaethol yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr. Ychwanegwyd y bydd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cael adborth ysgrifenedig ar eu gwaith. Amlygwyd yr angen am drafodaeth bellach yn dilyn derbyn yr adroddiad.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd dealltwriaeth dros greu yr adroddiad ond cwestiynwyd amseriad cynnal yr ymarferiad yn ystod y cyfnod yma.

## 16. YSGOLION MEWN CATEGORI

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd a nodwyd cynnwys yr adroddiad a chytunwyd ar y camau nesaf. Penderfynwyd ysgrifennu at Estyn yn gofyn am arweiniad ac eglurder buan ynglŷn â'r sefyllfa.**

Trafodaeth

Diweddarwyd yr aelodau ar y sefyllfa bresennol o ran yr ysgolion sydd mewn Categori Statudol Estyn a Chategori Adolygu gan Estyn. Adroddodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE ar yr heriau mae'r ysgolion yn eu hwynebu o ganlyniad i covid-19.

Adroddwyd bod ymweliadau Estyn a GwE wedi eu gohirio am gyfnod ond y bydd ymweliadau bugeiliol yn ail gychwyn yr hanner tymor yma. Nodwyd na fydd adroddiadau ysgrifenedig yn digwydd am y tro. Ymhelaethwyd ar hyn gan nodi y bydd adborth o'r ymweliadau yma yn helpu Estyn i adnabod yr adeg briodol i ailddechrau monitro ffurfiol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd fod y rhanbarth yn naturiol yn bryderus nad oes eglurder ar eu camau nesaf.
- Mynegwyd ei fod yn galonogol clywed bod Estyn wedi trafod y materion yn fewnol a bydd y canlyniad yn cael ei rannu dros yr wythnosau nesaf.
- Awgrymwyd cyfathrebu gyda'r prif arolygydd i ofyn am eglurhad a chynnal trafodaethau pellach.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12.35yp.

____________________________________

**CADEIRYDD**

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyd-Bwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 24 Chwefror 2021 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2020/21 – Adolygiad 3ydd Chwarter** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cyd-Bwyllgor am yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2020/21.<br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Mae'r adolygiad 3ydd chwarter yn amcangyfrif tanwariant net o (£42,505), yn bennaf yn sgil arbediad ar y gyllideb costau teithio craidd.

1.2 Er hynny mae effaith Covid-19 i'w weld yn effeithio ar amryw benawdau unigol, ac mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**

**Chwarter 3: gorwariant £18,455** *Chwarter 2: gorwariant £31,302*

Fel adroddwyd yn adolygiad chwarter 2, mae gorwariant yn bennaf oherwydd cost ddiswyddo 2 aelod o staff roedd ar gontractau dros-dro ond gyda gwasanaeth o'u cyflogaeth blaenorol.

Bu lleihad yn y gorwariant ers chwarter 2, yn sgil secondiad un aelod o staff.

2.2 **Rhent:**

**Chwarter 3: gorwariant £58,080** *Chwarter 2: gorwariant £58,080*

Fel adroddwyd yn adolygiad chwarter 2, mae diffyg incwm disgwyliedig ar y pennawd yma cyfwerth â gorwariant yn 2020/21. Mae cyllideb incwm rhent am ddefnydd adeiladau GwE yn ddibynnol ar incwm gan ysgolion, awdurdodau a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael ei ariannu drwy grantiau. Gan nad yw'r incwm yn allanol, ni ellir hawlio grant digolledu o gronfa caledi Llywodraeth Cymru.

2.3 **Cludiant:**

**Chwarter 3: tanwariant (£120,145)** *Chwarter 2: tanwariant (£94,928)*

Adroddwyd yn Chwarter 2 fod disgwyl tanwariant sylweddol, ond adeg hynny roedd ymweliadau addysgol yn ailgychwyn, a disgwyl byddai gwariant eleni yn cynyddu o ganlyniad. Wrth gwrs, yn y cyfnod clo diweddaraf, ni fu unrhyw deithio ac mae'n aneglur pryd fydd ymweliadau ysgol yn ail-gychwyn.

2.4 **Cyflenwadau a Gwasanaethau:**

**Chwarter 3: gorwariant £723** *Chwarter 2: tanwariant (£25,956)*

Yn chwarter 2 fe adroddwyd ar sefyllfa o danwariant. Bellach mae'r sefyllfa yn fwy eglur, a fe ddisgwylir i'r sefyllfa terfynol ar y pennawd hwn fod yn lled-niwtral.

2.5 **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)**
**Chwarter 3: niwtral** *Chwarter 2: niwtral*
Fel adroddwyd yn Chwarter 2, bu toriad cyffredinol o 3% (£957,939) i'r GGYCR, a thoriad (£1,263,019) ar gynlluniau penodol yn sgil ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng Covid-19 (gyda thoriad GwE yn £328,361 a thoriad yr awdurdodau / ysgolion yn £1,892,597). Er hynny, gan fod rhai cynlluniau wedi'u gohirio, a gyda chynllunio ariannol cadarn, disgwylir ganlyniad ariannol llêd-niwtral yn 2020/21.

Dadansoddiad o'r grant gyflawn isod:

| | |
|---|---|
| Datganoledig* | £27,468,198 |
| Heb ei ddatganoli | £ 7,828,872 |
| Cyfanswm | **£35,297,070** |
| Grant | £32,810,790 |
| Arian Cyfatebol | £ 2,486,280 |
| Cyfanswm | **£35,297,070** |

** Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.*

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2020/21 oedd £480,204.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £522,709 ar ddiwedd 2020/21, wedi ystyried y tanwariant a ragwelir uchod.

3.3 Gall fod her ariannol yn 2021/22 oherwydd ansicrwydd ynglŷn â grantiau penodol, felly awgrymir neilltuo'r gronfa tanwariant am y tro, cyn ystyried pwysau a chost dal i fyny yn 2021/22.

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyllideb GwE 2020/21 – Adolygiad 3ydd Chwarter.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllid 2020/21 : 3ydd Chwarter Hydre

| | Cyllideb Diwygiedig £ | Gwariant Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 3) £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | | | |
| - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth | 910,202 | 871,204 | (38,998) |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 3,780,349 | 3,751,298 | (29,051) |
| - Staff ar Secondiad | 22,108 | 22,108 | 0 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (1,776,327) | (1,720,000) | 56,327 |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 42,043 | 72,220 | 30,177 |
| Adeilad | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 171,027 | 171,027 | 0 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (58,080) | 0 | 58,080 |
| Cludiant | | | |
| Costau Teithio | 135,506 | 15,361 | (120,145) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 72,045 | 72,768 | 723 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 16,285 | 16,285 | 0 |
| Ffioedd archwilio | 11,308 | 11,308 | 0 |
| Broceru | 285,002 | 285,002 | 0 |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | |
| Cyfreithiol | 5,652 | 5,652 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 9,692 | 9,692 | 0 |
| Cyllid | 41,913 | 41,913 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 46,356 | 46,356 | 0 |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | 469,948 | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 7,828,872 | 7,828,872 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 1,030,400 | 1,030,400 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 100,000 | 100,382 | 382 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 148,678 | 148,678 | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 346,769 | 346,769 | 0 |
| Trawsnewid Y System Ady | 75,295 | 75,295 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **13,715,043** | **13,672,538** | **(42,505)** |

| | Cyllideb Diwygiedig £ | Gwariant Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net £ |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | |
| - Cyngor Ynys Môn (19/20: 10.20% - 20/21: 10.15%) | (422,378) | (422,378) | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (19/20: 17.64% - 20/21: 17.63%) | (733,820) | (733,820) | 0 |
| - Cyngor Conwy (19/20: 15.30% - 20/21: 15.30%) | (636,936) | (636,936) | 0 |
| - Cyngor Dinbych (19/20: 15.26% - 20/21: 15.30%) | (637,104) | (637,104) | 0 |
| - Cyngor Fflint (19/20: 22.71% - 20/21: 22.68%) | (944,123) | (944,123) | 0 |
| - Cyngor Wrecsam (19/20: 18.89% - 20/21: 18.94%) | (788,560) | (788,560) | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (7,828,872) | (7,828,872) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (1,030,400) | (1,030,400) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (100,000) | (100,000) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | (148,678) | (148,678) | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (346,769) | (346,769) | 0 |
| Trawsnewid Y System Ady | (75,295) | (75,295) | 0 |
| Incwm Secondiadau | (22,108) | (22,108) | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(13,715,043)** | **(13,715,043)** | **0** |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **(42,505)** | **(42,505)** |

**Memorandwm -**
**Y Gronfa Tanwariant**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2020** | **(480,204)** |
| **Ychwaneger/Llai** - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2020/21 | (42,505) |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2021** | **(522,709)** |

**Cronfa Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2020** | **(71,320)** |
| **Ychwaneger -** Cyfraniad am y flwyddyn gyllidol 2020/21 | (16,285) |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2021** | **(87,605)** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 24 Chwefror 2021 |
| **TEITL** | **Cyllideb Sylfaenol 2021/22** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno i'r Cydbwyllgor :<br>• Cyllideb Sylfaenol GwE 2021/22 (Atodiad 1)<br>• Cyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau (Atodiad 2) |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2021/22 fel ei cyflwynir yn Atodiad 1. |
| **AWDUR** | Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd |

## 1. Cyllideb Sylfaenol ("sefyll yn llonydd")

1.1 Mae cyllideb GwE yn parhau i ddatblygu ac mae bellach yn adlewyrchu ymrwymiadau busnes craidd y Model Cenedlaethol a nifer sylweddol o brosiectau a ariennir trwy grant.

1.2 Mae effaith ariannol chwyddiant/cynnydd mewn prisiau wedi'u hamcangyfrif a'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol (ar sail "sefyll yn llonydd"), gan gynnwys codiadau cyflog a chynnydd CPI (gweler Atodiad 1).

1.3 Amlygir cyfraniadau ariannol yr Awdurdodau yn Atodiad 2.

1.4 Mae'r gyllideb atodol yn adlewyrchu penderfyniad gan y Cynghorau i ychwanegu chwyddiant yn llawn, ac i beidio gweithredu toriad yn 2021/22.

1.5 Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth yn annigonol ar gyfer amlygu goblygiadau ariannol grantiau penodol yn 2021/22.

**2. Cronfa Tanwariant**

2.1 Mae'r adroddiad 'Cyllideb GwE 2020/21 - Adolygiad Chwarter 3' (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn amcangyfrif bydd oddeutu £522,709 yn y gronfa tan wariant ar 31/03/2021, sy'n llai na 4% o drosiant GwE ac yn yr amgylchiadau cyfredol yn swm addas i'w gadw wrth gefn.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cyllideb Sylfaenol GwE ar gyfer 2021/22

Atodiad 2 - Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol 2021/22

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - CYLLIDEB GwE 2021-22

| | Cyllideb Terfynol 2020/21 £ | Addasiad Chwyddiant £ | Addasiadau Eraill £ | Cyllideb Terfynol 2021/22 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | | | | |
| Cyflogau | | | | |
| - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth | 910,202 | 14,139 | | 924,341 |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 3,780,349 | 80,592 | | 3,860,941 |
| - Staff ar Secondiad | 22,108 | | | 22,108 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (1,776,327) | (44,206) | | (1,820,533) |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 42,043 | 545 | | 42,588 |
| Adeilad | | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 171,027 | 2,218 | | 173,245 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (58,080) | (753) | | (58,833) |
| Cludiant | | | | |
| Costau Teithio | 135,506 | 1,758 | | 137,264 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 72,045 | 935 | | 72,980 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 16,285 | 211 | | 16,496 |
| Ffioedd archwilio | 11,308 | 146 | | 11,454 |
| Broceru | 285,002 | 3,696 | | 288,698 |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | | |
| Cyfreithiol | 5,652 | 74 | | 5,726 |
| Adnoddau Dynol | 9,692 | 126 | | 9,818 |
| Cyllid | 41,913 | 543 | | 42,456 |
| Technoleg Gwybodaeth | 46,356 | 601 | | 46,957 |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | | | 469,948 |
| Prosiectau Penodol | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 7,828,872 | | | 7,828,872 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 1,030,400 | | | 1,030,400 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 100,000 | | | 100,000 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 148,678 | | | 148,678 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 346,769 | | | 346,769 |
| Trawsnewid Y System Ady | 75,295 | | | 75,295 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **13,715,043** | **60,625** | **0** | **13,775,668** |

| | Cyllideb Terfynol 2020/21 £ | Addasiad Chwyddiant £ | Addasiadau Eraill £ | Cyllideb Terfynol 2021/22 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | | |
| - Cyngor Ynys Môn (20/21: 10.15% - 21/22: 10.16%) | (422,378) | (6,151) | (524) | (429,053) |
| - Cyngor Gwynedd (20/21: 17.63% - 21/22: 17.63%) | (733,820) | (10,687) | (169) | (744,676) |
| - Cyngor Conwy (20/21: 15.30% - 21/22: 15.28%) | (636,936) | (9,276) | 984 | (645,228) |
| - Cyngor Dinbych (20/21: 15.30% - 21/22: 15.36%) | (637,104) | (9,278) | (2,349) | (648,731) |
| - Cyngor Fflint (20/21: 22.68% - 21/22: 22.72%) | (944,123) | (13,749) | (1,569) | (959,441) |
| - Cyngor Wrecsam (20/21: 18.94% - 21/22: 18.86%) | (788,560) | (11,484) | 3,627 | (796,417) |
| | | | | |
| Prosiectau Penodol | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (7,828,872) | | | (7,828,872) |
| Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (1,030,400) | | | (1,030,400) |
| Grant Amddifadedd Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (100,000) | | | (100,000) |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | (148,678) | | | (148,678) |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (346,769) | | | (346,769) |
| Trawsnewid Y System Ady | (75,295) | | | (75,295) |
| | | | | |
| Incwm Secondiadau | (22,108) | | | (22,108) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(13,715,043)** | **(60,625)** | **0** | **(13,775,668)** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** | **0** |

## Atodiad 2

| | Craidd | | | | Arall | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **I'w ariannu gan** | **Cyllideb 2020/21 £** | **Chwyddiant 1.64% £** | **Addasiadau canran cyfraniad £** | **Is-gyfanswm 2021/22 £** | **Addasiad Model Cenedlaethol £** | **Cyllideb Drafft 2021/22 £** | % |
| Ynys Môn | **374,696** | 6,151 | 466 | **381,313** | 47,740 | **429,053** | 10.16% |
| Gwynedd | **650,980** | 10,687 | 150 | **661,817** | 82,859 | **744,676** | 17.63% |
| Conwy | **565,033** | 9,276 | -875 | **573,434** | 71,794 | **645,228** | 15.28% |
| Dinbych | **565,182** | 9,278 | 2,088 | **576,548** | 72,183 | **648,731** | 15.36% |
| Fflint | **837,542** | 13,749 | 1,394 | **852,685** | 106,756 | **959,441** | 22.72% |
| Wrecsam | **699,540** | 11,484 | -3,223 | **707,801** | 88,616 | **796,417** | 18.86% |
| **Cyfanswm** | **3,692,973** | **60,625** | **0** | **3,753,598** | **469,948** | **4,223,546** | 100% |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 CHWEFROR 2021**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | **Adolygiad Thematig Estyn** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno adroddiad thematig Estyn 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19' i aelodau'r Cyd-Bwyllgor (gweler Atodiad 1).

## 2.0 Cefndir

2.1 Mewn ymateb i gais gan y Gweinidog Addysg, gofynnwyd i Estyn gynnal adolygiad thematig o ddulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi dysgu a dysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19.

2.2 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cyfnod o ddiwedd tymor yr haf i ddiwedd yr hydref 2020. Rhoddir trosolwg o'r ffordd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) i hyrwyddo dysgu a chefnogi disgyblion bregus yn ystod cyfnod COVID-19 rhwng Mehefin a Thachwedd 2020, sef y cyfnod pan oedd ysgolion yn ailagor yn dilyn y cyfnod clo. Mae'n cofnodi'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi addasu'u gwaith i ymateb i'r heriau yn deillio o COVID-19.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Mae cwmpas yr adroddiad thematig hwn yn cynnwys graddau'r cymorth a ddarparodd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddwy agwedd yn benodol:

- Hyrwyddo dysgu – ansawdd y cynnig dysgu a sut mae canllawiau pellach a dysgu proffesiynol wedi ategu hyn?
- Cefnogi disgyblion bregus – sut gwnaeth yr awdurdod lleol dargedu gwasanaethau a chymorth at ddisgyblion bregus i'w helpu i ymhél â dysgu? Pa rwystrau sy'n bodoli o hyd?

3.2 Hefyd, rhoddir ystyriaeth i'r gwaith cynllunio cynnar a gweithredu ar gyfer y grant 'Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam' ar draws ysgolion ac UCDau, a'r camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn.

3.3 Mae'r adroddiad yn cynnwys 'cameos' o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r cameos wedi eu cynnwys i ddangos enghreifftiau o bwyntiau a godwyd yn yr adroddiad, gan roi blas o'r gwaith sydd wedi digwydd ledled Cymru.

3.4 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion i Lywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, a phartneriaid a darparwyr eraill. Bydd GwE yn ymateb i'r argymhellion yma wrth gynllunio a gweithredu eu rhaglen waith.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Adroddiad Thematig Estyn

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn, felly cymeraf bydd unrhyw ymateb i'r argymhellion oddi fewn yr adolygiad thematig yma i'w flaenoriaethu o fewn adnoddau presennol GwE.

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19

## Adroddiad diweddaru o Fehefin i Dachwedd 2020

Ionawr 2021



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn darparu cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Y prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Arweinyddiaeth** | **7** |
| Gwneud penderfyniadau a llywodraethu | 7 |
| Cydweithio i gynorthwyo ysgolion ac UCDau | 8 |
| Cyflawni blaenoriaethau cyfredol | 9 |
| **Hyrwyddo dysgu** | **10** |
| Cynorthwyo ysgolion ac UCDau i ailagor | 10 |
| Nodi llithro yn ôl mewn dysgu a mynd i'r afael â hynny | 11 |
| Cefnogi sgiliau Cymraeg | 13 |
| Hyrwyddo profiadau cwricwlwm eang | 14 |
| Hyrwyddo dysgu o bell a dysgu cyfunol mwy effeithiol | 16 |
| Dysgu proffesiynol | 18 |
| **Cefnogi disgyblion bregus** | **21** |
| Paratoi er mwyn i ddisgyblion ddychwelyd ym mis Medi | 21 |
| Cefnogi lles | 25 |
| Cefnogi disgyblion bregus | 29 |
| **Atodiad 1: Sail dystiolaeth** | **33** |
| **Atodiad 2: Adborth meintiol yr arolwg** | **34** |
| **Atodiad 3: Cyhoeddiadau Estyn** | **39** |
| **Atodiad 4: Llinell amser** | **41** |
| **Geirfa** | **46** |
| **Cyfeiriadau** | **47** |

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais gan y Gweinidog Addysg am gyngor yng Ngorffennaf 2020. Mae'n cynnig trosolwg o'r ffordd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) i hyrwyddo dysgu a chefnogi disgyblion bregus yn ystod cyfnod COVID-19 rhwng Mehefin a Thachwedd 2020, sef y cyfnod pan oedd ysgolion yn ailagor yn dilyn y cyfnod clo. Mae'n cofnodi'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi addasu'u gwaith i ymateb i'r heriau yn deillio o COVID-19. Gwnaed y gwaith cyn i'r holl ysgolion ddychwelyd at ddysgu o bell ym mis Ionawr 2021, ond bydd yn fuddiol i lywio ffyrdd presennol o weithio.

Cynulleidfa fwriadedig yr adroddiad hwn yw swyddogion Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, a staff mewn ysgolion ac UCDau. Mae'n manteisio ar y sail dystiolaeth yn atodiad 1, gan gynnwys cyfweliadau, adborth arolygon a thystiolaeth ddogfennol. O ganlyniad i gyfyngiadau yn gysylltiedig â COVID-19, nid oeddem yn gallu ymweld ag ysgolion ac UCDau i gasglu tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd y ddarpariaeth. Gellir gweld yr adborth meintiol o'r arolygon a gyhoeddwyd yn Atodiad 2. Hefyd, rhoddom adborth manwl i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol unigol i ategu'u hunanwerthusiad nhw ar gyfer gwella. Mae'r adroddiad yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau gan Estyn i rannu dysgu a chefnogi ymateb ac adferiad parhaus y system addysg (Atodiad 3).

Mae'r adroddiad yn cynnwys 'cameos' o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Nid astudiaethau achos yw'r rhain, gan na allwn werthuso effaith y gwaith oherwydd y cyfyngiadau ar ein gweithgareddau o ganlyniad i COVID-19. Mae'r cameos wedi eu cynnwys i ddangos enghreifftiau o bwyntiau a godwyd yn yr adroddiad, gan roi blas o'r gwaith sydd wedi digwydd ledled Cymru.

## Cefndir

Yn ei ragair i Adroddiad Blynyddol 2019-2020, dywedodd Meilyr Rowlands PAEM (Estyn, 2020, t.4), 'daeth misoedd olaf blwyddyn academaidd 2019-2020 â heriau i addysg yng Nghymru nas gwelom mo'u tebyg mewn cenedlaethau. Cafwyd nifer o heriau, a'r rheiny'n rhai cymhleth ac annisgwyl. Newidiodd pandemig y COVID-19 fywydau pobl, cafodd effaith aruthrol ar economïau, ac amharwyd yn fawr ar systemau addysg ledled y byd ac yng Nghymru'. Mae ei ragair yn cynnig disgrifiad cychwynnol o'r modd y gwnaeth ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill ymdopi â'r cyfnod clo cychwynnol ac ymdrechu i gefnogi disgyblion a myfyrwyr a darparu parhad dysgu ar eu cyfer o bell. I gael rhagor o wybodaeth am y cyfnod clo cychwynnol hwn, gweler Adroddiad Blynyddol 2019-2020.

Mae'r adroddiad thematig hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod o ddiwedd tymor yr haf i ddiwedd yr hydref. Gellir gweld y llinell amser o ddigwyddiadau arwyddocaol yn ystod y cyfnod hwn yn Atodiad 4.

Ddiwedd Mehefin, roedd bron pob ysgol wedi ailagor i ddisgyblion er mwyn rhoi cyfle iddynt 'Ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf, a mis Medi'. Yng Ngorffennaf ac Awst, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i gynorthwyo ysgolion ag ailagor, ar gefnogi dysgwyr ac ar gefnogi dysgwyr agored i niwed (Llywodraeth Cymru 2020a, 2020b, 2020c). Ail-agorodd pob ysgol eu safleoedd ar gyfer eu holl ddisgyblion ym Medi, gyda chyfnod pontio cyn i'r holl ddisgyblion fod yn bresennol o 14 Medi 2020. Bron yn syth, dechreuodd ysgolion weld eu hachosion positif cyntaf o COVID-19 ymhlith disgyblion a staff oedd yn adlewyrch y cynnydd mewn achosion yn y cymunedau a chyhoeddwyd y cyntaf mewn cyfres o gyfyngiadau lleol i leihau ei drosglwyddiad. Bu'r cyfnodau hunanynysu yn amrywio o ddiwrnod i 14 diwrnod, yn dibynnu ar y rheswm a'r cyd-destunau unigol Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n ofynnol i ddisgyblion unigol, dosbarthiadau neu grwpiau blwyddyn cyfan hunanynysu ar adegau, gan arwain at yr angen am ddarpariaeth dysgu o bell. Fe wnaeth achosion positif o COVID-19 barhau i gynyddu a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfnod clo byr am bythefnos, o 23 Hydref 2020 ymlaen. Cafodd ysgolion ac UCDau eu cau dros hanner tymor yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod clo byr ac, yn ystod yr ail wythnos, aeth llawer o ddisgyblion oed uwchradd yn ôl i ddysgu o bell, gydag ysgolion cynradd yn ailagor ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb.

Ddechrau Tachwedd, roedd tua 90% o ddisgyblion yn yr ysgol. Fe wnaeth cyfran y disgyblion yn yr ysgol ostwng i ryw 80% erbyn diwedd Tachwedd ac i ryw 70% erbyn canol Rhagfyr, gan fod gofyn i niferoedd cynyddol o ddisgyblion hunanynysu neu roedd eu hysgol ar gau oherwydd prinder staff. Tua diwedd y tymor, roedd mwy o rieni yn dewis peidio danfon eu plant i'r ysgol, er bod yr ysgol ar agor a bod 'na ddim angen i'w plentyn hunanynysu. Mae'r ffigurau cenedlaethol hyn yn cuddio amrywio sylweddol rhwng ysgolion ac ardaloedd awdurdodau lleol, oherwydd yn yr awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt waethaf gan COVID-19, dim ond rhyw 50% o ddisgyblion oedd yn yr ysgol tua diwedd y tymor. Hefyd, mae'r ffigurau cenedlaethol yn cuddio amrywio sylweddol ar draws grwpiau oedran, gyda disgyblion oed ysgol uwchradd â'r presenoldeb isaf yn yr ysgol.

Mae cwmpas yr adroddiad thematig hwn yn cynnwys graddau'r cymorth a ddarparodd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau yn ystod y cyfnod hwn. Er nad yw'r cwmpas yn cynnwys darparwyr ôl-16 na darparwyr cyn-ysgol, cyfeiriwn at agweddau ar waith y sectorau hyn lle y bo hynny'n ddefnyddiol. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar ddwy agwedd yn benodol:

- Hyrwyddo dysgu – ansawdd y cynnig dysgu a sut mae canllawiau pellach a dysgu proffesiynol wedi ategu hyn?
- Cefnogi disgyblion bregus – sut gwnaeth yr awdurdod lleol dargedu gwasanaethau a chymorth at ddisgyblion bregus i'w helpu i ymhél â dysgu? Pa rwystrau sy'n bodoli o hyd?

Hefyd, ystyriom y gwaith cynllunio cynnar a gweithredu ar gyfer y grant 'Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam' ar draws ysgolion ac UCDau, a'r camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn.

Ar adeg ein hymgysylltiadau gydag ysgolion ym mis Hydref, ychydig bach iawn o ddisgyblion oedd angen derbyn dysgu cyfunol. Roedd rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu mynd i'r ysgol ac elwa o addysgu wyneb yn wyneb. Lle y bo angen i ddisgyblion ynysu neu warchod, roedd ysgolion yn darparu dysgu o bell tan eu bod yn dychwelyd. Byddai dull dysgu cyfunol yn cynnwys cynllun cydlynol, bwriadol ar gyfer dysgu'r disgyblion, gyda chyfuniad o ddysgu yn yr ysgol a gartref nad oedd ei angen yn y rhan fwyaf o ysgolion yn ystod tymor yr hydref.

## Y prif ganfyddiadau

1 Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd a Llywodraeth Cymru i ymateb i'r cyd-destun sy'n datblygu, a achoswyd gan y pandemig. Trwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW), mae uwch arweinwyr wedi cynnig cymorth da i'w gilydd ac wedi cydweithredu i greu dulliau ac adnoddau ar y cyd.

2 Rhoddodd awdurdodau lleol gymorth gwerthfawr i alluogi i'w hysgolion a'u UCDau ailagor i'w holl ddisgyblion yn llwyddiannus ym mis Medi. Cryfderau penodol oedd y cymorth ymarferol o ran iechyd a diogelwch a chyfathrebu â rhieni a dysgwyr. Er enghraifft, pan yn briodol, gweithiodd awdurdodau lleol gyda phartneriaid iechyd a gofal i gefnogi asesiadau risg, gan gynnwys i ddisgyblion bregus, a datblygu pecynnau croeso oedd yn darparu gwybodaeth i rieni, gofalwyr a disgyblion. Croesawodd arweinwyr ysgol y cyfarwyddyd gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ganolbwyntio ar les disgyblion, a theimlont fod hyn yn briodol.

3 Yn ystod y cyfnod clo a thymor yr hydref, bu'n rhaid i wasanaethau awdurdodau lleol ymateb yn gyflym i gefnogi lles yr holl ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion y gwyddant eu bod yn fregus. Lle'r oedd awdurdodau lleol eisoes yn cydweithio'n effeithiol ar draws gwasanaethau ac asiantaethau allanol, roedd hyn yn amlwg yn effeithlonrwydd eu hymateb i'r anghenion hyn. Mewn awdurdodau lleol eraill lle nad yw'r cydweithio wedi'i sefydlu cystal, mae'r pandemig wedi bod yn gatalydd i gryfhau gweithio ar y cyd. Hefyd, cyfrannodd y defnydd estynedig ar gyfathrebu digidol at weithio amlasiantaeth mwy effeithlon mewn awdurdodau lleol.

4 Yn ystod cyfnod clo tymor y gwanwyn a'r haf, bu'n rhaid i athrawon ymateb yn gyflym i'r angen i ddarparu deunyddiau dysgu o bell i ddisgyblion. Fe wnaeth y ddarpariaeth hon wella yn ystod tymor yr haf. Oherwydd bod angen o hyd i nifer o ddisgyblion ddysgu i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth yn ystod tymor yr hydref, mae gwella ymhellach a gwreiddio darpariaeth dysgu o bell a chyfunol yn parhau'n flaenoriaeth. Mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi datblygu canllawiau defnyddiol, rhestri arfer dda ac amrywiaeth o ddysgu proffesiynol. Fodd bynnag, mae goruchwyliaeth ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ansawdd y ddarpariaeth wedi'i thanddatblygu. Nid yw 22 y cant o'r athrawon a ymatebodd i'r arolwg o'r farn eu bod wedi cael digon o ddysgu proffesiynol i ategu'u dealltwriaeth o ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

5 Mae profiadau dysgu'r disgyblion wedi amrywio'n helaeth ar draws ac o fewn ysgolion ers ailagor. Mae hyn yn rhannol oherwydd effaith amrywiol y pandemig mewn ardaloedd gwahanol a, hefyd, o ganlyniad i'r polisïau a'r arferion gwahanol y mae awdurdodau lleol wedi'u mabwysiadu o ran cysylltiadau agos, a'r ffyrdd gwahanol y mae ysgolion wedi trefnu grwpiau a charfannau o ddisgyblion. Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at brofiadau dysgu anghyfartal i ddisgyblion sydd wedi cael y rhan fwyaf o'u haddysg yn nhymor yr hydref yn yr ysgol ac i'r disgyblion hynny sydd wedi cael eu haddysgu o bell am gyfnodau estynedig. Mae'r rhwystrau rhag dysgu gartref, a amlygwyd yn nhymor yr haf, gan gynnwys mynediad at dechnoleg ddigidol, yn parhau.

6 Yn ei Adroddiad Blynyddol diweddar, nododd y Prif Arolygydd ‘er ymdrechion sylweddol gan ysgolion, awdurdodau lleol a’r llywodraeth ganolog i ddarparu cyfarpar a chymorth ychwanegol, roedd lleiafrif o ddygwyr dan anfantais oherwydd diffyg mynediad at gyfarpar cyfrifiadurol addas neu ddiffyg cysylltedd digonol’. Mae’r rhwystrau dysgu yn y cartref a nodwyd yn nhymor yr Haf, gan gynnwys mynediad i dechnoleg ddigidol yn parhau.

7 Mae’r pandemig eisoes wedi cael mwy o effaith ar rai grwpiau o ddisgyblion ac wedi mwyhau heriau a fodolai eisoes. Er enghraifft, mae arweinwyr ysgol wedi dweud wrthym fod disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwneud cynnydd arafach yn eu dysgu na’u cymheiriaid yn ystod y cyfnod clo, gyda rhai disgyblion yn dychwelyd i’r ysgol â’u medrau iaith a rhifedd yn wannach nag yr oeddent cyn i’r cyfnod clo ddechrau.

8 Mae’r pandemig wedi gwaethygu rhai heriau yr oedd awdurdodau lleol a chonsortia eisoes wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i fynd i’r afael â nhw. Mae profiad disgyblion ledled Cymru o’r pandemig wedi bod yn wahanol iawn o ganlyniad i’w hamgylchiadau gartref. Mae’r cyfnod cau ysgolion a’r angen i ddisgyblion weithio gartref am gyfnodau yn ystod tymor yr hydref wedi amlygu’r angen i ddisgyblion allu gweithio’n annibynnol yn llwyddiannus ac i ysgolion ganolbwyntio ar gynorthwyo disgyblion i wella gwydnwch dysgu.

9 Mae awdurdodau lleol a chonsortia wedi cydnabod effaith tymor hwy bosibl y pandemig ar les plant a phobl ifanc. Mae pob un ohonynt wedi cynnig dysgu proffesiynol estynedig i staff ysgolion ac UCDau ar gefnogi lles, gan gynnwys, profedigaeth a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae plant a phobl ifanc sydd eisoes yn wynebu heriau oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod cyn y pandemig wedi wynebu heriau pellach. Efallai hefyd fod y pandemig wedi effeithio ar blant a phobl ifanc mewn amgylchedd teuluol sefydlog, gydag ychydig neu ddim profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Er enghraifft, gall amser i ffwrdd oddi wrth ffrindiau oherwydd cyfnodau clo, cyfnodau o ynysu neu orfod aros mewn swigod caeth yn yr ysgol gael effaith niweidiol ar ddatblygiad cymdeithasol disgyblion ac ar eu hiechyd meddwl.

10 Gan amlaf, mae awdurdodau lleol wedi sicrhau bod prosesau statudol i ddisgyblion yn gysylltiedig ag anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys asesiadau ac adolygiadau blynyddol, wedi parhau yn ystod tymor yr hydref. Lle y bu oedi, y rheswm fwyaf cyffredin oedd prinder yng nghapasiti gwasanaethau seicoleg addysg a gwasanaethau arbenigol eraill oherwydd absenoldeb staff neu oblegid yr heriau o ddarparu’r gwasanaeth o bell.

11 Mae swyddogion consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi parhau i gefnogi cymhwysedd digidol athrawon ac arweinwyr ysgol yn ystod tymor yr hydref. Mae’r defnydd effeithiol cynyddol o gyfathrebu digidol wedi cael canlyniadau cadarnhaol o ran hwyluso rhyngweithiadau mwy chwim, effeithlon a chyson rhwng ac o fewn cymunedau dysgu ledled Cymru. Mae ysgolion ac arweinwyr UCDau wedi gwerthfawrogi hyblygrwydd cyfleoedd dysgu proffesiynol ar-lein a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

12 Mae barn gymysg ymhlith arweinwyr ysgol ledled Cymru am effeithiolrwydd y cymorth a gawsant gan eu hawdurdod lleol a'u consortiwm gwella addysg rhanbarthol yn ystod y pandemig. Arweinwyr ysgol yn ne-orllewin Cymru sy'n fwyaf bodlon â'r cymorth a gawsant gan eu hawdurdod lleol ac arweinwyr ysgol yng ngogledd Cymru sy'n fwyaf bodlon â'r cymorth a gawsant gan eu consortiwm rhanbarthol.

13 Gwnaeth awdurdodau lleol addasiadau cynnar priodol i'r trefniadau llywodraethu, ond roedd ychydig awdurdodau lleol yn rhy araf yn ailddechrau eu swyddogaethau craffu. Erbyn canol Gorffennaf, roedd y rhan fwyaf o gynghorau wedi dechrau cynnal cyfarfodydd Cabinet ar-lein, ond dim ond hanner y cynghorau a oedd wedi cynnal cyfarfodydd rhithwir o'u pwyllgorau craffu. O ganlyniad, nid oedd hanner y cynghorau wedi craffu ar benderfyniadau ynghylch ailagor ysgolion a darparu cymorth i ddysgwyr yn yr haf. Erbyn yr hydref, roedd Cabinetau pob cyngor yn cwrdd ar-lein ac roedd pwyllgorau craffu yn y rhan fwyaf o gynghorau yn cwrdd ar-lein hefyd.

## Argymhellion

**Argymhellion i Lywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, a phartneriaid a darparwyr eraill i:**

A1 Ymateb ar frys i fynd i'r afael a'r rhwystrau i ddysgu o adre, yn enwedig lle mae'r rhain yn ymwneud a diffyg mynediad i gyfrifiaduron neu gyswllt a'r we

A2 Gwella ansawdd y profiadau dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddisgyblion trwy gefnogi addysgu mwy effeithiol ar draws ac o fewn ysgolion ac UCDau

A3 Datblygu dulliau cydlynol i wella cynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol disgyblion bregus y mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur arnynt, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A4 Sefydlu strategaeth i fonitro ac i fynd i'r afael ar effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl disgyblion

A5 Creu cyfleoedd i bwyso a mesur a gwerthuso effaith polisïau ac arferion a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn i lywio ffyrdd o weithio yn y dyfodol a dylunio'r cwricwlwm

## Arweinyddiaeth

### Gwneud penderfyniadau a llywodraethu

14 Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd a Llywodraeth Cymru i ymateb i'r cyd-destun sy'n datblygu, a achoswyd gan y pandemig. Trwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru - ADEW - mae cyfarwyddwyr addysg wedi gweithio ar y cyd i gefnogi'i gilydd yn ystod y pandemig. Mae cyfarwyddwyr wedi lleihau'r baich arnyn nhw'u hunain, eu swyddogion a'u staff yn y consortia rhanbarthol trwy amlygu agweddau ar waith y gallant gytuno i gydweithio arnynt neu weithio arnynt ar ran ei gilydd. Mae ADEW wedi ategu gwaith cenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru, er enghraifft canllawiau ar barhad dysgu.

15 Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi sawl adroddiad ar y modd y mae'r pandemig wedi effeithio ar drefniadau llywodraethu cynghorau. Yn gynnar yn ystod y cyfnod clo cyntaf, bu'n rhaid i gynghorau ddefnyddio trefniadau llywodraethu brys, gan olygu, gan amlaf, mai 'uwch swyddogion y cyngor fyddai'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch sut y byddai cynghorau'n defnyddio arian cyhoeddus ac yn darparu gwasanaethau, mewn ymgynghoriad â nifer lawer llai o uwch gynghorwyr nag y byddai fel arfer yn ymwneud â gwneud penderfyniadau – a dim ond arweinydd y cyngor weithiau.' (Archwilio Cymru, 2020).

16 Roedd rhai cynghorau'n araf i ddefnyddio rheoliadau newydd a ddaeth i rym yn Ebrill 2020 a'i gwnaeth hi'n haws i gynghorau gyfarfod yn rhithwir. Fel y nododd Archwilio Cymru, 'Yn achos rhai o'r cynghorau hynny, nid oes cofnod cynhwysfawr ar gael ar-lein o'r penderfyniadau a wnaethpwyd ers dechrau'r cyfyngiadau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r cyhoedd weld a deall y penderfyniadau a wnaethpwyd gan eu cyngor yn ystod y cyfyngiadau, a phwy sy'n atebol amdanynt' (Archwilio Cymru, 2020).

17 Erbyn canol Gorffennaf 2020, roedd y rhan fwyaf o gynghorau wedi dechrau cynnal cyfarfodydd y Cabinet ar-lein, ond dim ond hanner y cynghorau oedd wedi cynnal cyfarfodydd rhithwir o'u pwyllgorau craffu. O ganlyniad, nid oedd hanner y cynghorau wedi craffu ar benderfyniadau ynghylch ailagor ysgolion i'r holl ddisgyblion a darparu cymorth i ddysgwyr yn yr haf. Erbyn yr hydref, roedd Cabinetau pob cyngor yn cyfarfod ar-lein ac roedd pwyllgorau craffu yn y rhan fwyaf o gynghorau'n cyfarfod ar-lein hefyd.

18 Pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud am wasanaethau addysg, dylai awdurdodau lleol fel arfer ystyried barn arweinwyr ysgol, ynghyd â rhanddeiliaid eraill, lle y bo'n berthnasol. Darganfu ein harolwg o arweinwyr ysgol ledled Cymru ym mis Hydref 2020 fod y mwyafrif ohonynt yn cytuno bod eu hawdurdod lleol yn eu cynnwys yn effeithiol mewn penderfyniadau am wasanaethau addysg lleol. Fodd bynnag, nid yw ychydig arweinwyr ysgol o'r farn eu bod yn cael eu cynnwys ddigon. Mae awdurdodau lleol wedi parhau i adeiladu ar yr amrywiaeth o fforymau sydd ganddynt gydag arweinwyr ysgol ac UCD i gyfathrebu, ymgynghori ac, mewn ychydig achosion, datblygu dulliau ar y cyd.

## Gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ysgolion ac UCDau

19 Roedd arweinwyr ysgolion ac UCDau yn ne orllewin Cymru yn fwy cadarnhaol o lawer am waith eu hawdurdod lleol nag yr oedd arweinwyr yn y tri rhanbarth arall am eu hawdurdod lleol. Er enghraifft, roeddent yn fwy cadarnhaol am amseroldeb cyngor ac arweiniad gan yr awdurdod lleol, pa mor dda roedd eu hawdurdod lleol yn cyfathrebu â nhw, a'r cymorth a roddwyd i alluogi'u hysgol neu UCD i ailagor yn llwyddiannus ym Medi. Hefyd, roeddent yn fwy cadarnhaol ynghylch pa mor dda roedd eu hawdurdod lleol yn eu cynnwys nhw mewn trafodaethau am wasanaethau addysg. De orllewin Cymru yw'r unig ranbarth lle y mae ymgynghorwyr her yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol, yn hytrach na chonsortia rhanbarthol, a gall hyn, yn rhannol, esbonio pam mae arweinwyr yn fwy cadarnhaol yn y rhanbarth hwn.

20 Mae barn arweinwyr ysgol am y cymorth a gânt gan eu consortiwm rhanbarthol yn amrywio'n sylweddol. Cytunodd mwyafrif o arweinwyr fod GwE wedi rhoi cymorth ac arweiniad effeithiol i ategu dysgu yn eu hysgol neu UCD. Roedd bron i hanner o arweinwyr wedi cytuno mai dyma'r achos gydag EAS, ond lleiafrif yn unig gytunodd mai dyma'r achos gyda CSC ac ERW. Hefyd, cytunodd mwyafrif o arweinwyr fod GwE wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwahaniaethau rhwng dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac ymagweddau atynt. Dim ond ychydig dros hanner o arweinwyr gytunodd mai dyma oedd yr achos gyda CSC ac EAS, a lleiafrif yn unig gytunodd mai dyma oedd yr achos gydag ERW.

21 Dywedodd ychydig dros hanner o arweinwyr ysgol wrthym eu bod o'r farn bod eu hawdurdod lleol yn poeni am eu lles. Mae hyn yn awgrymu bod lle i wella yn y berthynas rhwng rhai awdurdodau lleol a'u harweinwyr ysgol. Dywedodd mwyafrif o athrawon a'r rhan fwyaf o staff cymorth wrthym fod eu hysgol yn gofalu'n dda am les staff.

22 Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, bu'n rhaid i wasanaethau awdurdodau lleol ymateb yn gyflym i gefnogi lles pob dysgwr, yn enwedig y dysgwyr hynny y gwyddant eu bod yn fregus. Lle'r oedd awdurdodau lleol eisoes yn cydweithio'n effeithiol ar draws gwasanaethau ac asiantaethau allanol, roedd hyn yn amlwg yn effeithlonrwydd eu hymateb i anghenion. Er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd 'model gwasanaeth cymorth cynnar bro' eisoes yn golygu bod timau amlddisgyblaeth yn gweithio o dair canolfan yn y sir, gan weithio'n integredig i gefnogi teuluoedd â phlant a phobl ifanc bregus. Roedd timau hyn mewn sefyllfa dda i weithio'n gydweithredol a chynnig cymorth yn ystod y pandemig. Mewn awdurdodau lleol lle nad yw cydweithredu wedi'i sefydlu cystal, mae'r pandemig wedi bod yn gatalydd i gryfhau gweithio ar y cyd. Er enghraifft, mae gwasanaeth seicoleg addysg Ynys Môn a Gwynedd wedi cydweithredu â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i ddatblygu ymagwedd newydd at gefnogi disgyblion sy'n absennol o'r ysgol oherwydd eu lles emosiynol.

23 Mae awdurdodau lleol wedi ceisio cynorthwyo arweinwyr ysgol i baratoi ar gyfer amrywiol senarios yn wyneb ansicrwydd ynghylch sut gallai'r pandemig effeithio ar ysgolion yn ystod yr hydref ac yn 2021. Yn ein harolwg, dywedodd mwyafrif o arweinwyr ysgolion ac UCDau wrthym fod eu hawdurdod lleol yn darparu arweiniad effeithiol i'w cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau hyblyg pe bai cynnydd sydyn pellach mewn heintiadau.

**Cameo: Cynllunio Gwydnwch Busnes Ysgolion**

Cyn i ysgolion weithredu'n fwy, gofynnodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth Teuluol Pen-y-bont ar Ogwr i bob ysgol, gan gynnwys yr UCD, lunio cynllun gwydnwch busnes. Darparodd yr awdurdod lleol dempled ar gyfer y cynllun. Gofynnwyd i leoliadau ystyried amrywiaeth o senarios posibl a'r camau y byddent yn eu cymryd i sicrhau parhad dysgu. Fe wnaeth yr awdurdod lleol sicrhau ansawdd y cynlluniau a, lle bo angen, gofyn am eglurhad pellach. Roedd senarios posibl yn cynnwys: hunanynysu gan ddisgyblion, naill ai yn unigol neu fel grwpiau blwyddyn gyfan; hunanynysu gan staff; cynllunio i sicrhau parhad arweinyddiaeth. Gallai atebion posibl cynnwys cynllunio a mapio dysgu cyfunol yn strategol; datblygu gallu a chapasiti staff a disgyblion i ddefnyddio platfformau ar-lein i ategu dysgu cyfunol; llunio pecynnau dysgu brys a baratowyd ymlaen llaw i bob grŵp o ddisgyblion; defnyddio grant Recriwtio, adfer a chodi safonau Llywodraeth Cymru, a threfniadau cyflenwi.

## Cyflawni blaenoriaethau cyfredol

24 Mae awdurdodau lleol wedi ceisio cynnal 'busnes yn ôl yr arfer' cymaint â phosibl wrth ddelio ag anghenion ychwanegol amrywiol ysgolion ac UCDau yn gysylltiedig â'r pandemig. Er enghraifft, lle bynnag y bo'n bosibl, mae gwaith wedi parhau i ad-drefnu ysgolion a gwella cyfleusterau ysgolion fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Heb os, mae'r baich gwaith sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r pandemig wedi arafu cynnydd mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft, ar ddiwedd Mawrth 2020, gadawodd Castell-nedd Port Talbot y consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol, ERW, a rhoddodd tri o'r pum awdurdod lleol arall rybudd o'u bwriad i adael ar ddiwedd Mawrth 2021. Mae'r diffyg cynllun clir ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion yn ne orllewin Cymru o Ebrill 2021 ymlaen yn bryder sylweddol. Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion o bob awdurdod lleol yn y rhanbarth wedi bod yn araf i ddangos bod ganddynt weledigaeth a chynllun clir ar gyfer y modd y darperir gwasanaethau gwella ysgolion o ansawdd uchel, sy'n bodloni'u hanghenion, i ysgolion ac UCDau o Ebrill 2021 ymlaen.

25 Yn anochel, mae'r pandemig wedi tarfu ar y gweithgareddau cynllunio a dysgu proffesiynol, yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, yr oedd ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi'u cynllunio ar gyfer eleni. O fis Medi, yn wreiddiol, roeddem wedi bwriadu dechrau trafodaethau gyda phob ysgol yng Nghymru am eu gwaith paratoi cynnar i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o Fedi 2022 ymlaen. Yn hytrach, fe wnaeth ein trafodaethau gydag ysgolion yn yr hydref ganolbwyntio'n bennaf ar sut maen nhw'n ymateb i'r pandemig. Er y tarfu ar ein gwaith paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, yn ein hadroddiad blynyddol diweddaraf, nododd ein Prif Arolygydd fod y pandemig 'wedi cyflwyno'r angen a'r cyfle i ddarparwyr ddatblygu ac arloesi ... Gellid dadlau bod yr elfen o ailfeddwl a fynnodd y cyfnod clo gan ysgolion, law yn llaw ag ymgysylltiad dyfnach â theuluoedd a gwasanaethau cymorth, wedi rhoi ysgolion mewn lle gwell i gyd-greu gweledigaeth gyffredin gyda'r rhanddeiliaid hyn ar gyfer gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru' (Estyn, 2020, t.9).

# Hyrwyddo dysgu

## Cynorthwyo ysgolion ac UCDau i ailagor i'r holl ddisgyblion

26 Cyn mis Medi, dim ond ychydig o ddiwrnodau roedd llawer o ddisgyblion wedi'u treulio yn yr ysgol ers dechrau pandemig COVID-19 ym Mawrth, ac nid oedd rhai wedi treulio unrhyw amser o gwbl yn yr ysgol. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020c) ganllawiau i ysgolion a lleoliadau i gynorthwyo â dychwelyd i'r ysgol yn llawn ym mis Medi. Amlinellodd hyn flaenoriaethau ar gyfer dysgu, gan bwysleisio iechyd a lles disgyblion a phwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored. Sicrhaodd swyddogion o awdurdodau lleol eu bod yn mabwysiadu'r un blaenoriaethau yn eu gwaith gydag ysgolion ar ddechrau tymor yr hydref. Cydnabu swyddogion awdurdodau lleol y pwysau ar arweinwyr ysgol wrth iddynt gynllunio i ailagor ysgolion a faint o'u hamser roedd angen iddynt ei neilltuo i faterion gweithredol, gan gynnwys cadw staff a disgyblion yn ddiogel. Er mwyn cefnogi penaethiaid, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi cloriannu'r canllawiau ar ddysgu a dwyn gwybodaeth berthnasol ynghyd mewn un lle, fel yng Nghaerfyrddin, lle sefydlodd swyddogion wefan y Porth at y diben hwn. Dywedodd llawer o'r penaethiaid a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi cael digon o gymorth gan eu hawdurdod lleol i'w helpu i ailagor eu hysgol neu eu UCD yn llwyddiannus. Cytunodd llawer ohonynt fod eu hawdurdod lleol wedi darparu arweiniad mewn da bryd. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r hyn y dywedodd arweinwyr ysgol wrthym am yr arweiniad yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf, pan deimlai llawer ohonynt fod yr arweiniad wedi cyrraedd yn rhy hwyr a'u bod wedi gorfod rhoi prosesau ar waith i ategu dysgu'r disgyblion cyn cael arweiniad.

**Cameo: Cynorthwyo disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol**

Datblygodd GwE fodel rhanbarthol yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, gydag awdurdodau lleol ac ysgolion, i sicrhau bod anghenion unigol disgyblion yn cael eu bodloni, gan ystyried eu cyd-destun lleol. Roedd y model yn gwerthuso parodrwydd a dull yr ysgol i sicrhau bod dysgu'n parhau i bob disgybl. Canolbwyntiodd ar dair elfen gydberthynol sy'n asesu ffitrwydd disgyblion i ddysgu. Mae'r rhain yn cynnwys eu lles emosiynol a meddyliol; eu hiechyd a'u ffitrwydd corfforol; a'u medrau craidd, sef rhifedd, llythrennedd, annibyniaeth a pharodrwydd ar gyfer dysgu newydd.

Nod y model oedd cynorthwyo ysgolion i helpu disgyblion i ddychwelyd i 'ffitrwydd dysgu' a hybu dysgu sy'n caniatáu i ddisgyblion barhau i wneud cynnydd. Mae sicrhau cydlyniad i ddisgyblion rhwng dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell yn elfen allweddol arall o'r model, gan gynnwys datblygu dysgu priodol wrth ddatgymhwyso gofynion presennol y cwricwlwm dros dro.

27 Yn ystod gwyliau haf yr ysgol ac i mewn i dymor yr hydref, adeiladodd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol ar waith a ddechreuwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf i ddarparu cymorth ac arweiniad i ysgolion i sicrhau parhad dysgu'r disgyblion.

Mewn rhai achosion, cafodd adnoddau a ddarparwyd yn gynt yn ystod y pandemig eu diwygio a'u diweddaru i'w gwneud hi'n haws i arweinwyr ac athrawon ysgol eu defnyddio nhw. Er enghraifft, yn EAS, gwrandawodd swyddogion yn ofalus ar farn penaethiaid am y rhestr o fideos yn enghreifftio arfer effeithiol roedd swyddogion wedi dechrau ei llunio ar ddechrau'r pandemig. Yn nhymor yr haf, roedd y rhestr yn ddefnyddiol i ysgolion gan ei fod yn dwyn ynghyd y canllawiau cenedlaethol a lleol ar ddysgu o bell mewn un lle. Wrth i lefel y deunyddiau gynyddu, roedd hi'n fwy anodd ac yn cymryd mwy o amser i staff ysgolion ddefnyddio'r adnodd, ac ymatebodd swyddogion yn dda i hyn trwy symleiddio'r cynnwys mewn adnodd haws ei ddefnyddio ar y we.

**Cameo: Gwefan 'Cefnogi ein Hysgolion'**

I ymateb i adborth gan randdeiliaid, mae EAS wedi creu gwefan newydd sy'n gartref i'w hadnoddau cymorth i ysgolion. Mae'n haws mynd o gwmpas y wefan newydd na'r rhestr a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn flaenorol. Caiff adnoddau eu labelu'n glir ac mae'n hawdd pori drwyddynt. Mae'r wefan yn cynnwys adrannau ar bynciau gwahanol, fel llywodraethu, gwella'r ysgol, arweiniad ar ddefnyddio cyllid y grant dysgu carlam a chymorth â'r cwricwlwm. Hefyd, mae'r wefan yn cynnwys dolen i wefan newydd sy'n gartref i'r holl adnoddau'n ymwneud â dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae'r adnoddau hyn hefyd wedi'u trefnu'n glir o dan themâu ac mae nifer o enghreifftiau o astudiaethau achos a chyflwyniadau addysgiadol gan ysgolion, ynghyd â dolenni i adnoddau allanol defnyddiol. Er mwyn ei gwneud hi'n hawdd i arweinwyr ganfod unrhyw anodau newydd, caiff y rhain eu hamlygu bob wythnos mewn adran ar wahân, cyn cael eu symud i'r adran â'r thema berthnasol. Mae staff EAS yn darparu sesiynau rhagarweiniol ar-lein i'r gwefannau newydd. Mae'r sesiynau addysgiadol hyn, sy'n boblogaidd, yn benodol i sector ac ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ogystal ag arddangos y gwefannau, mae'r sesiynau hyn hefyd yn cynnwys dewis o sesiynau grŵp gyda chyflwyniadau gan ysgolion a chyfle i drafod mewn grwpiau bach.

## Nodi llithro yn ôl mewn dysgu a mynd i'r afael â hynny

28 Yn gynnar yn nhymor yr hydref, dechreuodd arweinwyr ysgol gynllunio'r ffordd orau y gallent ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau'. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020e) ganllawiau ar gyfer ysgolion i gynorthwyo â defnyddio'r grant, gan ddefnyddio gwaith sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys y Comisiynydd Plant a'r OECD, i nodi effaith y pandemig ar gynnydd disgyblion mewn dysgu. Er bod llawer o ddisgyblion heb wneud cymaint o gynnydd ag y gallent, roedd y llywodraeth yn cydnabod bod effaith y pandemig yn fwy ar rai grwpiau o ddisgyblion. Roedd y rhain yn cynnwys disgyblion mewn grwpiau blwyddyn sy'n paratoi ar gyfer arholiadau, disgyblion a oedd wedi pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a disgyblion bregus a difreintiedig. Fe wnaeth awdurdodau lleol a rhanbarthau gynorthwyo ysgolion i gynllunio ar gyfer defnyddio'r grant. Er enghraifft, yn GwE, fe wnaeth swyddogion weithio gydag ysgolion i geisio sicrhau bod penaethiaid yn defnyddio'r cyllid mewn ffordd gynaliadwy a chysoni ei ddefnydd â blaenoriaethau lleol, gan gynnwys strategaeth y Gymraeg, er budd disgyblion yn y tymor hwy. Ledled Cymru, bu'n anodd i lawer o ysgolion recriwtio staff gan ddefnyddio'r grant gan eu bod yn ceisio

denu nifer gyfyngedig o bobl a oedd ar gael. Fe wnaeth ychydig ysgolion gyflogi athro neu gynorthwyydd addysg ar y cyd a defnyddiodd llawer o ysgolion y cyllid i gynyddu oriau staff presennol. Mewn ysgolion llai, nid oedd y cyllid yn ddigon yn aml i allu helpu gyda recriwtio. Er ei bod hi'n rhy gynnar i ysgolion ac awdurdodau lleol fonitro effaith y grant ar fynd i'r afael â diffyg medrau disgyblion, mae gan swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia gynlluniau ar waith i wneud hyn. Darparodd swyddogion yn awdurdod lleol Powys gyngor defnyddiol i lywodraethwyr ar sut i werthuso defnydd ysgolion o gyllid ar gynnydd disgyblion.

29 Mae effaith y cyfnod clo cyntaf ar ddysgu a medrau disgyblion yn amrywio'n helaeth ledled Cymru. Yn eu hastudiaeth ar Waith Ysgol yn ystod y Cyfnod Clo, canfu ymchwilwyr o UCL (Green, 2020) fod plant ledled y Deyrnas Unedig wedi treulio 2.5 awr y dydd, ar gyfartaledd, yn cymryd rhan mewn dysgu. Mae eu hymchwil yn dangos bod 20% o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn dysgu am lai nag awr bob dydd a dim ond 17% weithiodd am fwy na phedair awr (Green, 2020, t.2). Mae hyn yn golygu bod bron pob disgybl ar draws y DU, rhwng Mawrth a Medi 2020, wedi treulio llawer llai o amser na'r arfer yn dysgu yn ystod y pandemig. Yng Nghymru, roedd nifer y disgyblion a wnaeth gymryd rhan mewn dysgu yn is na'r cyfartaleddau ar gyfer y DU. Canfu'r astudiaeth nad oedd 20% o ddisgyblion yn gwneud unrhyw waith ysgol gartref, neu eu bod yn gwneud llai nag awr y dydd (Green, 2020, t.19). Dim ond 15% o ddisgyblion oedd yn dysgu am bedair awr bob dydd (Green, 2020, t.19). Mae'r adroddiad yn amlygu anghydraddoldeb sylweddol yn gysylltiedig ag amddifadedd a grwpiau cymdeithasol. Mae ein canfyddiadau o alwadau ymgysylltu ag ysgolion yn ystod Hydref 2020 yn adlewyrchu'r canfyddiadau hyn. Dywed penaethiaid o ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol fod athrawon wedi'i chael yn anos cael disgyblion a theuluoedd i ymgysylltu â dysgu yn ystod tymor yr haf. Adroddom ar y rhesymau dros hyn, gan gynnwys mynediad at dechnoleg ar gyfer dysgu a chymorth gan rieni, yn adran thematig Adroddiad Blynyddol 2019-2020 (Estyn, 2020).

**Cameo: Asesu lefel ymgysylltiad dysgwyr ym Mro Morgannwg**

Cyn ailagor i'r holl ddisgyblion, datblygodd swyddogion yr awdurdod lleol, ar y cyd ag CSC ac ysgolion, fatrics i asesu lefel ymgysylltiad disgyblion a'u lles. Trwy sgyrsiau a gynhaliwyd rhwng partneriaid gwella a phenaethiaid, casglwyd gwybodaeth gan 55 o 56 ysgol ym Mro Morgannwg. Fe wnaeth yr adroddiad defnyddiol grynhoi canfyddiadau allweddol, rhwystrau a heriau ysgolion, ac arfer effeithiol ar draws y rhanbarth, a gorffennodd drwy amlygu ffyrdd ymlaen. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi cael ei defnyddio i lywio polisi lleol a rhannu arfer effeithiol ar draws yr awdurdod lleol trwy gasgliad o astudiaethau achos. Yn ogystal, darparwyd cefnogaeth i ysgolion i helpu cryfhau meysydd fel cynyddu ymgysylltiad disgyblion bregus.

30 Wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol ym Medi 2020, rhoddodd arweinwyr ac athrawon brosesau ar waith i nodi effaith cyfnod cau'r ysgolion ar ddysgu a medrau disgyblion. Defnyddiodd llawer o ysgolion asesiadau personol ar-lein cenedlaethol ar gyfer darllen a rhifedd gyda disgyblion ym Mlynyddoedd 2 i 9 i ategu asesiadau athrawon eu hunain o fedrau disgyblion. Roedd nodi lefelau medrau disgyblion yn dilyn cyfnod cau'r ysgolion yn her arbennig i ysgolion uwchradd wrth i ddisgyblion

symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. I helpu ysgolion nodi gwaelodlin ar gyfer y disgyblion hyn mewn ysgolion uwchradd ar draws rhanbarth y de ddwyrain, darparodd EAS gyllid i ysgolion i gynorthwyo ag asesu disgyblion. Ar y cyfan, dywed awdurdodau lleol fod medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion ar eu hôl hi, ac yn gynnar ym Mis Hydref dywed penaethiaid y bu effaith negyddol ar fedrau siarad a medrau cymdeithasol disgyblion iau yn y cyfnod sylfaen. Mae swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia yn gweithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â'r diffyg medrau hyn ac maent yn ymwybodol o'r angen i sicrhau nad yw ysgolion yn canolbwyntio ar y medrau craidd hyn ar draul y cwricwlwm ehangach.

### Cefnogi sgiliau Cymraeg

31 Problem a nodwyd yn ystod tymor yr haf oedd dysgu disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o gartrefi Saesneg eu hiaith, gan nad oedd llawer o'r disgyblion hyn wedi cael cyfle i glywed nac ymarfer yr iaith. Roedd mynd i'r afael a'r mater yma yn un o nodau rhaglen 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' Llywodraeth Cymru. Wrth i'r disgyblion oedd wedi effeithio gan hyn ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, roedd staff yn pryderu'n arbennig am lefelau medrau siarad disgyblion. Rhoddodd awdurdodau lleol nifer o fentrau ar waith i gefnogi ysgolion a disgyblion. Er enghraifft, yng Nghastell-nedd Port Talbot, datblygodd gwasanaeth ymgynghorol y Gymraeg adnoddau defnyddiol a chydweithio â'r Fenter Iaith a'r Urdd i ddarparu cymorth i ysgolion. Yn Wrecsam, sicrhaodd swyddogion fod disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg y bu'n rhaid iddynt hunanynysu ers Medi yn cael pecynnau adnoddau a sesiynau wyneb yn wyneb neu sesiynau ar-lein wythnosol, gan gynnwys podlediadau. Defnyddiodd sawl awdurdod lleol, gan gynnwys Conwy a Phen-y-bont ar Ogwr, eu cyfleusterau trochi i gynnig cymorth ychwanegol i'r disgyblion hyn ac fe wnaeth Caerdydd gynyddu ei ddarpariaeth yn y maes hwn i helpu ymdopi â'r galw. Hefyd, darparodd swyddogion yn y consortia rhanbarthol gymorth i ysgolion. Gosododd EAS aelodau o'i dîm cymorth Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth yn nhymor yr hydref i gynorthwyo staff a disgyblion i fynd i'r afael â'r diffyg ym medrau disgyblion. Yn ein trafodaethau â phenaethiaid o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, dywedodd llawer ohonynt eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar gyfer addysgu'r Gymraeg, yn enwedig yr adnoddau a luniwyd gan staff tîm ymgynghorol y Gymraeg i gefnogi'r ddarpariaeth yn yr ysgol.

**Cameo: Cefnogi disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg**

Un enghraifft o alinio gwaith Gwynedd a GwE yn agos yw eu dull o gynorthwyo ysgolion i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Fe ddwysaodd her darparu ar gyfer eu hanghenion ieithyddol pan ail-agorodd ysgolion ar gyfer yr holl ddisgyblion ym mis Medi oherwydd anawsterau cynnal unedau Cymraeg yn eu ffurf draddodiadol. I gefnogi ysgolion cynradd, trefnodd yr awdurdod lleol i'r athrawon arbenigol gynnig gwasanaeth allgymorth ar sail clwstwr, gyda swyddog cymorth gwella'r clwstwr yn gweithio gyda'r ysgolion i greu ac addasu cynlluniau gwaith Cymraeg.

32 Ymatebodd tua 1,000 o rieni i gwestiwn ein harolwg am y cymorth i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dywedodd llawer o'r rhain eu bod yn hapus â'r

cymorth a ddarparodd yr ysgol i helpu eu plant i wneud cynnydd o ran eu Cymraeg. Ychydig bach iawn o rieni deimlodd nad dyma oedd yr achos, ond o'r rhai a oedd o'r farn honno, dywedont fod diffyg cymorth i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg a diffyg adnoddau dwyieithog i alluogi rhieni i roi cymorth i'w plant gartref. Cytunodd y rhan fwyaf o'r disgyblion a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn cael cymorth da i'w helpu gyda'u medrau Cymraeg.

**Cameo: Cefnogi datblygiad Cymraeg disgyblion**

Yn Sir Gaerfyrddin, nododd swyddogion yn gynnar yn ystod y pandemig fod angen cefnogi disgyblion i barhau i ymwneud â'r Gymraeg. Fe wnaeth tîm ymgynghorol y Gymraeg addasu a mireinio'u hadnoddau presennol i ddarparu gweithgareddau i ysgolion ac UCDau eu rhannu gyda disgyblion a rhieni. Yn ogystal, aethant ati i greu gweithgareddau allgyrsiol a gwersi micro i ddisgyblion adalw dysgu blaenorol, adolygu gramadeg a datblygu'u medrau darllen a'u medrau rhifedd. Darparont dasgau buddiol yn seiliedig ar gerddi Cymraeg fel ysgogiad i ddysgu, ynghyd â darparu gweithgareddau i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion drwy'r 'Cynllun Clonc' a gweithgareddau Flipgrid.

Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol yn dda i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg, er enghraifft gweithgareddau gwyddonol yn yr awyr agored a gweithgareddau ar hanes yr ardal leol. Hefyd, dosbarthwyd llyfrynnau gwaith cartref i alluogi rhieni i gynorthwyo'u plant â gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Gweithiodd swyddogion yr awdurdod lleol ac athrawon nifer o'i ysgolion uwchradd gyda staff y consortiwm rhanbarthol i greu amrywiaeth eang o adnoddau Cymraeg gwerthfawr i gefnogi disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Fe wnaeth swyddogion barhau i ddatblygu adnoddau i ysgolion trwy gydol tymor yr hydref i gynorthwyo ysgolion i wella datblygiad Cymraeg disgyblion.

### Hyrwyddo profiadau cwricwlwm eang

33 Trwy addasu'r hysbysiadau ynglŷn â'r gofynion cwricwlaidd yng Nghymru, newidiodd Llywodraeth Cymru'r gofynion bod rheidrwydd ar ysgolion a lleoliadau meithrin nas gynhelir sy'n cael eu hariannu i ddarparu cwricwlwm sylfaenol a'r trefniadau asesu cysylltiol. Yn ymarferol, bu'r cwricwlwm gulhau mewn llawer o ysgolion yn ystod tymor yr hydref. Oherwydd eu hasesiadau risg unigol neu gam ddealltwriaeth o ofynion arweiniad gweithredol Llywodraeth Cymru, bu nifer o ysgolion yn gweld yr angen am ddiheintio adnoddau rhwng eu defnyddio. Yn yr ysgolion yma, roedd hyn wedi effeithio yn arbennig ar y disgyblion ieuengaf a'r hynaf. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, ystod gyfyngedig o adnoddau oedd ar gael i ddisgyblion y cyfnod sylfaen eu defnyddio yn eu darpariaeth barhaus ac estynedig. Mewn ysgolion uwchradd, roedd yn anos i athrawon reoli mynediad disgyblion at offer mewn pynciau ymarferol fel celf a gwyddoniaeth.

**Cameo: Cefnogi addysgu gwyddoniaeth**

Rhannodd timau pwnc ERW arweiniad clir a defnyddiol a roddodd sicrwydd i athrawon gwyddoniaeth yn y rhanbarth a'u cefnogi. Er enghraifft, rhoddodd tîm gwyddoniaeth ERW enghreifftiau o safleoedd ar-lein yn cynnwys fideos yn arddangos arbrofion, ac adnoddau defnyddiol a difyr y gallai athrawon eu defnyddio ar gyfer dysgu o bell.

34 Mewn ychydig awdurdodau lleol, daeth cyflwyno gwasanaethau a rennir i ysgolion i ben, er enghraifft hyfforddiant cerddoriaeth beripatetig i ddisgyblion. Mewn awdurdodau lleol, gan gynnwys Caerffili a Chaerdydd, daeth swyddogion o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu'r gwasanaethau hyn. Yng Ngheredigion, darparodd tîm technoleg gwybodaeth yr awdurdod gymorth i'r gwasanaeth cerddoriaeth i'w galluogi i addysgu'n rhithiwr. Mae hyn wedi galluogi disgyblion i barhau i dderbyn gwersi offerynnol. Mae'r ffordd hon o weithio wedi dileu amser teithio tiwtoriaid ac wedi cyfrannu at gynnal safonau'r disgyblion.

**Cameo: Gwasanaeth cerdd Caerffili**

Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi gweithio i sicrhau bod y gwasanaeth cerdd i ysgolion wedi gallu ailgydio yn ei waith yn llawnach o Fedi ymlaen. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu arweiniad clir i staff y gwasanaeth cerdd ac ysgolion ar sut gellir cyflwyno'r gwasanaeth hwn yn ddiogel mewn ysgolion. Hefyd, mae wedi rhoi arweiniad a phrotocolau manwl ar sut y gellir cyflwyno'r gwasanaeth o bell. Mae'r arweiniad yn cwmpasu amrywiaeth o faterion a senarios, gan gynnwys gwersi i unigolion a dosbarthiadau, sesiynau byw a sesiynau wedi'u recordio, ac ystyriaethau diogelu. Hefyd, mae'r arweiniad yn rhoi gwybodaeth glir ynghylch sut dylai canllawiau Llywodraeth Cymru gael eu dilyn yng nghyd-destun gwasanaeth cerdd Caerffili.

35 Ym mis Tachwedd 2020, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg, ar gyfer cymwysterau yn 2021, na fydd arholiadau diwedd blwyddyn ar gyfer disgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU, UG neu Safon Uwch. Sefydlodd y Gweinidog Grŵp Dylunio a Chyflawni i roi cyngor ar y broses o ddyfarnu cymwysterau heb arholiadau. Roedd cynlluniau ar gyfer y broses hon unwaith eto'n cael eu hadolygu wrth i'r tymor ddechrau ym mis Ionawr gyda'r holl ddisgyblion yn dysgu o gartref oherwydd cyfyngiadau symud cenedlaethol arall. Er ei bod yn ddealladwy ac yn angenrheidiol bod cynlluniau ar gyfer dyfarnu cymwysterau wedi gorfod newid eto eleni, gall y newidiadau hyn, yn enwedig newidiadau yn ystod y flwyddyn, achosi straen a phryder mawr i ddisgyblion, yn ogystal ag athrawon.

36 Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n dilyn cyrsiau cwricwlwm amgen o bryder arbennig i lawer o ysgolion. Mae llawer iawn o amrywiaeth o ran pa mor hawdd y gall y disgyblion hyn fanteisio ar eu darpariaeth amgen ac oddi ar y safle, ac mae hyn wedi bod yn her sylweddol i ysgolion o ran amserlennu. Nid yw nifer fawr o gyrsiau mwy ymarferol, fel trin gwallt a harddwch, wedi gallu cael eu cynnal. O ganlyniad, mae ychydig ddisgyblion sydd fel arfer yn manteisio ar ddarpariaeth o'r fath, yn enwedig y rhai oedd gynt mewn perygl o gael eu gwahardd, yn dangos ymddygiad heriol neu'n ymddieithrio. Hyd yn oed pan mae'r cyrsiau hyn yn hygyrch, mae'r amserlen yn llai yn aml gan na all y darparwr ganiatáu i ddisgyblion o un ysgol

gymysgu ag ysgol arall. Ym Mhowys, fe wnaeth swyddogion ymgysylltu â'r holl ddisgyblion ôl-16 drwy wefan Llwybrau Dysgu Powys yn ystod gwyliau'r haf. Helpodd hyn i ddisgyblion deimlo'u bod yn cael eu cefnogi a theimlo'n gysylltiedig ar ôl cyfnod o darfu ar eu dysgu. Ar yr un pryd, darparodd swyddogion yr awdurdod lleol unedau pontio defnyddiol i ddisgyblion a oedd ar fin dechrau cyrsiau ôl-16. Mae'r unedau hyn, ynghyd â'r cyswllt, wedi helpu disgyblion i bontio i'w hastudiaethau ôl-16. Yn ystod tymor yr hydref, bu rhaid i ddisgyblion aros yn eu hysgol eu hunain ar gyfer pob dysgu gan nad oedd hi'n bosibl ymweld â champysau eraill, hyd yn oed os oedd eu hathrawon pwnc yn gweithio yn rhywle arall. Gyda chymorth swyddogion yr awdurdod lleol, mae athrawon pwnc wedi ffrydio gwersi'n fyw er mwyn galluogi pob disgybl fanteisio arnynt. Gan fod yr awdurdod lleol eisoes wedi defnyddio dysgu o bell drwy eu rhaglen 'e-sgol', roedd y pontio i ddysgu ar-lein yn gymharol ddi-dor ac mae ysgolion a disgyblion yn gyfarwydd â sut i wneud y defnydd gorau ohono.

37 Mae darparwyr addysg ôl-16 wedi datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer cyfnodau clo lleol neu achosion o COVID-19 ac maent yn parhau i ddiwygio agweddau ar gyflwyno addysgu, hyfforddi ac asesu ar draws y sectorau. Lle y bu'n rhaid i leoliadau lle mae disgyblion yn cael addysg neu hyfforddiant wyneb yn wyneb gau, mae'r cyfyngiadau ar fynediad at weithleoedd disgyblion yn parhau'n rhwystr mawr rhag dysgu. Mae darparwyr yn cynnig gweithgareddau ar-lein i gynnal ymgysylltiad a diddordeb dysgwyr, ond her allweddol mewn rhaglenni a chyrsiau galwedigaethol yw cynnal ymgysylltiad a symbyliad disgyblion yn ystod cyfnodau clo neu hunanynysu. Fe wnaeth y disgyblion hyn ddewis cyrsiau ymarferol ac, oherwydd yr argyfwng presennol, mae'r agwedd hon yn aml wedi'i hatal neu ei lleihau yn sylweddol. Dywed darparwyr y gallai disgyblion lefelau uwch ar raglenni lefel uwch, hyd yn oed y rhai sy'n dilyn cyrsiau a rhaglenni academaidd, fethu gwneud y cynnydd a ddisgwyliwyd yn wreiddiol am resymau teuluol, er enghraifft oherwydd bod gofal plant yn cyfyngu ar eu hamser astudio.

### Hyrwyddo dysgu o bell a dysgu cyfunol mwy effeithiol

38 Yn ei hymchwil a gomisiynwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, canfu Dr Sofya Lyakhove o Brifysgol Abertawe (2020) y gallai cyfran fach o ddisgyblion wneud cynnydd yn eu dysgu, yn enwedig mewn darllen, er bod llawer o ddisgyblion yn disgyn ar ei hôl hi yn eu dysgu academaidd heb fynediad at athrawon a chymorth gan eu rhieni. Dyma ddisgyblion sydd â'r gallu i hunanreoleiddio neu, fel y dywed John Hattie (2020), 'maent yn gwybod beth i'w wneud pan nad ydynt yn gwybod ac mae help prin ar gael'. Mae ymchwil Lyakhova yn pwysleisio bod angen i iechyd a lles emosiynol disgyblion fod yn iach er mwyn iddynt allu dysgu'n annibynnol. Mae ymgynghorwyr gwella ysgolion wedi nodi bod meithrin gwydnwch a datblygu medrau annibynnol wedi dod yn fwy amlwg fel blaenoriaethau i ysgolion ers i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol yn yr hydref. Mae swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ymwybodol o'r angen am fwy o ffocws ar strategaethau dysgu ac addysgu sy'n cyflymu datblygiad galluoedd disgyblion yn y meysydd hyn.

39 Daeth yr angen i ysgolion weithredu'n gyflym i fynd i'r afael â'r angen i ddisgyblion ddysgu gartref yn fwy argyfyngus wrth i dymor yr hydref fynd yn ei flaen. Ym mis Medi 2020, daeth hi'n glir y byddai achosion positif o COVID-19 yn effeithio ar ysgolion ac y byddai angen i ddisgyblion hunanynysu gartref am gyfnodau ar y tro. Yn ein harolwg, dywedodd llawer o lywodraethwyr fod gan eu hysgolion a'u UCDau

gynlluniau cadarn ar waith i sicrhau y gallai addysgu barhau pe bai disgyblion i ffwrdd o'r ysgol oherwydd cyfnod clo arall neu'r angen i ynysu. Cytunodd mwyafrif o benaethiaid, gan ddweud bod awdurdodau lleol wedi darparu canllawiau effeithiol i gynorthwyo ysgolion ac UCDau i ddatblygu cynlluniau hyblyg i ddelio ag achosion pellach o haint COVID-19. Yn ymarferol, mae profiadau disgyblion o ganlyniad i'r achosion hyn wedi amrywio'n helaeth ledled Cymru oherwydd effaith amrywiol y pandemig mewn ardaloedd gwahanol, a hefyd y polisïau a'r arferion gwahanol y mae awdurdodau lleol wedi'u mabwysiadu yn gysylltiedig â chysylltiadau agos a'r gwahanol ffyrdd y mae ysgolion wedi trefnu grwpiau a charfannau o ddisgyblion. Mae hyn wedi arwain at fwy o anghydraddoldeb yn y profiadau dysgu rhwng disgyblion a dderbyniodd eu haddysg yn nhymor yr hydref yn yr ysgol a'r rhai sydd wedi'u haddysgu o bell, am gyfran sylweddol o'r tymor mewn ambell achos. Lle mae hyn yn digwydd, mae'r rhwystrau rhag dysgu gartref a nodwyd yn nhymor yr haf, gan gynnwys mynediad at dechnoleg ddigidol a chymorth rhieni, yn parhau. Pan gynhaliom arolwg o arweinwyr ysgolion ym mis Hydref 2020, roedd llawer o benaethiaid o'r farn bod awdurdodau lleol wedi bod yn darparu adnoddau technoleg gwybodaeth a chysylltiadau â'r rhyngrwyd yn rhagweithiol i'r disgyblion heb fynediad at y rhain gartref. Roedd barn athrawon a llywodraethwyr yn llai cadarnhaol am y cymorth hwn. Dywedodd tua hanner y llywodraethwyr fod awdurdodau lleol wedi darparu cymorth effeithiol yn y maes hwn. Er y dywedodd llawer o athrawon ysgolion cynradd ac UCDau a mwyafrif o athrawon ysgolion arbennig fod ysgolion yn helpu disgyblion i oresgyn rhwystrau rhag dysgu gartref, dim ond rhyw hanner yr athrawon ysgol uwchradd a lleiafrif o athrawon ysgolion pob oed a ymatebodd i'n harolwg oedd yn cytuno.

40 Ym mis Tachwedd 2020, siaradodd Comisiynydd Plant Cymru (2020) â disgyblion o Flynyddoedd 9 i 13 i amlygu unrhyw wahaniaethau yn eu profiadau dysgu rhwng tymhorau'r haf a'r hydref, yn benodol y cyfnod pan roedd yr holl ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn hyn yn gweithio gartref oherwydd y cyfnod atal byr cenedlaethol. Dywedodd y disgyblion a gymerodd ran yn y gwaith hwn bod gwelliannau wedi bod i'w profiadau o ddysgu o bell. Roedd eu diwrnodau wedi'u strwythuro mewn modd tebyg i amserlen ysgol ac roedd athrawon wedi cadarnhau bod dyfeisiau digidol gan bob disgybl, a rhoddwyd adborth ar-lein amserol iddynt ar eu gwaith. Mewn rhai ysgolion, gofynnwyd i ddisgyblion ateb arolygon am eu profiadau dysgu ac, o ganlyniad, roedd athrawon wedi gwneud addasiadau yn addas i ddisgyblion. Er enghraifft, darparodd rhai ysgolion recordiadau o wersi i ddisgyblion eu defnyddio ar adeg oedd yn gyfleus iddynt. Roedd y problemau a godwyd gan ddisgyblion yn cynnwys faint o waith a ddarparwyd, a olygai eu bod yn gweithio oriau hir, ac anghysondeb y ddarpariaeth rhwng gwahanol feysydd pwnc. Hefyd, rhannont bryderon am y diffyg cymorth gan rieni sydd heb y medrau i'w cefnogi a diffyg medrau digidol rhai athrawon. Dywedodd llawer ohonynt eu bod yn gweld eisiau rhyngweithio ag athrawon a disgyblion eraill ac, er bod y dysgu o bell wedi gwella, nad yw'n cymharu'n dda o hyd â dysgu yn yr ysgol. Pwysigrwydd rhyngweithio o bell rhwng cymheiriaid oedd un o ganfyddiadau Asesiad Brys o Dystiolaeth yr EEF (2020). Ar draws yr astudiaethau a adolygwyd gan ymchwilwyr EEF, darganfuont amrywiaeth o strategaethau i gefnogi rhyngweithio rhwng cymheiriaid, gan gynnwys marcio ac adborth gan gymheiriaid, rhannu modelau gwaith da, a chyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn trafodaethau byw am gynnwys. Mae'r dystiolaeth gan ddisgyblion ac ysgolion yn dangos bod angen datblygu'r maes dysgu o bell hwn.

41 Ledled Cymru, mae swyddogion consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi gweld pandemig COVID-19 yn gyfle i ganolbwyntio ar ddatblygu ethos ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft y ffocws ar iechyd a lles mewn ysgolion ar ddechrau tymor yr hydref. Ym Mhowys, mae ymgynghorwyr her yn hyrwyddo defnyddio egwyddorion addysgegol i gyfoethogi dysgu disgyblion. Yn Sir y Fflint, darparodd swyddogion hyfforddiant ar ddefnyddio amgylchedd yr awyr agored fel ffordd o ddatblygu gwydnwch a dyfalbarhad disgyblion wrth ddatrys problemau. Darparwyd yr hyfforddiant i leoliadau nas cynhelir, ysgolion meithrin a chynradd, ac UCDau gyda disgyblion oed cynradd. Ar draws rhanbarth GwE, mae swyddogion yn cydnabod bod llawer o ysgolion uwchradd wedi gorfod newid eu dull a chynllunio gwersi fesul blociau thematig oherwydd bod disgyblion mewn 'swigod'. Mae swyddogion ac aelodau etholedig o'r farn bod hyn yn gryfder, gan ei fod yn cysylltu'n glir â gweledigaeth yr awdurdod ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer o ysgolion uwchradd wedi defnyddio'r adnoddau a ddarparwyd drwy 'ganolfan gymorth' ar-lein newydd GwE, gan gynnwys unedau gwaith amlddisgyblaeth sy'n cyd-fynd yn dda ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Er y gwaith cadarnhaol hwn, mae cydnabyddiaeth hefyd fod y pandemig wedi arafu'r cynnydd a wnaed gan ysgolion wrth fynd i'r afael â gweithredu'r cwricwlwm newydd.

### Dysgu proffesiynol

42 Fe wnaeth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol gynyddu ystod y cyfleoedd dysgu proffesiynol i fynd i'r afael â'r angen ychwanegol a achoswyd gan y pandemig. Fe wnaeth llawer o'u gwaith yn nhymor yr hydref ganolbwyntio ar helpu ysgolion i ddeall a datblygu ymagweddau at ddysgu o bell a dysgu cyfunol, gan adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd ganddynt yn ystod y cyfnod clo. Wrth i ysgolion nodi anghenion disgyblion pan ddychwelsant i addysg amser llawn, ymatebodd swyddogion mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol trwy addasu'u cynnig dysgu er mwyn helpu athrawon i fynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion. Mae GwE yn cynnig amrywiaeth fawr o gyfleoedd i ysgolion gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol i wella llythrennedd, rhifedd a strategaethau dysgu carlam disgyblion. Yn Abertawe, addasodd swyddogion eu cynnig dysgu wrth i'w dealltwriaeth o effaith dysgu o bell ar ddisgyblion ddatblygu. Buont yn gweithio gydag ysgolion i gynnig y model ffit orau ar gyfer amgylchiadau unigol. Er enghraifft, fe wnaeth yr awdurdod lleol helpu athrawon i ddylunio deunyddiau papur ar gyfer dysgu o bell yn sgil tystiolaeth nad yw disgyblion yn dysgu cystal o flaen sgrin o gymharu â dysgu ar bapur. Hefyd, darparodd swyddogion yn Abertawe gymorth i ysgolion ddatblygu eu dull o asesu gwaith disgyblion drwy blatfformau rhithwir. Cynigiont hyfforddiant rhithwir ar ddulliau a oedd yn cynnwys defnyddio cwisiau mini, rhoi adborth trwy ddefnyddio'r cyfleuster sgwrsio byw ar blatfformau fel 'Microsoft Teams', defnyddio recordiadau fideo i esbonio tasgau newydd ac amlygu camsyniadau, a chynnig adborth i'r dosbarth cyfan ar gamsyniadau cyffredin. Bu ychydig awdurdodau lleol, gan gynnwys Caerdydd, yn cydweithio â sefydliadau fel y Brifysgol Agored i gefnogi dysgu proffesiynol mewn ysgolion. Yng Nghaerdydd, bu ysgolion a Choleg Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda'r Brifysgol Agored i gyflwyno rhaglen o weithdai ar-lein rhyngweithiol, yn canolbwyntio ar addysgeg a dylunio dysgu yn effeithiol.

**Cameo: Defnyddio tystiolaeth o gyfathrebu ag ysgolion i lywio dysgu proffesiynol**

Cynhaliodd swyddogion yn Abertawe arolwg gyda phenaethiaid cynradd, gan geisio gwybodaeth am anghenion hyfforddi penodol yn ystod y pandemig. Fe wnaethant ddadansoddi'r atebion a llunio rhestr o eitemau ar gyfer gweminarau yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu'r defnydd o sesiynau byw, sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael drwy Hwb a phlatfformau/apiau defnyddiol eraill, ac awgrymiadau am adnoddau hawdd eu defnyddio i athrawon, i'w helpu wrth ddylunio gweithgareddau dysgu ar-lein/dysgu o bell. O ganlyniad, lluniodd yr awdurdod lleol raglen gynhwysfawr o weminarau i fynd i'r afael â'r rhain.

43 Defnyddiodd swyddogion o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol y cyfnod clo cychwynnol i droi at ymchwil genedlaethol a rhyngwladol, i amlygu arfer effeithiol i'w rhannu gydag ysgolion. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, casglodd partneriaid gwella ysgolion dystiolaeth am ddysgu gan y Sefydliad Gwaddol Addysg (2020); ymhlith eu canfyddiadau oedd bod ansawdd addysgu yn bwysicach na sut y caiff ei gyflwyno. Mae hyn wedi helpu ysgolion yn yr awdurdod lleol i feddwl am eu hymagweddau at ddysgu o bell a dysgu cyfunol. Yn Sir Gaerfyrddin, defnyddiodd swyddogion gwaith Michael Fullan yn sylfaen ar gyfer symud dysgu o fodel dysgu o bell a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau i fodel y gellid ei ddefnyddio wrth i ysgolion ailagor yn llawn ar gyfer tymor yr hydref. Yn EAS, fe wnaeth swyddogion addasu dull Simon Brakespear i helpu arweinwyr ysgol i ystyried eu hymateb i'r pandemig fesul cam ac amlygu beth oedd yn bwysig ac yn wahanol ym mhob cam.

44 Mae swyddogion o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi dechrau rhoi cynlluniau ar waith i werthuso effaith eu cymorth i ysgolion ar ddysgu disgyblion. Yng Ngwynedd, mae swyddogion yn cydnabod nad yw'n bosibl llunio casgliadau ystyrlon eto ynghylch ymagweddau ysgolion at ddysgu o bell. Fodd bynnag, yn dilyn yr achos cyntaf pan fu'n rhaid i ysgolion orfod anfon carfan sylweddol o ddisgyblion adref yn ystod tymor yr hydref, fe wnaeth swyddogion werthuso'r ddarpariaeth dysgu o bell. Creont astudiaeth achos i ysgolion eraill, yn amlinellu'r goblygiadau a'r ffactorau y mae angen i arweinwyr ac athrawon eu hystyried wrth gynllunio i ddisgyblion ddysgu o bell. Yn dilyn cyfarfodydd clwstwr gyda'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i drafod dysgu o bell a dysgu cyfunol, fe wnaeth un ysgol yn Wrecsam dreialu defnyddio dull dysgu o bell digidol tra roedd disgyblion yn y dosbarth. Cwblhaodd un grŵp o ddisgyblion weithgareddau a thasgau ar-lein wrth i'r athro ddefnyddio hyfforddiant uniongyrchol gyda disgyblion eraill. Caniataodd hyn i athrawon gynorthwyo disgyblion i ddefnyddio meddalwedd a llwytho gwaith i blatfform digidol pan roeddent yn yr ysgol. Hefyd, roedd yn caniatáu i'r ysgol fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y gweithgareddau a'r tasgau a osodwyd ar gyfer dysgu o bell. Mae'r ysgol yn addasu ei dull yn dilyn adborth o'r broses hon. Cynhaliodd EAS arolwg i gael amgyffredion arweinwyr am gynnig dysgu EAS. Mae awdurdodau lleol yn y rhanbarth yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i ddatblygu trosolwg o ddarpariaeth eu hysgol. Ar draws Cymru, mae'n rhy gynnar eto i allu gwerthuso effaith y gwaith hwn yn llawn ar ysgolion a disgyblion, oherwydd megis dechrau cael eu datblygu y mae prosesau i werthuso ansawdd y cynigion dysgu, gan gynnwys dysgu o bell.

45 Bu hyfforddiant i gefnogi cymhwysedd digidol athrawon barhau yn nhymor yr hydref. Darparodd swyddogion ERW gyfres o webinarau i ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, ac UCDau, yn rhoi trosolwg o'r adnoddau sydd ar gael drwy Hwb i gefnogi dysgu cyfunol a dysgu o bell, gan ategu'u gwaith cynharach. Fe wnaeth y sesiynau gynnwys themâu penodol i arweinwyr ysgol, fel beth i'w ystyried wrth i grwpiau blwyddyn unigol orfod ynysu. Hefyd, roedd y gweminarau hyn yn cynnwys recordiadau a thrafodaethau byw gydag arweinwyr ysgol o bob rhan o'r rhanbarth; rhoddodd y rhain dawelwch meddwl i arweinwyr ysgol wrth ystyried y ffordd orau o roi eu cynlluniau eu hunain ar waith. Yn ogystal, fe wnaeth y tîm rannu adnoddau diogelwch a hunanadolygu ar-lein, ynghyd â chymorth cwricwlaidd ar gyfer meysydd penodol, er enghraifft i ddatblygu arfer athrawon wrth godio. Mae Google Classroom a sefydlwyd yn benodol i gynorthwywyr addysgu ddatblygu'u medrau ar-lein, wedi denu dros 200 o bobl i gymryd rhan. Yn ein galwadau ymgysylltu ag ysgolion, nododd penaethiaid fod y gwelliant ym medrau TGCh athrawon a'u hyder wrth ddefnyddio technoleg i gefnogi dysgu'r disgyblion yn effaith gadarnhaol y pandemig ar ysgolion. Roedd yr angen i athrawon roi eu dysgu ar waith yn gyflym wedi gwneud y dysgu proffesiynol yn uniongyrchol berthnasol i'w hanghenion.

46 Wrth i ddysgu proffesiynol symud ar-lein, canfu'r rhan fwyaf o gonsortia ac awdurdodau lleol fod mwy o ymarferwyr wedi ymgymryd â chyfleoedd dysgu gan nad oedd y rhain yn golygu diwrnodau cyfan i ffwrdd o'r ysgol mwyach a gellid troi at y deunyddiau unrhyw bryd. Dywedodd mwyafrif o staff cymorth a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi derbyn dysgu proffesiynol effeithiol i'w cynorthwyo i ddychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus. Er gwaetha'r cyfleoedd dysgu proffesiynol oedd ar gael, canfu ein harolwg hefyd nad oedd 22% o'r athrawon a ymatebodd yn teimlo'u bod wedi cael digon o gyfleoedd i gefnogi'u dealltwriaeth o ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

47 Mae'r cyfnod er Mawrth 2020 wedi cyflwyno sawl her i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ran eu gwaith i gefnogi ysgolion. Hefyd, darparodd gyfleoedd i feddwl yn wahanol a gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae swyddogion yn ymwybodol o'r angen i ddysgu o'r profiad ac maent yn awyddus i gynnal ac adeiladu ar y ffyrdd newydd o weithio sydd wedi cael effaith gadarnhaol. Mae defnyddio platfformau digidol i gynnal cyfarfodydd fel modd o gyflwyno dysgu proffesiynol wedi bod yn effeithiol o ran amser a chost, ac mae wedi galluogi mwy o staff addysg i gymryd rhan yn y rhain yn amlach. Yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf 2020, bu'n rhaid i athrawon ymateb yn gyflym i'r angen i ddarparu deunyddiau dysgu o bell i ddisgyblion. Fe wnaeth y ddarpariaeth hon wella yn ystod tymor yr haf ac, wrth i nifer y disgyblion yr oedd angen iddynt ddysgu i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth gynyddu yn ystod yr hydref, mae'r angen i wella a gwreiddio dysgu o bell a dysgu cyfunol ymhellach wedi parhau'n flaenoriaeth. Mae'r pandemig wedi pwysleisio materion yr oedd awdurdodau lleol a chonsortia eisoes wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys effaith tlodi ar deuluoedd ac, yn benodol, ar ddysgu plant. Mae profiad disgyblion ledled Cymru o'r pandemig wedi bod yn wahanol iawn o ganlyniad i'w hamgylchiadau lleol a'u hamgylchiadau gartref. Mae cyfnod clo cychwynnol a'r angen i ddisgyblion weithio gartref am gyfnodau yn ystod tymor yr hydref wedi amlygu'r angen i ddisgyblion allu gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus ac i ysgolion ganolbwyntio ar gynorthwyo disgyblion i wella gwydnwch dysgu.

## Cefnogi disgyblion bregus

### Paratoi i ddisgyblion ddychwelyd ym mis Medi

48 Ar ôl croesawu disgyblion yn ôl i'w hysgol neu UCD am gyfnod byr ar ddiwedd tymor yr haf, trodd sylw arweinwyr at gefnogi disgyblion bregus yn ystod gwyliau'r haf, ynghyd â pharatoi ar gyfer tymor yr hydref. Trefnodd awdurdodau lleol amrywiol weithgareddau haf, wedi'u harwain gan weithwyr ieuenctid yn aml. Fel arfer, roedd y rhain yn targedu'r disgyblion mwyaf bregus, fel plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol a phlant yr oedd eu hymddygiad yn eu cymuned yn bryder, a darparont amrywiaeth o weithgareddau defnyddiol i gefnogi medrau personol a chymdeithasol, ynghyd â'u lles.

49 Fe wnaeth llawer o wasanaethau cymorth i ddisgyblion bregus barhau yn ystod gwyliau'r haf hefyd, fel cwnsela ar-lein, ymweliadau lles â theuluoedd mewn angen, a llinellau cymorth i'r rhai yr oedd angen cymorth arnynt. Ym Merthyr Tudful, fe wnaeth swyddog yr awdurdod lleol gadw mewn cysylltiad gydol gwyliau'r haf gyda disgyblion a theuluoedd sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, i'w cynorthwyo i ddal ati i ddysgu, a dywedodd ysgolion fod cyfran dda o'r disgyblion hyn wedi dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020. Yn Nhorfaen, fe wnaeth swyddogion lles addysg nodi disgyblion na wnaethant gymryd rhan mewn sesiynau 'Ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi' mewn ysgolion ar ddiwedd tymor yr haf (Llywodraeth Cymru, 2020d). Yna, bu'r swyddogion yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i gynorthwyo disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

**Cameo: Ailgysylltu disgyblion trwy weithgareddau haf**

Cydnabu swyddogion yn Sir Ddinbych y byddai rhai disgyblion bregus yn elwa o fewnbwn ychwanegol er mwyn eu hailgysylltu â dysgu yn llwyddiannus. Sicrhaont arian grant i gyflwyno gweithgareddau difyr a chyfoethog i dargedu disgyblion ifanc bregus a disgyblion o ardaloedd dan anfantais yn economaidd. Bu'r Gwasanaethau Addysg a Phlant yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid a phartneriaid allanol i ddarparu rhaglen o weithgareddau gwyliau'r haf dros 5 wythnos. Helpodd hyn i bontio'r bwlch rhwng y cyfnod clo ac ailagor ysgolion yn llawn i'r holl ddisgyblion ym mis Medi trwy ysbrydoli pobl ifanc trwy weithgareddau chwaraeon, cerddoriaeth, drama, meithrin tîm a chrefft. Fe wnaeth gweithgareddau gynnwys gwersi ar ddrymio Affricanaidd, gweithdy drama wedi'i arwain gan un o sêr y 'West End', a gemau tîm ar draeth. Cafodd pawb a gymerodd ran ginio a thocynnau bws am ddim er mwyn ei gwneud hi'n haws iddynt fynychu.

50 Er bod gwyddonwyr wedi rhybuddio am botensial 'ail don' o COVID-19, nid oedd modd rhagweld hwn o ran maint nac amseriad. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo y byddai pob disgybl yn dychwelyd ar sail amser llawn yn yr hydref, gyda'r posibilrwydd o ddechrau yn raddol ym mis Medi. Fe wnaeth swyddogion awdurdodau lleol ac, weithiau, swyddogion consortia rhanbarthol, weithio'n agos

gydag arweinwyr ysgol ac UCD ledled Cymru i sicrhau bod safleoedd ysgolion yn ddiogel i ddisgyblion.  Mewn rhai achosion, cynhaliodd swyddogion iechyd a diogelwch asesiadau risg ar y cyd ag arweinwyr ysgol ac UCD.  Mewn achosion eraill, cynhaliodd arweinwyr eu hasesiadau eu hunain ac anfonwyd y rhain at swyddogion i'w gwirio.  Yn ddefnyddiol, mae llawer o awdurdodau lleol wedi cynnal cyfarfodydd galw heibio ar-lein neu wedi defnyddio fforwm digidol i benaethiaid drafod materion iechyd a diogelwch gyda swyddogion.

51 Lle bo'n berthnasol, cynhaliwyd asesiadau risg unigol ar gyfer disgyblion bregus ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt; yn aml, fe wnaeth swyddogion awdurdodau lleol gefnogi'r broses hon a chynorthwyo ag unrhyw bryderon o ganlyniad.  Er enghraifft, gweithiodd swyddogion yng Nghaerffili gyda rhieni a staff ysgol i drafod y defnydd o gyfarpar diogelwch penodol pan fydd plentyn â chyflwr ar y sbectrwm awtistig yn poeri dan drallod.  Mewn ysgol arall, darparodd swyddogion fygydau diogelu anadlol llawfeddygol i staff ar gyfer gweithio gyda disgyblion y mae angen gweithdrefnau aerosol neu sugno arnynt.

52 Rhoddodd ysgolion ac UCDau ledled Cymru flaenoriaeth i les disgyblion ar ddechrau tymor yr hydref.  Darparodd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol ddysgu proffesiynol, arweiniad ac adnoddau i helpu staff i ystyried y problemau posibl. Canolbwyntiodd llawer o'r dysgu proffesiynol a gynigiwyd i arweinwyr, athrawon a staff cymorth ledled Cymru ar ddeall sut gall trawma effeithio ar blant a phobl ifanc, a sut gall staff nodi'r rheiny sy'n cael trafferth a'u cefnogi.  Er enghraifft, cynigiodd GwE 'Rhaglen dychwelyd i'r ysgol i ysgolion sy'n wybodus am drawma', a oedd yn cynnwys strategaethau ymarferol ac egwyddorion a modelau dysgu ac addysgu allweddol.  Yn EAS, cynigiwyd hyfforddiant i gynorthwywyr addysgu ar gyflwyno rhaglen ymyrraeth chwe wythnos ar 'ymdopi a chysylltu' i gynorthwyo disgyblion bregus targedig ddod i'r arfer â bywyd ysgol eto.  Ym Mhowys, fe wnaeth cymorth presennol rhwng ysgolion barhau, gyda staff yr UCD yn hyfforddi staff ysgolion ledled yr awdurdod lleol ar gefnogi ymddygiad disgyblion a pharodrwydd disgyblion i ddysgu pan fyddent yn dychwelyd i'r ysgol.

53 Yn ogystal, fe wnaeth dysgu proffesiynol ganolbwyntio ar bwysigrwydd perthnasoedd, gydag ysgolion ac UCDau yn cael eu hannog i neilltuo amser i hyn ar ddechrau tymor yr hydref.  Er enghraifft, prynodd CSC gysylltiad â'r Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL) i bob ysgol, a chomisiynodd ERW gomisiynu yr Athro Robin Banerjee i gyflwyno dysgu proffesiynol er mwyn datblygu dealltwriaeth staff fod hunaneffeithlonrwydd a hunangysylltiad yn allweddol ar gyfer cefnogi lles.

54 Rhoddodd rhai awdurdodau lleol wybodaeth a chyngor i rieni a gofalwyr ar helpu disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol.  Er enghraifft, creodd Sir Gaerfyrddin becyn 'Croeso'n ôl' a esboniodd brofiad posibl disgyblion wrth ddefnyddio cludiant ysgol ac awgrymiadau ymarferol ynghylch sut i gefnogi lles eu plentyn.

**Cameo: Cefnogi anghenion lles disgyblion bregus yn barod ar gyfer dychwelyd i'r ysgol**

Ar y cyd â'r tîm Seicoleg Addysg, darparodd arweinwyr ac athrawon yng Nghastell Nedd Port Talbot 'Broffil Un Dudalen' drwy Microsoft Forms i bob disgybl ei lenwi cyn y cyfnod 'Ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi'. Roedd hwn yn ddull effeithiol o gael gwybodaeth unigol, uniongyrchol gan ddisgyblion am eu lles yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Roedd y wybodaeth hon yn ganllaw i ddisgyblion wrth iddynt ddychwelyd, yn enwedig i grwpiau penodol, bregus, fel disgyblion ag AAA.

55 Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i ddychwelyd i'r ysgol ym Medi 2020, ar gyfer y cysylltiad cymdeithasol â ffrindiau, yn ogystal â bwrw ymlaen â'u dysgu. Rhoddodd llawer o benaethiaid y cysylltom â nhw sylwadau am ba mor ymgysylltiedig yr oedd y rhan fwyaf o ddisgyblion, a pha mor gadarnhaol yr oeddent i dderbyn arferion a gweithdrefnau newydd. Canfu ein harolwg o ddisgyblion ym mis Hydref 2020 fod 77% ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Pan holwyd disgyblion mewn arolwg fel rhan o arolygiad eu hysgol cyn y pandemig, dywedodd 89% o'r disgyblion wrthym, ar gyfartaledd, eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae hyn yn dangos y pryder yr oedd rhai disgyblion yn ei deimlo ynghylch dychwelyd i'r ysgol, er y mesurau amddiffynnol a oedd ar waith. Yn benodol, mynegodd disgyblion bryder am ymddygiad anniogel ychydig bach iawn o ddisgyblion nad oeddent yn dilyn rheolau'r ysgol ac a oedd yn peri risg i eraill. Mae rhai arweinwyr ysgol wedi nodi bod newidiadau a orfodwyd i'r ffordd y mae'r ysgol yn gweithredu, fel amseroedd egwyl am yn ail, parthau ar gyfer grwpiau blwyddyn gwahanol a systemau un ffordd, wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion ac maent yn ystyried pa newidiadau y gallai fod yn ddefnyddiol parhau â nhw ar ôl i'r pandemig ddod i ben.

56 Roedd disgyblion a oedd yn symud i ddosbarth newydd yn eu hysgol neu UCD, neu i ysgol neu UCD newydd ym mis Medi 2020, wedi colli allan ar y gweithgareddau pontio arferol, gan gynnwys ymweliadau i ymgyfarwyddo â'r safle a'r staff. Fe wnaeth ysgolion ac UCDau wneud yn iawn am y diffyg ymweliadau a chyfleoedd i gyfarfod â staff newydd yn nhymor yr haf drwy deithiau fideo defnyddiol a chyflwyno'r staff, ynghyd â gwybodaeth ar wefannau i helpu disgyblion i baratoi ar gyfer eu pontio. Yn ein harolwg, roedd 92% o'r disgyblion a symudodd i ddosbarth newydd ym mis Medi o'r farn bod athrawon wedi'u helpu i gynefino, gyda dim ond ychydig bach ohonynt yn anghytuno.

57 Dywedodd rhai ysgolion cynradd fod plant ifanc sy'n dechrau'r ysgol am y tro cyntaf yn Medi 2020 yn llai parod ar gyfer yr ysgol na'r arfer. Hefyd, lle'r oedd y cyfnod clo cychwynnol wedi tarfu ar flwyddyn gyntaf plant yn yr ysgol, sylwont fod parodrwydd y plant hyn ar gyfer dysgu wedi llithro yn ôl. Er enghraifft, nododd ysgolion wendidau yn natblygiad medrau cymdeithasol a chyfathrebu'r disgyblion hyn, ac mae mwy o blant na'r arfer yn methu defnyddio'r toiled a bwyta yn annibynnol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy anodd i ddisgyblion ifanc gynefino ac mae'n ymestyn adnoddau staff i'w cynorthwyo nhw.

**Cameo: Rhannu dulliau ysgol o gefnogi medrau yn y blynyddoedd cynnar ar draws Sir Fynwy**

Sylwodd un ysgol gynradd yn Sir Fynwy fod gorffen yr ysgol yn sydyn ym mis Mawrth wedi cael effaith negyddol sylweddol ar ddisgyblion yn y dosbarth derbyn. O fis Mawrth ymlaen, roedd llawer o'r disgyblion ifanc hyn wedi gwneud llai o gynnydd yn eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu nag y byddid wedi'i ddisgwyl fel arfer. I helpu mynd i'r afael â hyn, gweithiodd arweinwyr, athrawon a staff cymorth gyda rhieni i greu fframwaith o fedrau i fynd i'r afael â'r diffyg hwn. Rhannodd yr ysgol y strategaeth lwyddiannus hon o fewn yr awdurdod lleol i gynorthwyo ysgolion eraill a'u teuluoedd sy'n gweld materion tebyg. Roedd yr awdurdod lleol wedi nodi bod strategaeth yr ysgol yn llwyddiannus ac aethant ati i rannu'r gwaith yma gydag ysgolion eraill.

58 Er bod bron pob un o'r disgyblion wedi dychwelyd i'r ysgol neu'r UCD ym mis Medi 2020, ni wnaeth ychydig bach iawn o ddisgyblion ddychwelyd a dewisodd rhai rhieni addysgu'u plant gartref. Mae nifer y disgyblion sydd wedi bod yn cael eu haddysg gartref wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf, ond bu cynnydd tipyn mwy eleni. Dywed tua hanner yr awdurdodau lleol fod nifer y teuluoedd sy'n dewis addysgu'u plant gartref wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig.

59 Gohiriodd Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau a rheoliadau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref oherwydd COVID-19, felly mae cyfrifoldebau a phwerau awdurdodau lleol yn gysylltiedig â sicrhau bod hawl pob plentyn i addysg yn cael ei chynnal yn parhau'n gyfyngedig. Mae llwyddiant ymdrechion awdurdodau lleol i annog y teuluoedd hyn i ymgysylltu'n wirfoddol yn amrywio. Yn achos y gyfran fawr o deuluoedd sy'n barod i ymgysylltu, mae awdurdodau lleol yn cynnig graddau amrywiol o gymorth i rieni a gofalwyr plant sy'n cael eu haddysg gartref. Er enghraifft, ym Môn, sefydlodd swyddogion fforwm addysg ddewisol yn y cartref i helpu cryfhau'r gweithdrefnau o ran addysg gartref ac, yng Nghastell-nedd Port Talbot, gweithiodd swyddogion cynhwysiant ag ysgolion i roi arweiniad i rieni disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

60 Ni wnaeth ychydig bach iawn o ddisgyblion ddychwelyd i'w hysgol neu eu UCD oherwydd pryderon iechyd a diogelwch penodol a olygai fod y risg i'w hunain neu i staff yn rhy fawr. Er enghraifft, fe wnaeth hyn gynnwys disgyblion â chyflyrau iechyd difrifol a disgyblion ag ymddygiad eithriadol o heriol. Yn yr achosion prin hyn, mae awdurdodau lleol wedi gweithio gydag ysgolion ac UCDau i sicrhau bod y disgyblion hyn yn gallu parhau i ddysgu gartref cymaint â phosibl.

61 Yn aml, fe wnaeth awdurdodau lleol fynd ati i helpu pobl ifanc bregus i ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020. Er enghraifft, yng Ngheredigion, roedd tîm o arbenigwyr ieuenctid yn gysylltiedig â phob ysgol uwchradd. Fe wnaeth gweithwyr ieuenctid, gweithwyr ymddygiad arbenigol a gweithwyr cyfiawnder ieuenctid gynorthwyo disgyblion yr oedd yn hysbys bod risg iddynt beidio ag ymgysylltu â'u haddysg. Cyfrannodd y cymorth hwn, yn ychwanegol at gymorth gan yr ysgolion eu hunain, at gyfraddau presenoldeb uchel i'r disgyblion hyn.

## Cefnogi lles

62 Yn achos plant a phobl ifanc y mae nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod eisoes yn peri her iddynt, gall y pandemig fod wedi gwaethygu'r heriau a wynebant ac achosi niwed mawr i'w lles. Mae'r pandemig hyd yn oed wedi effeithio yn arwyddocaol ar blant a phobl ifanc mewn amgylchedd teuluol sefydlog ag ychydig neu ddim profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Er enghraifft, gall amser i ffwrdd rhag ffrindiau oherwydd cyfnodau clo, cyfnodau o hunanynysu neu orfod aros mewn swigod caeth yn yr ysgol gael effaith andwyol ar ddatblygiad cymdeithasol disgyblion ac ar eu hiechyd meddwl. Yn wir, nododd ysgolion ac awdurdodau lleol nad disgyblion y byddent wedi'u hystyried yn bregus yn flaenorol oedd rhai o'r disgyblion a oedd wedi dod yn destun pryder iddynt.

63 Yn ystod cyfnod clo cychwynnol, mireiniodd ysgolion ac awdurdodau lleol eu dulliau a'u systemau ar gyfer nodi a monitro disgyblion bregus a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, sefydlodd yr awdurdod lleol system ddata newydd ar gyfer casglu gwybodaeth am ddisgyblion bregus. Adolygwyd y wybodaeth hon yn wythnosol gan 'banel disgyblion bregus ar y cyd', a gynlluniodd ymateb cydlynedig ar draws gwasanaethau.

64 Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, bu'n rhaid i wasanaethau awdurdodau lleol ymateb yn gyflym i gefnogi lles pob disgyblion, yn enwedig disgyblion y gwyddent eu bod yn bregus. Lle'r oedd awdurdodau lleol eisoes yn cydweithio'n effeithiol ar draws gwasanaethau ac asiantaethau allanol, roedd hyn i'w weld yn effeithlonrwydd eu hymateb i anghenion. Mewn awdurdodau lle'r oedd cydweithio heb ei sefydlu cystal, mae'r pandemig wedi bod yn gatalydd ar gyfer cryfhau cydweithio. Er enghraifft, mae gwasanaeth seicoleg addysg Ynys Môn a Gwynedd wedi cydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i ddatblygu ymagwedd newydd at gefnogi disgyblion sy'n absennol o'r ysgol oherwydd eu lles emosiynol.

**Cameo: Gweithio amlddisgyblaethol – rhannu gwybodaeth a darparu atebion**

Nodwedd allweddol o allu Pen-y-bont ar Ogwr i addasu ac ymateb yn gyflym i anghenion plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n fregus, yw'r cysylltiadau cryf sy'n bodoli ar draws ac o fewn meysydd gwasanaeth. Er enghraifft, mae'r 'model gwasanaeth cymorth cynnar bro', sydd eisoes yn bodoli ar draws y fwrdeistref, yn helpu sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'i gilydd. Mae staff amlddisgyblaeth wedi'u cyd-leoli ar dri safle yn y fwrdeistref. Mae trafodaethau a gwaith sy'n canolbwyntio ar atebion, gyda theuluoedd, yn cynnwys gwasanaethau arbenigol gwahanol. Mae'r ymagwedd integredig hon yn helpu sicrhau hefyd fod cymorth yn cael ei flaenoriaethu a'i neilltuo'n briodol.

Yn ogystal, mae datblygiad y ganolfan ddiogelu amhwyllasant, sydd wedi bod ar waith am y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi cyfrannu at rannu gwybodaeth am bryderon diogelu ynghylch unigolion. Mae cydweithwyr o Heddlu De Cymru, y bwrdd iechyd lleol a'r awdurdod lleol wedi'u cyd-leoli ac maent yn bwynt cyswllt unigol i asiantaethau gyfeirio atynt.

65 Yn nhymor yr haf 2020, fe wnaeth arweinwyr ysgol nodi'n aml eu bod wedi cael eu llethu gan wybodaeth, canllawiau ac awgrymiadau am anodau a gweithgareddau i gefnogi lles disgyblion a chefnogi disgyblion bregus. Roedd hyn yn adlewyrchu sut roedd pob asiantaeth, gan gynnwys awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, gwasanaethau iechyd, yr heddlu a gwasanaethau cyfiawnder, a mudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol, yn awyddus i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Gan ystyried adborth gan uwch arweinwyr, yn ddefnyddiol, bu asiantaethau yn ad-drefnu eu cyfathrebiadau ag ysgolion yn ystod tymor yr hydref.

66 Gan amlaf, mae awdurdodau lleol wedi sicrhau bod prosesau statudol i ddisgyblion ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys asesiadau ac adolygiadau blynyddol, barhau yn ystod tymor yr hydref. Lle y bu oedi, gallu gwasanaethau seicoleg addysg a gwasanaethau arbenigol eraill oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros hyn oherwydd absenoldebau staff a'r heriau o ddarparu'r gwasanaeth o bell. Yn Wrecsam, mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi seicolegydd locwm i hybu'r capasiti yn eu gwasanaeth a helpu i gwblhau asesiadau a oedd yn weddill. Mae gwasanaethau awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau wedi addasu fel y gall teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag addysg eu plant gyfarfod ar-lein, lle bo'r angen, i hwyluso prosesau statudol. Yn ystod tymor yr hydref, bu i wasanaethau ailddechrau gwaith wyneb yn wyneb, yn raddol, i gynorthwyo ag asesu disgyblion ag AAA, er bod anghysondeb ar draws asiantaethau ynghylch dychwelyd i waith wyneb yn wyneb wedi bod yn rhwystredig i benaethiaid.

67 Mae gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig wedi dod o hyd i ffyrdd o barhau i gefnogi disgyblion. Er enghraifft, yng Nghaerffili, mae'r gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chymorth Cyfathrebu rhanbarthol i ddisgyblion ag anawsterau synhwyraidd wedi gweithio o bell gyda disgyblion trwy dechnoleg fideo-gynadledda ac wedi darparu hyfforddiant pwrpasol i staff ysgolion fel y gallant gynorthwyo disgyblion â namau ar y clyw neu'r golwg.

68 Yn ein harolwg o rieni a gofalwyr ym mis Hydref 2020, canfuwyd bod mwyafrif y rheini y mae eu plant yn cael cymorth ychwanegol yn cytuno bod yr ysgol neu'r UCD yn ystyried anghenion eu plant a'u bod yn darparu adnoddau, cymorth ac arweiniad priodol iddynt. Roedd cyfran debyg o'r farn bod yr ysgol neu'r UCD yn gwneud trefniadau priodol i'w plentyn i drafod teimladau, iechyd a lles neu bryderon eu plentyn. O ran y naill fater a'r llall, roedd ychydig o rieni yn anghytuno. Lle'r oedd gan rieni a gofalwyr bryderon, roedd y rhain yn ymwneud â chyfathrebu gwael am sut byddai anghenion eu plentyn yn cael eu bodloni, methu darparu cymorth a amlinellwyd mewn datganiad anghenion addysgol arbennig, llai o gymorth i ddisgyblion â chyflwr ar y sbectrwm awtistig, a phryderon cyffredinol am fethu darparu'r cymorth arferol.

69 Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol eleni i gynyddu capasiti gwasanaethau cwnsela. Darperir y gwasanaethau hyn yn uniongyrchol gan rai awdurdodau lleol, er mai comisiynu gwasanaeth gan ddarparwr allanol sy'n fwy cyffredin. Mewn rhai achosion, defnyddiwyd cyllid i ehangu mynediad i blant Blwyddyn 4 a Blwyddyn 5, gan fod gofyn i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth i blant Blwyddyn 6 yn unig mewn ysgol gynradd. Ym Mro Morgannwg, mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi therapydd chwarae i ddarparu cymorth i blant iau mewn

ysgolion cynradd, i ategu'r gwasanaeth cwnsela. Mae llawer o gwnselwyr wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol ar gwnsela ar-lein. Er bod rhai gwasanaethau cwnsela wedi ailddechrau sesiynau wyneb yn wyneb gyda phlant a phobl ifanc yn ystod tymor yr hydref, roedd rhai eraill wedi parhau i ddarparu sesiynau ar-lein neu dros y ffôn, fel y gwnaethant yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Mae barn pobl ifanc ledled Cymru am gwnsela drwy fideo neu alwadau ffôn yn amrywio: mae rhai'n ei chael hi'n haws siarad â chwnselydd fel hyn ond nid yw eraill wedi troi at hyn ac maent yn aros i sesiynau wyneb yn wyneb ailddechrau.

70 Mae rhai awdurdodau lleol a chonsortia yn cynorthwyo ysgolion i ddefnyddio'u grant 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r gallu i gefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion. Er enghraifft, mae ysgolion yng Ngheredigion wedi defnyddio'r cyllid i gynyddu oriau Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol, sy'n gweithio o dan raglen beilot 'Mewngymorth' y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

71 Parhaodd gwaith diogelu gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd ar-lein trwy gydol tymor yr hydref, pan roedd amgylchiadau'n golygu mai dyma oedd yr opsiwn gorau. Er bod cyfradd y plant a osodwyd ar y gofrestr amddiffyn plant ychydig yn is na'r arfer yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, cododd y gyfradd yn ystod mis Awst 2020 a chyrraedd ei hanterth ym Medi, cyn gostwng eto yn ystod tymor yr hydref. Ar ei hanterth, nid oedd y gyfradd yn gynnydd sylweddol o gymharu ag amrywiadau nodweddiadol na'r duedd hirdymor yn nifer cynyddol y plant sy'n cael eu gosod ar y gofrestr yn genedlaethol. Nid oes cydberthynas glir rhwng yr awdurdodau lleol sy'n gweld y cynnydd mwyaf yng nghyfradd y plant sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant a nifer yr achosion o COVID-19 yn y gymuned.

72 Yn aml, mae pobl ifanc wedi treulio mwy o amser ar-lein na'r arfer yn ystod cyfnodau o hunanynysu a chyfyngiadau ar weithgareddau y byddent yn cymryd rhan ynddynt fel arfer. Yn Sir Fynwy, cydnabu'r awdurdod lleol y risg gynyddol i ddiogelwch sy'n gysylltiedig â hyn. Bu swyddogion awdurdodau lleol yn gweithio gyda'u hysgolion, yr UCD a'r Swyddfa Gartref i gynnal Paneli Sianel mwy mynych i adolygu pryderon am ddisgyblion, a hynny'n gysylltiedig ag eithafiaeth neu radicaleiddio.

73 Yn naturiol, roedd COVID-19 wedi effeithio ar bresenoldeb yn yr ysgolion yn ystod tymor yr hydref. Ar ôl i ddisgyblion ddychwelyd yn raddol ddechrau Medi 2020, cyrhaeddodd presenoldeb anterth o 88% ddechrau Hydref. Gostyngodd presenoldeb ddisgyn yn ystod mis Hydref wrth i nifer yr achosion o COVID-19 ddechrau cynyddu'n gyflym mewn rhai rhannau o Gymru. Roedd presenoldeb yn 90% yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl y cyfnod clo ym mis Tachwedd, a wnaeth gynnwys hanner tymor, cyn gostwng yn ystod weddill tymor yr hydref. Mae presenoldeb y tymor hwn ar ei uchaf i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd, ac eithrio disgyblion meithrin. Disgyblion ym Mlynyddoedd 11, 12 a 13 sydd â'r presenoldeb isaf. Disgyblion sy'n gorfod hunanynysu sy'n gyfrifol am lawer o'r absenoldeb. Er i hyn gael ei gofnodi'n absenoldeb awdurdodedig, mae ysgolion yn darparu dysgu o bell i'r disgyblion hyn. Oherwydd rhesymau logistaidd, yn aml mae oedi o ddeutu diwrnod cyn bod y trefniadau dysgu o bell yn eu lle ar gyfer disgyblion sy'n hunanynysu. Dywed arweinwyr ysgol fod disgyblion yn aml yn gwneud cynnydd arafach yn eu dysgu pan fyddant yn hunanynysu.

74 Mae cydberthynas agos rhwng cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion a chyfraddau COVID-19 lleol. Trwy gydol tymor yr hydref, bu effaith anghyfartal ar ddisgyblion, oherwydd bod gorfod hunanynysu o ganlyniad i gysylltiad agos ag achos wedi'i gadarnhau o COVID-19 wedi effeithio'n fwy ar rai rhannau o Gymru nag ar eraill. Mae rhai disgyblion wedi gorfod dysgu o bell am sawl wythnos yn ystod tymor yr hydref oherwydd hunanynysu, tra bod disgyblion eraill wedi gallu bod yn yr ysgol bob dydd.

75 Mae'r strategaeth 'Profi, Olrhain, Diogelu' yng Nghymru yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau'r GIG. Diben y strategaeth yw 'gwella gwyliadwriaeth iechyd yn y gymuned, olrhain cysylltiadau yn effeithiol ac yn helaeth a chefnogi pobl i hunanynysu pan fo angen' (Llywodraeth Cymru, 2020f). Ymddengys fod y strategaeth wedi'i gweithredu ychydig yn wahanol ar draws Cymru pan fydd achos positif o COVID-19 wedi'i gadarnhau mewn ysgol. Mewn rhai ardaloedd lleol, mae grwpiau llawer mwy o ddisgyblion wedi cael eu hystyried yn gyswllt agos o gymharu ag ardaloedd eraill, er bod gan ysgolion fesurau amddiffynnol tebyg ar waith. Mae hyn wedi effeithio ar ddisgyblion hŷn mewn ysgolion uwchradd yn arbennig, gyda rhai o'r disgyblion hyn yn treulio sawl wythnos i ffwrdd o'r ysgol yn hunanynysu yn ystod tymor yr hydref. Mae'r amrywio lleol o ran gweithredu'r strategaeth profi, olrhain, diogelu wedi effeithio'n anghyfartal ar gynnydd a lles disgyblion ar draws Cymru.

76 Pan fydd yn ofynnol i ddisgyblion hunanynysu, mae rhai awdurdodau lleol yn gweithio gydag ysgolion i rannu'r wybodaeth hon ar draws gwasanaethau a chyda phartneriaid er mwyn gallu cynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion bregus. Er enghraifft, mewn achosion pan fydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn Sir Ddinbych, mae swyddogion yn cysylltu ar y diwrnod hunanynysu cyntaf i sicrhau bod cymorth yn ei le. Pan roedd angen i ychydig gannoedd o ddisgyblion mewn ysgol a oedd yn gwasanaethu ardal â lefel uchel o ddifreintedd hunanynysu, bu Tîm Cymorth Ieuenctid Sir Ddinbych yn gweithio'n adeiladol mewn partneriaeth â heddlu lleol i gefnogi pobl ifanc a oedd yn ymgasglu tu allan yn ystod y dydd, yn hytrach na hunanynysu.

77 Weithiau, dywedodd ysgolion, UCDau a gwasanaethau addysg eu bod wedi nodi cynnydd mewn pryderon am iechyd meddwl disgyblion. Mae pob awdurdod lleol wedi ceisio sicrhau bod ysgolion ac UCDau yn gwybod am yr holl gymorth sydd ar gael i ddisgyblion sy'n cael trafferth â'u hiechyd meddwl.

**Cameo: Arweiniad ar gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr**

O'r cychwyn cyntaf, mae Abertawe wedi rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles dysgwyr a staff. Mae rhannu gwybodaeth yn well ar draws yr awdurdod lleol a chydag asiantaethau allanol yn ystod y pandemig wedi caniatáu i swyddogion ganolbwyntio ar faterion cyffredin sy'n effeithio ar ddysgwyr ledled Abertawe. Yn benodol, daeth i'r amlwg y gallai fod cynnydd yn nifer y dysgwyr a oedd yn hunan-niweidio, yn dioddef o orbryder ac iselder, neu a oedd yn ceisio cyflawni hunanladdiad. O ganlyniad, lluniodd yr awdurdod lleol arweiniad amserol i ysgolion gynorthwyo'u dysgwyr a rhoi gwybodaeth am fannau i gael rhagor o help. Hefyd, rhannwyd yr arweiniad hwn gydag awdurdod lleol cyfagos i helpu cefnogi'u dysgwyr nhw.

### Cefnogi dysgwyr bregus

78 Mae cefnogi'u holl ddisgyblion bregus wedi bod yn arbennig o heriol i ysgolion. Canfu ein harolwg ymhlith staff cymorth bod llawer ohonynt o'r farn eu bod wedi bod yn darparu cymorth effeithiol i ddysgwyr bregus, gyda phrin ddim ohonynt yn anghytuno. Yn yr un arolwg, roedd ychydig o dan hanner yr athrawon o'r farn eu bod yn gallu bodloni anghenion eu disgyblion bregus, gydag oddeutu dau o bob deg athro yn anghytuno.

79 Mae plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma neu'n Deithwyr yn aml yn colli mwy o ysgol na'r rhan fwyaf o ddisgyblion, a hynny am resymau diwylliannol. Mae awdurdodau lleol wedi gweithio'n galed i gynnal cysylltiad â theuluoedd a'u hannog nhw i ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Er enghraifft, defnyddiodd swyddogion yn Sir Gaerfyrddin grŵp cymorth presennol ar WhatsApp i gynnal diddordeb teuluoedd ac fel platfform ar gyfer cynnig cymorth, lle'r oedd ei angen. Hefyd, mae'r awdurdod hwn yn cynnig mynediad i'r teuluoedd hyn at becyn pwrpasol o weithgareddau i ategu medrau iaith, oherwydd nodwyd bod hyn yn bryder cyffredin.

80 Mae disgyblion y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn arbennig o agored i wneud bach iawn o gynnydd pan fydd disgwyl iddynt ddysgu gartref, fel y digwyddodd yn ystod y cyfnod clo cychwynnol a chyfnodau o hunanynysu yn ystod tymor yr hydref. Yn aml, nid yw rhieni neu ofalwyr y disgyblion hyn yn deall Cymraeg na Saesneg, ac felly mae'n anodd iddynt gefnogi dysgu'u plant. Yng Nghasnewydd, bu Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS) barhau i gefnogi disgyblion gartref yn ystod tymor yr hydref. Bu staff amlieithog yn GEMS yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â theuluoedd sydd wedi'u heffeithio, i helpu disgyblion i barhau i ddysgu, ynghyd â monitro'u lles.

81 Mae Ymgyrch Encompass yn gynllun cymharol newydd, lle y mae gwasanaethau'r heddlu yn ymrwymo i gysylltu â staff allweddol mewn ysgolion perthnasol cyn dechrau'r diwrnod ysgol nesaf os byddant wedi cael eu galw i ddigwyddiad cam-drin domestig yng nghartref y plentyn. Mae'r wybodaeth gynnar hon yn galluogi ysgolion i gynnig cymorth ar unwaith i ddisgyblion sydd wedi'u heffeithio. Oherwydd bod llawer o ysgolion wedi cadw mewn cysylltiad â theuluoedd bregus yn ystod gwyliau haf yr ysgol a'r cyfnod atal byr yn nhymor yr hydref, gweithiodd awdurdodau fel Caerdydd gyda gwasanaethau'r heddlu i ymestyn y cynllun hwn fel ei fod ar waith yn ystod y cyfnodau hyn hefyd.

82 Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol ymhlith y rhai mwyaf bregus yng Nghymru, o ran eu lles a'u deilliannau addysgol. Yn aml, mae awdurdodau lleol wedi cynnal gwiriadau a chymorth ychwanegol i'r plant a'r bobl ifanc hyn yn ystod y pandemig. Er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ymwelodd swyddogion yr awdurdod lleol â lleoliadau bob wythnos, a wnaeth eu helpu i amlygu lleoliadau a allai chwalu a rhoi cymorth ychwanegol yn rhagweithiol, lle'r oedd angen amdano, yn hytrach nag aros i leoliadau fethu. Darparodd awdurdodau lleol Ynys Môn a Gwynedd liniadur i blant sy'n derbyn gofal fel y gallent barhau i ddysgu gartref yn ystod y cyfnod clo neu gyfnodau o hunanynysu.

83 Mae disgyblion sy'n dysgu yn y gwaith wedi wynebu colli gwaith neu bryder yn gysylltiedig â diswyddo posibl yn ystod tymor yr hydref. Mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar rai cyrsiau galwedigaethol, fel trin gwallt a harddwch. Mae

hyn wedi effeithio'n anghymesur ar ddisgyblion bregus sy'n fwy tebygol na'u cymheiriaid o ddilyn llwybrau galwedigaethol yn 14-19 oed. Er enghraifft, ni allai disgyblion uwchradd hŷn ym Merthyr barhau â phrentisiaethau iau wedi'u cynnal gan y coleg lleol. Achosodd hyn gryn siom i'r bobl ifanc hyn, yr oedd y mwyafrif ohonynt wedi dychwelyd i'r ysgol ar sail amser llawn, ond bu'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud darpariaeth arall ar gyfer y gweddill ohonynt.

**Cameo: Cefnogaeth awdurdod lleol ar gyfer darpariaeth alwedigaethol**

Mewn un ysgol uwchradd yn Sir Benfro, roedd arweinwyr eisoes wedi bwriadu gwerthuso ac adolygu ei darpariaeth alwedigaethol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Buont yn gweithio gyda swyddog yr awdurdod lleol i gyflawni'r gwerthusiad hwn. Nid yw'r ysgol yn cyflogi darparwr galwedigaethol allanol mwyach ac mae wedi creu ei darpariaeth alwedigaethol ei hun. Mae wedi cyflogi tri aelod staff o'r darparwr blaenorol ac athro cymwysedig i oruchwylio'r ddarpariaeth. Mae hyn wedi arwain at arbedion ariannol sylweddol i'r ysgol, ynghyd â chaniatáu i arweinwyr fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn fanylach. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 230 o ddysgwyr yn manteisio ar y ddarpariaeth alwedigaethol fel rhan o'u cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol fel y gall disgyblion o ddarparwyr eraill fanteisio ar y ddarpariaeth hon hefyd. Trwy ei chyrsiau galwedigaethol, mae'r ysgol bellach yn darparu crèche, meithrinfa a gweithdy cerbydau modur sy'n gwasanaethu'r gymuned leol.

84 Mae'n anodd asesu effaith y pandemig ar gyfran y bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Effeithiwyd yn sylweddol ar waith i fonitro a chynorthwyo pobl ifanc i sicrhau cyrchfan addas ar ddiwedd Blwyddyn 11 ac ar ddechrau'r hydref. O ystyried effaith genedlaethol y pandemig ar gyflogaeth a hyfforddiant yn gyffredinol, nid yw'n syndod bod gwybodaeth gynnar gan rai awdurdodau lleol yn awgrymu bod mwy o bobl ifanc 16 oed heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant eleni nag yn y blynyddoedd diwethaf. Yn Abertawe, lle'r oedd ysgolion a'r UCD wedi nodi disgyblion a oedd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg cyflogaeth neu hyfforddiant, rhoddwyd blaenoriaeth i'w cynorthwyo yn ystod yr haf 2020. Cyfeiriwyd y bobl ifanc at ganolfannau cymorth cynnar amlasiantaeth i gael cymorth ac arweiniad ar eu camau nesaf, a pharhaodd swyddogion yr awdurdod lleol i fonitro'u cynnydd yn ystod tymor yr hydref a chynorthwyo, lle'r oedd angen. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion bregus hyn wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn ystod yr hydref, er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan y pandemig.

**Cameo: Cefnogi disgyblion sydd wedi ymddieithrio**

Cynlluniodd awdurdod lleol Wrecsam raglen i dargedu dysgwyr Blwyddyn 9 sydd wedi ymddieithrio fwyfwy rhag addysg yn ystod cyfnod COVID-19 neu sydd wedi dod yn fregus oherwydd eu profiadau COVID-19. Mae'r rhaglen yn cynnwys 15 sesiwn wythnosol pan fydd rhwng 10 a 15 o ddisgyblion o chwe ysgol uwchradd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a heriau i ddatblygu'u hymgysylltiad â dysgu a gwydnwch. Mae gweithgareddau'n cynnwys gweithdai datrys problemau, gweithgareddau awyr agored, a gweithdai gyda siaradwyr ysgogiadol a chymorth gan Gyrfa Cymru wedi'u cyflwyno ar-lein.

85 Mae deilliannau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn waelach na'u cymheiriaid. Mae'r pandemig wedi rhwystro ymdrechion y system addysg i gynorthwyo'r disgyblion hyn i gyflawni deilliannau gwell na'u rhagflaenwyr. Mae penaethiaid wedi dweud wrthym fod y grŵp hwn o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd arafach yn eu dysgu yn ystod y cyfnod clo, gyda rhai disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol gyda medrau iaith a rhifedd gwannach na chyn i'r cyfnod clo cychwynnol ddechrau. Yn ogystal â'r Grant Datblygu Disgyblion blynyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol i ysgolion drwy'r grant 'Recriwtio, adfer a chodi safonau'. Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi rhoi cyngor i ysgolion ar sut gellir defnyddio'r grant hwn i ariannu strategaethau addas i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i ddal i fyny â'u dysgu yn ystod tymor yr hydref a'r tu hwnt. Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant i gryfhau ei gymorth i ddisgyblion sy'n byw mewn tlodi. Er enghraifft, mae clwstwr o ysgolion wedi canolbwyntio ar nodi'r rhwystrau lleol rhag dysgu sy'n bodoli oherwydd tlodi ar hyn o bryd ac maent yn gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu a'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r rhain.

86 Mae cynnydd mewn gordewdra ymhlith plant a phobl ifanc yn bryder cenedlaethol oherwydd gallent wynebu iechyd corfforol gwael o ganlyniad. Prif achos gordewdra yw'r hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei fwyta a'i yfed, a pha mor weithgar ydynt yn gorfforol. Mae'n ymddangos bod disgyblion wedi cael llai o gyfleoedd na'r arfer i fod yn weithgar yn gorfforol yn yr ysgol yn ystod tymor yr hydref. Yn ein harolwg o ddysgwr, mae 77% ohonynt yn cytuno'n bod yn cael digon o gyfle i wneud ymarfer corff sy'n is na'r ymateb cyfartalog i arolygon arolygiadau, pan fydd 86% o'r disgyblion yn cytuno. Mae llawer o ysgolion wedi lleihau faint o amser a gaiff disgyblion ar gyfer egwyl ginio er mwyn amddiffyn swigod o ddisgyblion sy'n defnyddio cyfleusterau, gan olygu bod gan ddisgyblion lai o amser i chwarae a bod yn weithgar yn gorfforol. Ychydig bach iawn o ysgolion oedd wedi cynnal unrhyw glybiau ar ôl ysgol yn ystod tymor yr hydref sy'n cynnwys gweithgarwch corfforol ac nid yw'r cystadlaethau chwaraeon arferol rhwng ysgolion wedi digwydd. Mae awdurdodau lleol wedi ymdrin â mynediad at offer chwarae awyr agored a pharciau yn wahanol, a bu'n rhaid i gyfleusterau hamdden a champfeydd gau yn lleol ac yn genedlaethol ar adegau oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth.

87 Chwaraeodd gweithwyr ieuenctid awdurdodau lleol ran arwyddocaol yn cefnogi plant agored i newid, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod clo cychwynnol ac maent wedi parhau i ddarparu cefnogaeth yn ystod tymor yr hydref. Yn aml, mae gweithwyr ieuenctid yn hynod fedrus yn meithrin perthynas yn gyflym gyda phobl ifanc, gan sicrhau eu hymddiriedaeth a chanfod ffyrdd creadigol o gefnogi pobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg. Roedd gweithwyr ieuenctid eisoes yn defnyddio technoleg i gyfathrebu â phobl ifanc ac maent wedi adeiladu ar hyn yn ystod y pandemig trwy sefydlu mwy o fannau ar-lein lle y gall pobl ifanc gysylltu'n ddiogel â'i gilydd a chyda gweithwyr ieuenctid i gymdeithasu a thrafod materion sydd o ddiddordeb neu o bryder iddynt. Sefydlwyd rhaid o'r mannau hyn ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft pobl ifanc sy'n dymuno sgwrsio ar-lein yn Gymraeg, neu i bobl ifanc lesbiaid, hoyw, trawsrywiol a thrawsryweddol.

88 Mae gweithwyr ieuenctid wedi cael trafferth cadw mewn cysylltiad ag ychydig bach iawn o bobl ifanc bregus sydd heb gysylltiad rheolaidd â'r we neu nad ydynt yn hoff o ddefnyddio adnoddau ar-lein. Er gwaethaf effeithiolrwydd cyfathrebu ar-lein, mae pobl ifanc yn aml yn flin am y diffyg rhyngweithio cymdeithasol personol a gawsant

eleni.  Lle y bu'n ddiogel gwneud hynny, mae gweithwyr ieuenctid wedi ailsefydlu cyfleoedd i gyfarfod â phobl ifanc yn bersonol.  Er enghraifft, mae gweithwyr ieuenctid ym Mhowys wedi ymweld â'r trefi marchnad allweddol rhwng 5pm a 7pm yn ystod yr hydref i ymgysylltu'n anffurfiol â phobl ifanc, sydd wedi cynnig cyfleoedd defnyddiol i wirio'u lles a'u helpu i gael at gymorth, os oes angen.

89 Er gwaethaf beichiau gwaith trwm tu hwnt, mae rhai gwasanaethau awdurdodau lleol wedi creu lle i ystyried beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallent wella'r ffordd maent yn cefnogi disgyblion bregus a'u teuluoedd.

**Cameo: Gwerthuso profiadau teuluoedd**

Mae'r tîm ADY a Chynhwysiant Cymdeithasol yng Nghonwy yn awyddus i ddysgu rhagor am effaith y pandemig hwn ar ddysgwyr bregus a'u teuluoedd.  O ganlyniad, mae swyddogion yn cymryd rhan mewn prosiect sydd wedi'i seilio ar 'Werthuso profiadau teuluoedd yn ystod y cyfnod clo', gan gynnwys ffocws ar gymorth profedigaeth COVID-19 a gwell cymorth cwnsela.  I ategu hyn, mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg wedi cyflwyno hyfforddiant i ysgolion unigol, ar gais. Diben hyn yw paratoi ar gyfer cyfnod clo posibl arall.

# Atodiad 1: Sail dystiolaeth

Fel rhan o'r gwaith, cynhaliom drafodaethau â 340 o ysgolion ac UCDau ledled Cymru a chynhaliom gyfarfodydd â staff ym mhob awdurdod lleol a chonsortiwm rhanbarthol.

Dosbarthom arolygon i geisio barn:

- arweinwyr
- athrawon
- staff cymorth
- llywodraethwyr
- rhieni/gofalwyr
- dysgwyr cyfnodau allweddol 2 ac uwch

Yn ogystal, edrychom ar amrywiaeth o dystiolaeth ddogfennol gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, ynghyd â chanllawiau, data ac ymchwil a oedd ar gael yn genedlaethol.

# Atodiad 2


Yn ogystal â’r galwadau ag ysgolion ac ALlau, cyhoeddom arolygon ar gyfer rhanddeiliaid a’u hyrwyddo.

Roedd gennym arolygon unigol i ddysgwyr, rhieni neu ofalwyr, arweinwyr ysgol neu UCD, staff cymorth a llywodraethwyr neu aelodau pwyllgorau rheoli UCDau. Cyfeiriwyd rhai neu’r cyfan o’r cwestiynau at grwpiau penodol yn y poblogaethau hynny, felly nid yw pawb a gymerodd ran wedi ymateb i bob cwestiwn.


Mae’r ymatebion wedi’u crynhoi isod.

Hefyd, roedd rhanddeiliaid yn gallu gadael sylw i esbonio’u hatebion neu roi gwybodaeth ychwanegol. Dadansoddwyd y rhain a defnyddiwyd y wybodaeth i lywio’r adroddiad hwn.


## Dysgwyr (760 ymateb)




## Rhieni a gofalwyr (3620 ymateb)




## Athrawon (908 ymateb)





## Staff cymorth (397 ymateb)



## Arweinwyr (312 ymateb)



## Llywodraethwyr (245 ymateb)



# Atodiad 3: Cyhoeddiadau Estyn

## Arweiniad

- Cyngor i arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion ac UCDau ar sut i barhau â busnes ysgol ac UCD yn ystod pandemig Covid-19
- Trefniadau ar gyfer mis Medi 2020 Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau
- Cameos a syniadau ar gyfer parhad busnes ysgol yn ystod Covid-19
- Cameos a syniadau o ysgolion ac UCDau ar barhau â busnes ysgol
- Egwyddorion allweddol i gynorthwyo â pharhau â busnes ysgol ac UCD
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o golegau addysg bellach
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion cynradd
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o UCDau
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion uwchradd
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion arbennig
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ddarparwyr dysgu yn y gwaith
- Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd – hydref 2020
- Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector uwchradd – hydref 2020
- Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion pob oed – hydref 2020
- Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD) – hydref 2020
- Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ôl-16 – hydref 2020

## Adroddiadau thematig

- Ysgolion cymunedol: adroddiad thematig a deunyddiau hyfforddiant teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol
- Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID–19
- Gwydnwch dysgwyr – adroddiad thematig a deunyddiau hyfforddiant meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion

## Postiadau blog

- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEau) – sut gall ysgolion gefnogi plant a phobl ifanc sy'n byw mewn amgylchiadau anodd?
- A yw eich ysgol yn un sy'n rhoi teuluoedd a chymunedau wrth wraidd ei gwaith?
- Gan fod dysgwyr bellach wedi dychwelyd i ysgolion a cholegau, pa ran rydym ni wedi'i chwarae a sut bydd ein rôl yn newid yn y dyfodol?
- Ein cefnogaeth i addysg a hyfforddiant Cymru yn yr hinsawdd gyfredol
- Beth gall ysgolion ac UCDau ei wneud i gryfhau gwydnwch disgyblion?
- Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi addysgu a dysgu yn ystod argyfwng COVID-19

## Atodiad 4: Llinell amser

## Mawrth 2020



- Mae Prif Arolygydd Cymru yn cyhoeddi y bydd holl arolygiadau Estyn yn cael eu hatal ar unwaith.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi y bydd ysgolion yn cau ar gyfer darpariaeth addysg statudol erbyn 20 Mawrth. Hefyd, mae'n cyhoeddi y bydd arholiadau TGAU a Safon Uwch yn cael eu hatal ar gyfer haf 2020.



## Ebrill 2020

- Atal Cynnig Gofal Plant Cymru. Defnyddir cyllid i gynorthwyo plant sy'n agored i niwed a chostau gofal plant gweithwyr allweddol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi £1.25 miliwn ar gyfer cymorth iechyd meddwl ychwanegol i blant a allai fod yn profi straen neu orbryder cynyddol o ganlyniad i argyfwng y coronafeirws. Maent yn cyhoeddi £3 miliwn i awdurdodau lleol brynu caledwedd a chysylltiad diogel â'r rhyngrwyd i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru yn cael eu 'heithrio'n ddigidol'.
- Mae Estyn yn rhyddhau cyngor i arweinwyr ysgolion ac UCDau ar sut i barhau â busnes ysgol ac UCD. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol a CCAC, rydym yn rhyddhau 'Datblygu dulliau i Gefnogi Dysgu o Bell'.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn amlinellu pum egwyddor allweddol ar gyfer pryd a sut byddai ysgolion yn dychwelyd.

1 2 3 4 5

## Mai 2020



£1.25M



- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi £3.75 miliwn i gefnogi iechyd meddwl mewn ysgolion, ac yn cyhoeddi Cynllun Gwydnwch COVID-19 ar gyfer y sectorau ôl-16, gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, prentisiaethau, cyflogadwyedd a dysgu oedolion.

£3.75M

# Mehefin 2020

- Mae colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn dechrau ailagor dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer grwpiau blaenoriaethol o ddysgwyr.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi y bydd yn defnyddio Deddf Coronafeirws 2020 i ddatgymhwyso gofynion sylfaenol y cwricwlwm i Gymru dros dro.
- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ailagor i ddysgwyr i roi cyfle iddynt 'Ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf, a mis Medi'.







# Gorffennaf 2020

- Mae Estyn yn cyhoeddi sawl adroddiad thematig a chipolygon penodol i sectorau i gefnogi Cymru i ddal ati i ddysgu. Ar y cyd â'r 4 consortiwm rhanbarthol, rydym hefyd yn rhyddhau arweiniad 'Modelau dysgu cyfunol' i helpu o fis Medi.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Bil Cwricwlwm ac Asesu i ddarparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trefniadau newydd y cwricwlwm ac asesu. Maent yn cyhoeddi cynllun 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' i gyflogi 900 o staff addysgu ychwanegol mewn ysgolion.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dros £50 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer prifysgolion a cholegau i gynnal swyddi mewn addysgu, ymchwil a gwasanaethau myfyrwyr, buddsoddi mewn prosiectau i gefnogi adferiad economaidd, a chefnogi myfyrwyr sy'n dioddef o galedi ariannol.

**£50M**

# Awst 2020

- Mae cynnig Gofal Plant Cymru yn cael ei ailsefydlu. Gall rhieni sy'n gweithio fanteisio ar 30 awr o addysg a gofal cynnar eto.
- Mae Estyn yn rhyddhau 'Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau', i gofnodi amrywiaeth o ddulliau i ymateb i heriau cyffredin ar draws gwahanol sectorau addysg.
- Mae Llywodraeth Cymru yn addo £4 miliwn yn ychwanegol i gefnogi darparwyr gofal plant sydd wedi'u heffeithio gan COVID-19 a chyllid pellach o hyd at £264 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol i gefnogi ystod o wasanaethau, fel gofal cymdeithasol, addysg a hamdden.
- Mae Ysgrifenyddion Addysg Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi y bydd canlyniadau arholiadau wedi'u seilio ar asesiadau athrawon.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn sicrhau na fydd gradd Safon Uwch derfynol dysgwyr yn is na'u gradd UG. Mae canlyniadau cyhoeddedig TGAU a Safon Uwch diwygiedig sy'n seiliedig ar asesiadau athrawon yn dangos cynnydd nodedig mewn graddau dros flynyddoedd blaenorol.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi adolygiad annibynnol o'r trefniadau i ddyfarnu graddau ar gyfer arholiadau haf 2020.

# Medi 2020



- Pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol, fesul tipyn, yn ystod pythefnos gyntaf y tymor.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi ymrwymiad i ddarparu gorchuddion wyneb am ddim i'r holl ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd a lleoliadau addysg bellach.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi y bydd pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i dderbyn darpariaeth os ydynt yn gwarchod neu os oes rhaid iddynt hunanynysu.
- Mae Estyn yn dechrau galwadau ymgysylltu ag ysgolion, UCDau a lleoliadau ôl-16 ar gais gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad thematig o raddfa ac effaith dulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi ysgolion, cymunedau eu hysgolion, cyrff llywodraethol a dysgwyr. Hefyd, agorodd Estyn arolwg i ddysgwyr, llywodraethwyr, rhieni a staff ysgol i rannu'u profiadau.



# Hydref 2020

- Mae'r Sefydliad Polisi Addysg (EPI) yn cyhoeddi adroddiad sy'n disgrifio bod y ffordd y darparodd Llywodraeth Cymru liniaduron a dyfeisiau wi-fi i fynd i'r afael â diffyg mynediad at ddysgu ar-lein oherwydd pandemig y coronafeirws yn 'glodwiw'. Dywed yr adroddiad fod Llywodraeth Cymru, yn wahanol i wledydd eraill y DU, wedi gallu manteisio ar 'seilwaith hen sefydledig i weithredu'n gyflym yn dilyn cau sefydliadau'.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru, yn amlinellu'r camau nesaf ar daith ddiwygio Cymru cyn cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn 2022. Mae'r cynllun gweithredu, o'r enw Cenhadaeth Ein Cenedl, yn dangos y camau mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ymateb i bandemig y coronafeirws a'i hymateb i'r adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi "bydd codiad cyflog i wobrwyo ein hathrawon hynod fedrus yng Nghymru, sy'n gweithio'n hynod galed". Mae hyn yn cynnwys cytundeb mewn egwyddor i dderbyn holl argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ar gyfer 2020/21.
- Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi pecyn cyllid gwerth £12.5 miliwn i gefnogi plant a theuluoedd agored i niwed.

# Tachwedd 2020





- Arhosodd disgyblion ym Mlynyddoedd 9 i 13 adref am yr wythnos ar ôl hanner tymor fel rhan o'r 'cyfnod atal byr' cenedlaethol.
- Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg na fyddai arholiadau diwedd blwyddyn i ddysgwyr sy'n sefyll TGAU, UG na Safon Uwch yn 2021. Yn lle arholiadau, roedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu gweithio gydag ysgolion a cholegau i fwrw ymlaen ag asesiadau wedi'u rheoli gan athrawon, yn cynnwys asesiadau wedi'u gosod a'u marcio'n allanol, ond wedi'u cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth o dan oruchwyliaeth athrawon.
- Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn lansio ymgyrch 'Magu plant. Rhowch amser iddo', yn darparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i rieni. Mae'r ymgyrch newydd yn cynnwys materion sy'n adlewyrchu pryderon rhieni yn ystod y pandemig, gan gynnwys sut i ddeall ac ymateb i ymddygiad plant.

# Rhagfyr 2020

- Mae Estyn yn cyhoeddi ei adroddiadau cipolwg ar effeithiau uniongyrchol y pandemig ar ysgolion, UCDau a lleoliadau pob oed. Mae'r adroddiadau hyn yn crynhoi canfyddiadau o'r galwadau ymgysylltu a wnaed yn ystod Medi a Hydref.

- Mae Estyn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2019 2020. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adolygu safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru o Fedi 2019 i Fawrth 2020. Hefyd, mae'n cynnig adroddiad cychwynnol ar sut y gwnaeth ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill gefnogi disgyblion a myfyrwyr yn ystod y cyfnod clo, gan hefyd ddarparu parhad i'w dysgu o bell.

- Mae'r Gweinidog Addysg yn penderfynu y bydd pob ysgol uwchradd a choleg yng Nghymru yn symud i ddysgu ar-lein am wythnos olaf y tymor, a phenderfyniadau lleol yn cael eu gwneud ynghylch p'un a fyddai ysgolion eraill ar agor ai peidio yn ystod yr wythnos honno.





# Geirfa

**Dysgu cyfunol** — Pan fydd dysgwyr yn cael cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, wedi'i ategu gan dasgau a gweithgareddau dysgu o bell wedi'u cynllunio'n drefnus.

**Dysgu o bell** — Pan fydd gwaith yn cael ei osod a/neu wersi'n cael eu darlledu (yn fyw neu wedi'u recordio ymlaen llaw) i ddysgwyr gartref. Mae hyn yn golygu nad oes angen iddynt ddod i'r ysgol i gael at y gwaith.

## Rhifau – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau


Archwilio Cymru (2020) *Democratiaeth cynghorau lleol – llacio'r cyfyngiadau.* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.audit.wales/cy/blog/audit-wales/2020/11/5/democratiaeth-cynghorau-lleol-llacior-cyfyngiadau [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Diwrnod Gwrando, Tachwedd 2020*. Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/12/ListeningDay_FINAL_CYM.pdf [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Estyn (2020) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant 2019-20*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol/2019-2020 [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Green, F. (2020) *Schoolwork in lockdown: new evidence on the epidemic of educational poverty*. Llundain: UCL Institute of Education. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://seneddresearch.blog/2020/09/15/new-publication-remote-teaching-and-covid-19-approaches-to-school-education/ [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Hattie, J. (2020) *The New Normal of Learning: Build Back Better*. Corwin Connect. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://corwin-connect.com/2020/05/the-new-normal-of-learning-build-back-better [Cyrchwyd 15 Rhagfyr 2020]

Lyakhova, S. (2020) *Addysgu o bell a dulliau addysg ysgol yng nghyd-destun COVID-19*. Caerdydd: Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://seneddresearch.blog/2020/09/15/new-publication-remote-teaching-and-covid-19-approaches-to-school-education/ [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020a) *Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref*. [Ar-lein]. Ar gael yn https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19 [Cyrchwyd 21 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020b) *Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais.* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/canllawiau-gyfer-cefnogi-dysgwyr-agored-niwed-dan-anfantais.pdf [Cyrchwyd 21 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020c) *Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19 [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020d) *Datganiad i'r Wasg: Ailgydio, Dal i Fyny, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi – pob ysgol yng Nghymru'n symud i'r cam nesaf*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/dod-ir-ysgol-dal-ati-i-ddysgu-paratoi-ar-gyfer-yr-haf-mis-medi [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020e) *Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020f) *Profi Olrhain Diogelu*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020g) *Datganiad Ysgrifenedig: Y wybodaeth ddiweddaraf am Gymwysterau Cyffredinol yn 2021*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-wybodaeth-ddiweddaraf-am-gymwysterau-cyffredinol-yn-2021 [Cyrchwyd 17 Rhagfyr 2020

Sefydliad Gwaddol Addysg (2020) *Remote Learning: Rapid Evidence Assessment.* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19_Resources/Remote_learning_evidence_review/Remote_Learning_Rapid_Evidence_Assessment.pdf [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 CHWEFROR 2021**

**Adroddiad gan:** **Alwyn Jones - Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE**

**Testun:** **Rhaglen Waith a Blaenoriaethau GwE**

1.0 **Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno adroddiad wedi'i ddiweddaru i aelodau'r Cyd-bwyllgor ar Raglen Waith GwE ar gyfer Tymor yr Hydref 2020, ac amlinellu ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

**2.0 Cefndir**

2.1 Er 23 Mawrth 2020, mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Yn ystod Tymor yr Hydref, roedd yr effaith ar ysgolion yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Mewn rhai ysgolion roedd blynyddoedd cyfan yn gorfod hunan-ynysu gartref yn rheolaidd am gyfnod estynedig, tra bo eraill yn gallu agor i bob disgybl drwy gydol y tymor.

2.2. Mae staff yr Awdurdodau Lleol a GwE wedi parhau i addasu eu gwaith, gan ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.

2.3 Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod COVID er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau, a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol.

3.0 **Ystyriaethau**

3.1 Mae GwE yn ystyried ei hun fel sefydliad partneriaeth, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y cyfnod clo ac wrth symud ymlaen. Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws gogledd Cymru fu'r negeseuon cyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion

portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.

3.2 Mae GwE wedi gweithio'n effeithiol efo Llywodraeth Cymru ar bolisi a pharhad dysgu. Mae hefyd wedi gweithio'n gyson gyda'r rhanbarthau eraill ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol ac i roi cyngor ar asesu ffurfiannol ac asesu parhaus.

3.3 Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi cydymdrechu a gweithredu ar y cyd i gefnogi ysgolion trwy gydol pandemig COVID. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y dull rhanbarthol cyson o ddatblygu fframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau priodol ar waith, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu'r plant yn ôl i ysgolion.

3.4 Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu wrth wraidd ein gwaith gydag ysgolion. Mae bob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr, cynghrair neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu'r arferion gorau o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.

3.5 Mae cymorth clir wedi'i dargedu i ysgolion a oedd yn destun pryder cyn y cyfnod clo, er mwyn eu helpu drwy'r cyfnod anodd hwn. Bu hyn ar sawl lefel, gan gynnwys cymorth rhwydwaith, cymorth ar gyfer uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol yn yr ysgolion hynny a chymorth gyda darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol.

3.6 Mae GwE wedi rhoi cymorth ymarferol i arweinwyr iddynt allu ystyried eu cynllunio strategol ysgol gyfan ar gyfer darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol, iddynt allu mireinio a gwerthuso eu darpariaeth sy'n newid, ac ystyried cynllunio ar gyfer amrywiol senarios ble gall disgyblion fod yn yr ysgol ac / neu gartref yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

3.7 Mae GwE hefyd yn cefnogi ysgolion i werthuso ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol a dysgu o bell, gan rannu enghreifftiau ac astudiaethau achos lleol o ddarpariaeth effeithiol i leihau amrywiad ble mae hynny'n bod. Mae ffrydio byw yn datblygu'n dda ac yn cyfoethogi'r profiad dysgu cyfunol. Mae llawer o ysgolion yn cydnabod y bu ymgysylltiad rhieni yn ffactor allweddol wrth sicrhau dysgu o bell/dysgu cyfunol effeithiol. Bu GwE a'r Awdurdodau Lleol yn darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys rhannu arferion da.

3.8 Mae GwE hefyd wedi gweithredu dull cyflymu dysgu rhanbarthol, gan weithio ar dair haen sy'n cynnwys cymorth cyffredinol dan arweiniad y consortiwm, cymorth wedi'i dargedu dan arweiniad y consortia a'r awdurdod lleol ar y cyd, a'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gymorth acíwt. Datblygwyd y gwaith hwn ar sail dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol yn ogystal â llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain ar gael i bob dysgwr o bob oedran ym mhob ysgol. Bydd dangosfwrdd rhanbarthol yn dangos effaith y

gwaith hwn, a fydd yn cynnwys yr holl grantiau sydd ar gael i ysgolion gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

3.9 Mae Cynnig Proffesiynol GwE am y flwyddyn academaidd hon wedi'i symleiddio, ac yn canolbwyntio ar 5 prif faes: Llesiant, Y Daith Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Cyflymu Dysgu a Dysgu Digidol. Yn ogystal, bydd GwE yn parhau i hwyluso gweithio clwstwr i gefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru, Trawsnewid ADY a'r Gymraeg.

3.10 Yn ystod cyfnod COVID, mae GwE wedi myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith. Defnyddiwyd adnoddau mewnol ac allanol i sicrhau bod gennym ni bersbectif cytbwys ar ansawdd y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r *Education Development Trust* a Steve Munby i ddatblygu'r sefydliad a chynllunio seilwaith y dyfodol. Mae GwE wrthi'n gweithio gyda'r Athro Graham Donaldson i ddatblygu ystod o ddarnau meddwl i gefnogi ysgolion weithredu'r cwricwlwm newydd.

3.11 Ceir cofnod o weithgareddau, yr amser a dreuliwyd ynghyd â chrynodeb o weithgareddau, deilliannau ac effaith yn Atodiad 1. Yn ogystal, amlinellir rhaglen waith swyddogion GwE ar gyfer tymor y gwanwyn yn Atodiad 1.

3.12 Adolygir y rhaglen waith a'n blaenoriaethau yn gyson i ymateb i sefyllfa Covid-19 a chanllawiau a rheoliadau'r llywodraeth, a'u cymeradwyo gan Fwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor. Yn ogystal, bydd y rhaglen waith, a'r dull o'i chyflwyno, yn cael ei thrafod a'i chytuno gyda Penaethiaid ac ysgolion.

4.0 **Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad, rhaglen waith GwE a'r blaenoriaethau drafft ar gyfer 2021-22, a adolygir yn gyson i ymateb i sefyllfa Covid-19 a chanllawiau a rheoliadau'r llywodraeth.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad wedi'i ddiweddaru ar raglen waith GwE

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Rwy'n gwerthfawrogi bod y rhaglen waith wedi'i hadolygu i ymateb i sefyllfa Covid-19, a bod hyn wedi'i gynllunio'n drylwyr, yn gynhwysol, ac i'w gyflawni o fewn adnoddau presennol GwE.

**ADRODDIAD DIWEDDARU AR RAGLEN WAITH GWE**
**(TYMOR YR HYDREF 2020)**

**Cefndir a chyd-destun**

Mae’r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Ar 23 Mawrth newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus ar yr un pryd â chefnogi pob dysgwr i  aros yn ddiogel a dal ati i ddysgu gartref.

Ar 3 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y byddai ysgolion yn ailagor yn raddol o 29 Mehefin, 2020 er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl "ddod i'r ysgol, dal ati i ddysgu a pharatoi". Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chanllawiau Dysgu [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-coronafeirws] i gynnig cyngor ar y dysgu a'r addysgu fyddai'n digwydd mewn ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr Haf ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr Hydref.

Ar 9 Gorffennaf, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, ac y byddai'n ofynnol i ysgolion ddychwelyd yn llawn erbyn 14 Medi. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau dysgu pellach [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-coronafeirws] ar gyfer tymor yr Hydref, oedd yn rhoi set gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu i ysgolion a phartneriaid cefnogi, waeth beth yw lefel y gweithredu mewn ymateb i COVID-19.

Yn ystod tymor yr Hydref, roedd yr effaith ar ysgolion yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Roedd rhai ysgolion yn gweld blynyddoedd cyfan yn gorfod hunan-ynysu gartref yn rheolaidd am gyfnod estynedig, o gymharu ag eraill oedd yn gallu agor i bob disgybl drwy gydol y tymor.

**Rhaglen waith**

Mae staff yr Awdurdodau Lleol a GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w  weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.

Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod COVID er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol. Croesawyd cyswllt rheolaidd ag arweinwyr ysgolion, a chyfrannodd hyn at Benaethiaid yn teimlo y gallent droi at gyd-weithiwr proffesiynol i rannu materion heriol, a dod o hyd i ddatrysiadau i fynd i'r afael â materion dydd i ddydd. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaethau gweithredol ar agor ysgolion yn ddiogel yn ogystal â thrafodaethau proffesiynol am ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

Mae cyfarfodydd staff wythnosol wedi cyfrannu at ddull cyson o sicrhau negeseuon cyffredin i athrawon ac arweinwyr ysgolion. Bu pwyslais cryf ar fodelu ymddygiad priodol a chefnogol drwy gydol y cyfnod. Mae hyn wedi cynnwys cyswllt rheolaidd iawn â Phenaethiaid i sicrhau

eu bod yn cael y gefnogaeth briodol i weithredu'n effeithiol, a hefyd fel cyfrwng i gefnogi eu llesiant. Darparwyd rhagor o gefnogaeth ar gyfer lles uwch arweinwyr trwy gyfres o weithdai a gweminarau a fydd yn cefnogi eu gwytnwch yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae staff GwE hefyd wedi cynnal ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb ag ysgolion yn ystod tymor yr Hydref ar ran yr Awdurdodau Lleol.

Mae GwE yn ystyried ei hun fel sefydliad partneriaeth, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y cyfnod clo ac wrth symud ymlaen. Mae GwE wedi gweithio'n effeithiol efo Llywodraeth Cymru ar bolisi a pharhad dysgu. Mae hefyd wedi gweithio'n gyson gyda'r rhanbarthau eraill ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol ac i roi cyngor ar asesu ffurfiannol ac asesu parhaus. Cryfhawyd y berthynas waith rhwng y grwpiau hynny gan drafodaethau proffesiynol a chadarnhaol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn cyngor ac adnoddau o safon uchel.

Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws gogledd Cymru fu'r negeseuon cyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff. Un enghraifft o hyn yw'r grŵp gweithredol o staff awdurdod lleol a rhanbarthol yn gweithio ar ac yn datblygu polisi asesiadau risg, cyngor a chanllawiau, a chreu dangosfwrdd rhanbarthol sy'n sylfaen gadarn i bob ysgol allu ailagor gyda risgiau wedi'u hadnabod, a'u rheoli a'u cefnogi yn lleol.

Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi cydymdrechu a gweithredu ar y cyd i gefnogi ysgolion trwy gydol pandemig COVID. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y dull rhanbarthol cyson o ddatblygu fframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau priodol ar waith, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu'r plant yn ôl i ysgolion.

Roedd y fframwaith yn cynnwys adnoddau i gefnogi gwaith cynllunio ar gyfer:

1) Gofynion iechyd a diogelwch
2) Trefniadau safle a chyfleusterau
3) Cludiant
4) Trefniadau staffio
5) Dysgu ac addysgu cyfunol
6) Cynhwysiant a chymorth i ddisgyblion
7) Tasgau rheolaethol allweddol.

Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu wrth wraidd ein gwaith gydag ysgolion. Mae bob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr, cynghrair neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu'r arferion gorau o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn i waith yn y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.

Un agwedd nodedig ar y gwaith hefyd fu natur benodol a phwrpasol y cymorth i athrawon ac ysgolion. Mae GwE wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm a'u hadleoli, lle maen nhw wedi sicrhau'r effaith orau un yn eu rolau wrth gefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clystyrau a rhwydweithiau pwnc a chyfnod allweddol. Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hon, sy'n seiliedig ar egwyddorion cryf cydweithio, cyfnewid, rhannu a datblygu'r arferion gorau, yn egwyddor ddysgu allweddol y byddwn ni'n parhau i'w datblygu wrth i ni esblygu'r gwasanaeth.

Mae cymorth clir wedi'i dargedu i ysgolion a oedd yn destun pryder cyn y cyfnod clo, er mwyn eu helpu drwy'r cyfnod anodd hwn. Bu hyn ar sawl lefel, gan gynnwys cymorth rhwydwaith, cymorth ar gyfer uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol yn yr ysgolion hynny a

chymorth gyda darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol. Cefnogwyd mewn amrywiol ffyrdd yr ysgolion hynny sydd wedi cael y cyfnod clo a'r cyfnod dilynol yn anodd oherwydd bod staff yn gorfod hunan ynysu. Mae hyn wedi cynnwys modelu deunyddiau enghreifftiol, gweminarau, rhannu deunyddiau ac adnoddau. Yn ogystal, staff GwE yn arwain yn uniongyrchol neu'n addysgu yn uniongyrchol mewn ysgolion, neu'n darparu dysgu o bell ar gyfer dysgwyr.

Neilltuwyd llawer o amser ac egni i gysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol ac ymchwilio i arferion rhyngwladol er mwyn dysgu am egwyddorion dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol a'u sefydlu. Mae trafodaethau efo cyd-weithwyr rhyngwladol, gan gynnwys Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi dyfnhau'r meddwl o fewn y sefydliad. Mae GwE wedi rhoi cymorth ymarferol i arweinwyr iddynt allu ystyried eu cynlluniau strategol ysgol gyfan o ran darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac iddynt allu mireinio a gwerthuso eu darpariaeth sy'n newid, ac ystyried cynllunio ar gyfer amrywiol sefyllfaoedd ble gall disgyblion fod yn yr ysgol ac/neu gartref yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae hyn wedi cefnogi ysgolion i gael trosolwg strategol gwell o'u darpariaeth.

Mae GwE hefyd yn cefnogi ysgolion i werthuso ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol a dysgu o bell, gan rannu enghreifftiau ac astudiaethau achos lleol o ddarpariaeth effeithiol i leihau amrywiad ble mae hynny'n bod. Mae ffrydio byw yn datblygu'n dda ac yn cyfoethogi'r profiad dysgu cyfunol. Mae ysgolion bellach yn sylweddoli y bydd COVID yma am gyfnod estynedig, ac maent yn cynllunio'n fwy strategol ac effeithiol.

Mae prosesau hunan arfarnu a gwelliant bellach yn rhan ganolog o waith ysgolion. Wrth i ysgolion a lleoliadau fagu hyder i gyflwyno dysgu o bell, byddant mewn sefyllfa well i addasu eu prosesau a'u hadnoddau hunan arfarnu i fonitro, gwerthuso, adolygu ac addasu'r ddarpariaeth, os yw'n briodol.

Mae arweinwyr ysgolion yn cydnabod mai un o'r heriau mwyaf gyda dysgu o bell a dysgu cyfunol yw sicrhau bod gan staff a disgyblion y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol wrth law. Bu'n rhaid uwchsgilio rhai aelodau staff yn gyflym er mwyn symud at lwyfannau digidol. Mae ysgolion wedi manteisio ar ystod o ddysgu proffesiynol gan y consortia rhanbarthol ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi'r dysgu. Bu hyn yn gyfle hefyd, gan fod nifer uwch o ymarferwyr bellach yn gallu defnyddio gwahanol fathau o dechnoleg yn hyderus i gefnogi'r dysgu.

Mae llawer o ysgolion yn cydnabod y bu ymgysylltiad rhieni yn ffactor allweddol wrth sicrhau dysgu o bell/dysgu cyfunol effeithiol. Bu GwE a'r Awdurdodau Lleol yn darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys rhannu arferion da.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn cydnabod bod heriau gweithredol parhaus, a'r rheiny'n newid o ddydd i ddydd. Rhaid cynllunio ar gyfer llu o sefyllfaoedd gan gynnwys carfanau o ddysgwyr yn hunan-ynysu neu grwpiau bach o ddysgwyr/unigolion ac aelodau staff yn hunan-ynysu. Ceir llawer o enghreifftiau o sut y mae ysgolion yn rheoli'r sefyllfaoedd dyrys hyn yn dda iawn, gyda strategaethau ysgol gyfan pendant. Mae GwE a'r Awdurdodau Lleol yn parhau i gefnogi ysgolion, gan ddefnyddio clystyrau a rhwydweithiau ysgolion i gefnogi ei gilydd a rhannu adnoddau a strategaethau.

Mae GwE hefyd wedi defnyddio dull cyflymu dysgu yn rhanbarthol, gan weithio ar dair haen sy'n cynnwys cymorth cyffredinol dan arweiniad y consortiwm, cymorth wedi'i dargedu dan arweiniad y consortia a'r awdurdod lleol ar y cyd, a'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gymorth aciwt. Datblygwyd y gwaith hwn ar sail dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol yn ogystal â llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain ar gael i bob dysgwr o bob oedran ym mhob ysgol. Bydd dangosfwrdd rhanbarthol yn dangos effaith y gwaith hwn,

a fydd yn cynnwys yr holl grantiau sydd ar gael i ysgolion gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Yn ystod tymor yr Hydref, mae GwE wedi darparu cyfleoedd i ysgolion ffurfio cynghreiriau neu weithio mewn clystyrau er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth a chynnig dulliau darparu eraill er mwyn bodloni unrhyw sefyllfaoedd clo yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn gyson a bydd yn:

- Adnabod, datblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol o fewn y clwstwr/cynghrair ac â chlystyrau/cynghreiriau rhanbarthol eraill;
- Sicrhau bod yr holl adnoddau a adnabuwyd ac a ddatblygwyd yn cael eu cyflwyno drwy'r YCG i'w cynnwys ar Ganolfan Cefnogaeth GwE;
- Cefnogi ysgolion yn y clwstwr gyda'u darpariaeth i ymateb i unrhyw 'sefyllfaoedd cyfnod clo' yn y dyfodol;
- Blaenoriaethu cymorth ychwanegol ar gyfer y sector uwchradd i baratoi ar gyfer dyfarnu graddau arholiad yn 2021.

Bydd gan ysgolion rhanbarth GwE gasgliad sylweddol o adnoddau ar gyfer pob grŵp oedran.

Mae Cynnig Proffesiynol GwE am y flwyddyn academaidd hon wedi'i symleiddio, ac yn canolbwyntio ar 5 prif faes:  Llesiant, Y Daith Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Cyflymu Dysgu a Dysgu Digidol. Yn ogystal, bydd GwE yn parhau i hwyluso gweithio clwstwr i gefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru, Trawsnewid ADY a'r Gymraeg.

Yn ystod cyfnod COVID, mae GwE wedi myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith. Defnyddiwyd adnoddau mewnol ac allanol i sicrhau bod gennym ni bersbectif cytbwys ar ansawdd y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r Education Development Trust a Steve Munby i ddatblygu'r sefydliad a chynllunio seilwaith y dyfodol.  Mae GwE wrthi'n gweithio gyda'r Athro Graham Donaldson i ddatblygu ystod o ddarnau meddwl i gefnogi ysgolion weithredu'r cwricwlwm newydd.

Noda adroddiad thematig Estyn '*Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19'* (Ionawr 2021) fod '*arweinwyr ysgol yng ngogledd Cymru sy’n fwyaf bodlon â’r cymorth a gawsant gan eu consortiwm rhanbarthol*.’

Mae'r adroddiad yn ymhelaethu:

‘*Cytunodd mwyafrif o arweinwyr fod GwE wedi rhoi cymorth ac arweiniad effeithiol i ategu dysgu yn eu hysgol neu UCD.'* a '*chytunodd mwyafrif o arweinwyr fod GwE wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwahaniaethau rhwng dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac ymagweddau atynt*.’

**Prif ddeilliannau ac effaith y gwaith**


- Cyd-ymdrech a gweithredu effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE.
- Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
- Mae cydweithredu mwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr/cynghrair/fforwm wedi sicrhau cyfeiriad a meddwl strategol a lunnir ar y cyd, ac sy'n effeithiol.
- Dull rhanbarthol a lleol clir yn weithredol ar gyfer addasu'r gwasanaeth a'i ysgolion yn effeithiol.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth effeithiol ar gael os oes angen.

- Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu clir a rheolaidd.
- Rhoi canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol.
- Darparu canllawiau ac adnoddau cydlynol i ysgolion i gefnogi lles, ymgysylltiad a dysgu dysgwyr bregus yn effeithiol.
- Rhannu'r arferion gorau ar draws ysgolion a chlystyrau, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, modelau dysgu cyfunol, ac ati.

**Deilliannau eraill ac effaith**

- Cyfathrebu effeithiol trwy un pwynt cyswllt (YCG) i arweinwyr ysgolion, a'u bod yn medru cael gafael ar gymorth yn rhwydd.
- Mae ysgolion wedi gallu aros ar agor i weithwyr allweddol os oes diffyg staff.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth ar gael os oes angen. Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu rheolaidd.
- Cyd-ddealltwriaeth o bwysigrwydd lles disgyblion, rhieni ac aelodau staff.
- Rhoi canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Ysgolion yn cael mynediad at doreth o adnoddau o safon uchel, adnoddau y gallant gyfeirio atyn nhw wrth baratoi ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol a'u cyflwyno.
- Modelau dysgu o bell/dysgu cyfunol cynhwysfawr ar gael i ysgolion eu defnyddio, eu haddasu neu gyfeirio atyn nhw. Mae hyn, yn ei dro, wedi sicrhau arweinyddiaeth fwy cadarn a gwell cydbwysedd o ran gwaith y gellir ei gwblhau gartref.
- Dull cydlynol o gefnogi ysgolion, sydd wedi arwain at well cysondeb ac ansawdd o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol ar draws y rhanbarth.
- Rhannu'r arferion gorau ar draws ysgolion, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, ac ati.
- Defnydd mwy cadarn o DGCh, i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion, o fewn ysgolion a chyda rhanddeiliaid ysgolion.
- Uwchsgilio staff ysgolion drwy ddefnyddio llwyfan ddigidol ar gyfer datblygiad proffesiynol.
- Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ag AauLl a rhoi cymorth amserol i unrhyw ysgol.
- Ar y cyd â'r ALl, sicrhau bod y broses o benodi ymgeiswyr am swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion yn briodol a theg.
- Swyddogion GwE/ALl yn rhannu negeseuon cyson ag ysgolion.
- Cydweithredu mwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr trwy ddull digidol, sy'n sicrhau meddwl strategol ar y cyd.
- Cydweithredu mwy cadarn rhwng swyddogion yr awdurdod lleol a GwE.
- Dull rhanbarthol a lleol clir yn weithredol ar gyfer addasu ysgolion at wahanol ddibenion.
- Rhannu negeseuon allweddol yn effeithiol â staff ysgolion er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder.
- Mwy o gydweithredu rhwng y rhanbarthau a rhanddeiliaid eraill.
- Gwell dealltwriaeth o negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith.
- Arweinwyr ysgolion yn fwy ymwybodol o strategaethau effeithiol i sicrhau parhad busnes ysgol.
- Datblygu Dysgu Proffesiynol o ansawdd uchel, i fod yn barod ar gyfer anghenion y dyfodol.
- Eglurder i Athrawon sydd Newydd Gymhwyso o ran cwblhau eu blwyddyn sefydlu.
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda Phrifysgol Cymru i sicrhau bod y system benodi ar gyfer flwyddyn nesaf yn glir i fyfyrwyr ar y cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon.
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda CaBan i sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a chydnabod rhagoriaeth mewn ysgolion.

## Camau nesaf a blaenoriaethau drafft lefel uchel 2021-22




Y pedwar diben ddylai fod y man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd a chefnogi eu dysgwyr i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd;
- unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bwriad ein blaenoriaethau drafft isod yw cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben hyn.

### 1. Llesiant a Dysgu

- ➢ Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gynnal llesiant ymarferwyr a dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau.
- ➢ Parhau i roi cymorth i arweinwyr ysgolion ar ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr bregus a difreintiedig, gan gynnwys y dysgwyr hynny ble cafodd cau'r ysgolion effaith anghyfartal arnynt. Cymorth hefyd i adnabod a chefnogi'r dysgwyr hyn.

### 2. Rhoi cymhelliant i gydweithio er mwyn hunan-wella

- ➢ Cryfhau ymhellach y diwylliant, yr ymddygiad, y systemau a'r prosesau er mwyn cymell arweinwyr ac athrawon i gyd-ymdrechu er sicrhau gwelliant ysgol.
- ➢ Parhau i weithio'n agos gydag ysgolion a lleoliadau er mwyn parhau i ddyfnhau'r gwaith cymheiriaid sydd eisoes wedi gwreiddio, ac adnabod agweddau y gallai ysgolion eu cynnig i ysgolion eraill er mwyn datblygu agweddau penodol ar Ddysgu Proffesiynol.
- ➢ Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu adolygiad gan gymheiriaid ymhellach.

3. **Y Daith Ddiwygio**
    - Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu nhw gyflawni'r Daith Ddiwygio, a pharatoi at y cwricwlwm newydd.
    - Datblygu fframwaith ansoddol rhanbarthol er mwyn dangos ac arfarnu cynnydd ysgol mewn dull cyfannol.

4. **Dysgu o Bell a Chynllunio'r Dysgu**
    - Cefnogi ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod eu darpariaeth dysgu o bell yn addas i ddarparu profiad dysgu o safon uchel i'w disgyblion.
    - Parhau i ddatblygu enghreifftiau wedi'u datblygu'n rhanbarthol - dulliau dysgu ac addysgu enghreifftiol fel rhan o ddysgu o bell.
    - Cefnogi ysgolion a lleoliadau i arfarnu'r arferion presennol ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu.
    - Cefnogi ysgolion a lleoliadau i arfarnu cynnydd disgyblion a gweld beth yw'r camau nesaf ymlaen i'w datblygiad.

5. **Y Gymraeg**
    - Rhoi cymorth i ysgolion a lleoliadau sydd yn cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg fel Iaith Gyntaf i wella sgiliau Cymraeg Iaith Gyntaf eu dysgwyr, ac yn enwedig y rheiny o gartrefi di-Gymraeg.

6. **Cefnogi'r broses gymwysterau**
    - Cefnogi ysgolion a lleoliadau i weithredu argymhellion y Bwrdd Dylunio a Chyflawni ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2021 a 2022.

7. **Ysgolion sy'n achosi pryder**
    - Rhoi cymorth dwys i ysgolion uwchradd mewn categori statudol, a'r rheini sy'n achosi pryder, i wella perfformiad.
    - Rhoi cymorth unigryw i ysgolion a lleoliadau yn unol â blaenoriaethau gwella ysgolion sydd yn dangos y sefyllfa bresennol a sefyllfaoedd ysgolion a lleoliadau.

8. **Ysgolion yn datblygu a rhannu arferion llwyddiannus**
    - Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at hyfforddi a mentora, ar gyfer pob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol.
    - Parhau i weithio gyda chlystyrau/cynghreiriau yn y rhanbarth i gasglu ynghyd adnoddau dysgu cyfunol a'u rhoi mewn llyfrgell adnoddau ar-lein.
    - Parhau i hwyluso gwaith clwstwr/cynghrair a chefnogi cymheiriaid i sicrhau bod y dysgu yn parhau, a bod yr arferion effeithiol a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu gan ystod o ysgolion a lleoliadau, o safbwynt dysgu o bell a dysgu cyfunol.

9. **Strategaeth cymorth i rieni**
    - Datblygu strategaeth cymorth i rieni a rhoi arweiniad i helpu rhieni a gofalwyr ar sut orau i gefnogi eu plant i ddysgu.


***Nodyn ychwanegol**: Byddwn yn parhau i sicrhau bod arian grant a ddyrennir i ysgolion yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

**Atodiad 1: Gweithgareddau a gofnodwyd ac amser a dreuliwyd**

Mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) yn cysylltu â'i r(h)eolwr llinell bob bore a chofnodir rhestr o'u tasgau dyddiol yn eu calendr. Dyma grynodeb o weithgareddau staff GwE ers y cyfnod clo cyntaf:


**1. Am y cyfnod rhwng 23 Mawrth a 22 Mai, 2020** .

| Categori | Oriau | % |
|---|---|---|
| Cefnogi a gweithio gydag ysgolion | 9049 | 44% |
| Gwaith Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol | 6992 | 34% |
| Cefnogi Dysgu Proffesiynol | 1645 | 8% |
| Parhad Dysgu Cenedlaethol | 2879 | 14% |
| Arall | 45 | <1% |





**2. Am y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 17 Gorffennaf, 2020** .

| Categori | Oriau | % |
|---|---|---|
| Cenedlaethol | 1044 | 7% |
| Gwaith Rhanbarthol | 3704 | 25% |
| Ysgolion - gwaith Rhanbarthol wrth gefnogi ysgolion | 3619 | 24% |
| Cyfarfodydd Awdurdod Lleol | 653 | 4% |
| Ysgolion - cymorth unigryw/clwstwr | 2788 | 19% |
| Arall, er enghraifft paratoi a datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati | 3084 | 21% |




**3. Am y cyfnod rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr, 2020 .**

| Categori | Oriau | % |
|---|---|---|
| Cenedlaethol | 2284 | 6% |
| Gwaith Rhanbarthol | 10675 | 28% |
| Awdurdod Lleol | 2284 | 6% |
| Ysgolion - cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithiol), ymweld ag ysgolion, cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol | 11789 | 31% |
| Ysgolion – Rheoli Perfformiad Penaethiaid | 380 | 1% |
| Dysgu Carlam | 3423 | 9% |
| Arall | 7223 | 19% |



**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 CHWEFROR 2021**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | **Cefnogi ysgolion** |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-Bwyllgor am brif ffocws gwaith GwE dros y ddau dymor nesaf.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae staff GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ein holl ysgolion a'u cymunedau. Bydd prif ffocws ein gwaith dros y ddau dymor nesaf yn cael ei saernio ar gefnogi arweinwyr a staff mewn ysgolion i adnabod y llwyddiannau a'r hyn sydd i weld yn gweithio'n dda a beth sydd angen parhau i gael sylw.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Bydd y gwasanaeth yn cefnogi arweinwyr a staff mewn ysgolion i sicrhau bod pob ysgol mewn sefyllfa gadarn i:

- adrodd ar safonau a chynnydd dysgwyr [gan gynnwys grwpiau bregus] dros y cyfnod clo
- ddatblygu a gwella ymhellach y profiadau a'r canlyniadau dysgu i ddysgwyr
- ddatblygu ymhellach ar arferion effeithiol dysgu cyfunol a dysgu o bell
- hyrwyddo a chefnogi ymhellach lles dysgwyr a staff
- adrodd yn hyderus ar effaith gwariant grantiau a chefnogaeth
- allu'n hyderus a chywir flaenoriaethu gweithredu ar gyfer 2021-22

- allu'n hyderus adnabod yr union agweddau y deisyfir cefnogaeth ychwanegol ar eu cyfer
- fanteisio i'r eithaf ar gyfleon ymgysylltu cymheiriaid

3.2 Drwy gydweithio gyda'r ysgol gyswllt, bydd yn caniatau i bob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant [YCG] Cyswllt:

- ddeallt ble mae'r ysgol parthed cynnydd, cryfderau a meysydd i gael sylw pellach
- ddeallt y modd y caiff grantiau eu defnyddio a'u heffaith ar safonau ac ansawdd
- ddeallt ble mae'r ysgol mewn perthynas â cherrig milltir CiG/ADY/Y Gymraeg
- wybod beth sydd ei angen o ran cefnogaeth bellach i'r ysgol
- ddeallt sut mae'r gwaith cymheiriol yn datblygu a pha effaith y mae wedi ei gael hyd yma
- wybod pa arferion da sydd ar waith er mwyn eu rhannu'n ehangach
- fod mewn sefyllfa gadarn i ymateb i ymholiadau craffu am yr ysgol gan yr Arweinydd Craidd neu gan Estyn mewn unrhyw arolygiad arfaethedig yn 2021-22

3.3 Bydd pob YCG yn arddel yr egwyddorion isod wrth ymgysylltu â'r ysgolion cyswllt:

- peidio gweld y gwaith fel ymarfer '*ail-gategoreiddio*' neu '*pseudo-arolygu'* yr ysgol
- *'proses'* fydd y gweithredu nid '*digwyddiad*'
- proses sy'n cael ei gwneud '*hefo'* ac nid *'i'* ysgol fydd hon a man cychwyn y broses fydd arfarniad a ffynonellau tystiolaeth yr ysgol ei hun
- sicrhau trafodaethau a chydweithio diagnostig dros gyfnod o amser ac nid gweld yr ymarfer fel '*digwyddiad tic-blwch*'
- cofio mai cyfoethogi ansawdd [*quality enhancement*] fyddwn ni ac nid sicrhau ansawdd [*quality assurance*]
- ble'n briodol a dymunol, hyrwyddo mewnbwn '*cymheiriaid*' i'r gwaith
- yn ddelfrydol, dylai trafodaethau gynnwys aelodaeth ehangach na'r Pennaeth yn unig
- yn yr uwchradd, bydd angen i'r YCG Cyswllt sicrhau mewnbwn pellach gan yr YCG Pynciol
- mewn rhai achosion bydd angen gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu y prosesau neu i goladu a chrynhoi y dystiolaeth
- i'r rhelyw, bydd y gwaith yn rhychwantu dau dymor ond derbynnir y bydd rhai ysgolion mewn sefyllfa aeddfetach i drafod dros gyfnod byrrach

3.4 Adolygir y rhaglen waith yn gyson i ymateb i sefyllfa Covid-19 a chanllawiau a rheoliadau'r llywodraeth, a'i chymeradwyo gan Fwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor. Yn ogystal, bydd y rhaglen waith a'r dull o'i chyflwyno yn cael ei thrafod a'i chytuno gyda Penaethiaid ac ysgolion.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad a prif ffocws gwaith GwE dros y ddau dymor nesaf.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwy'n gwerthfawrogi bod y rhaglen waith wedi'i hadolygu i ymateb i sefyllfa Covid-19, a bod hyn wedi'i gynllunio'n drylwyr, yn gynhwysol, ac i'w gyflawni o fewn adnoddau presennol GwE.

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 CHWEFROR 2021**

**Adroddiad gan:** **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

**Pwnc:** **Y Daith Ddiwygio a Dysgu Proffesiynol**

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-Bwyllgor ynglŷn â'r cynnig proffesiynol ar gyfer cefnogi Cwricwlwm i Gymru.

## 2.0 Cefndir

2.1 Fel y gwyddoch, mae gan Gymru raglen ddiwygio uchelgeisiol, sydd wedi'i rhannu drwy 'Cenhadaeth ein Cenedl' Llywodraeth Cymru ac yn manylu ar y camau gweithredu a'r blaenoriaethau er mwyn cyflawni Cwricwlwm i Gymru.

2.2 Er mai Cwricwlwm i Gymru yw'r teitl, mae'r diwygio yn llawer ehangach na newid y cwricwlwm yn unig gan fod hyn yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd addysgol, gan gynnwys datblygu fframwaith arfarnu, gwella ac atebolrwydd, y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, a datblygu miliwn o siaradwyr yn rhan o waith Cymraeg 2050. Drwy gydol y diwygio hwn, mae ymrwymiad clir i gefnogi a datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, ac mae dysgu proffesiynol yn rhan allweddol o gefnogi'r gweithlu.

2.3 Ar draws GwE, rydym wedi datblygu dull gweithredu integredig i fynd i'r afael â'r gwaith hwn, a hynny gan ein bod yn llawn sylweddoli y dylid ystyried y diwygio o safbwynt ysgolion. Mae ein cefnogaeth yn tystio i hyn gyda thîm llawn GwE yn cydweithio â chydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol i wreiddio a chytuno ar negeseuon cyffredin a chyson.

2.4 Ym mis Hydref 2020, cyhoeddwyd 'Y daith i 2022', dogfen a luniwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Estyn a'r consortia rhanbarthol. Nod y ddogfen yw gosod set gyffredin o ddisgwyliadau a dylai rymuso arweinwyr ysgolion wrth iddynt weithio yn eu hysgolion eu hunain, ac ar draws eu rhwydweithiau cydweithredol, er mwyn cymryd perchnogaeth ar y newidiadau yn eu hysgol, a chynllunio a threfnu'r math iawn o weithgareddau wrth iddynt baratoi am y cwricwlwm newydd.

2.5 Yn y cyd-destun yma, mae Dysgu Proffesiynol yn allweddol bwysig, a bydd GwE yn cynnig cymorth i ysgolion gyda hyn mewn amryfal ffyrdd i gefnogi'r camau a nodir yn 'Y daith i 2022'. Fel ran o'r cynnig proffesiynol ar gyfer cefnogi'r cyhoeddiad yma, ac i gynorthwyo ysgolion i weithredu tuag at y cerrig milltir, ers mis Ionawr 2021 cychwynwyd ar gyfres o sesiynau i uwch arweinwyr ysgolion yn canolbwyntio ar 'Rheoli Newid' a 'Datblygu Gweledigaeth a Rennir' i gychwyn, cyn symud at ganolbwyntio ar gynllunio'r cwricwlwm. Datblygwyd y sesiynnau yma ar y cyd â'r dair rhanbarth arall ar draws Cymru.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Mae'r mwyafrif o'r ysgolion bellach yn cydnabod fod angen mynd trwy'r broses o adnabod sut i reoli newid a chreu gweledigaeth a rennir cyn rhuthro at y gwaith o gynllunio Cwricwlwm. Yn wreiddiol, roedd y ddau sesiwn yma wedi'i cynllunio i fod yn weithdai ddiwrnodau cyfan wyneb yn wyneb, ac roedd dros 250 o benaethiaid a dirprwyon wedi cofrestru ar y rhain yn ôl ym mis Mawrth 2020 cyn i ni orfod gohirio oherwydd y cyfnod clô. Mae'r sesiynau bellach wedi eu haddasu fel ein bod yn gallu gwneud y cyflwyniadau yn rhithiol a rhyngweithiol gyda 893 o benaethiaid ac aelodau o'r Uwch Dimau Arwain wedi cofrestru ar eu cyfer.

3.2 Parheir i gynnig y Dysgu Proffesiynol fel clwstwr gan ein bod yn awyddus i ddatblygu trafodaethau o fewn clystyrau gan werthfawrogi fod ysgolion mewn llefydd gwahanol ar y daith. Mae hyblygrwydd i ysgolion gymryd rhan yn y sesiynau hyn, gyda'r sesiynau yn cael eu recordio ar gyfer unrhyw un sydd yn methu mynychu.

3.3 Bu gweithio drwy Covid-19 yn her i ni gyd. Golygodd fod angen i bawb ohonom weithio mewn ffordd newydd. Gwelsom bartneriaethau dysgu gwell efo rhieni, mwy o bwyslais ar lesiant, sgiliau digidol gwell, athrawon yn cael lle i fod yn greadigol a chreu cyfleoedd dysgu gwreiddiol, a chydweithio rhwng ysgolion a chyrff allanol. Mae cyfle hefyd i ysgolion fyfyrio ar ffyrdd mwy newydd o weithio i'w helpu nhw symud ymlaen â'r agenda ddiwygio hon.

3.4 Fel gwasanaeth, rydym yn cael cyfleoedd i gyfarfod fel tîm llawn yn rheolaidd, a cheisio 'gwneud synnwyr' o'r Cwricwlwm newydd a datblygu negeseuon cyson. Mae GwE wrthi'n gweithio gyda'r Athro Graham Donaldson i ddatblygu ystod o ddarnau meddwl i gefnogi ysgolion i weithredu'r cwricwlwm newydd gan greu cyfres o bapurau procio gan gynnwys – Gweledigaeth, Pedagogiaeth, Asesu, Arweinyddiaeth, Dylunio Cwricwlwm ac Adlewyrchu ar y 4 diben.

3.5 Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar 5 Chwefror 2021 yn cadarnhau y bydd plant rhwng tair a saith oed yn cael dychwelyd i'r ysgol wedi hanner tymor ar 22 Chwefror 2021, ac ynghyd â'r trafodaethau sy'n parhau yn yr uwchradd o ran trefniadau dyfarnu graddau haf 2021, penderfynwyd gohirio'r sesiynau 'Datblygu Gweledigaeth a rennir' oedd wedi'u trefnu ar gyfer y clystyrau am y tro. Mae'r penderfyniad yma yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd gan benaethiaid ar draws y sectorau. Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau gyda'r ysgolion ynglŷn â phryd y bydd hi'n amserol i ail-gychwyn y sesiynau yma.

3.6 Adolygir y gwaith yn gyson i ymateb i sefyllfa Covid-19 a chanllawiau a rheoliadau'r llywodraeth, a'i chymeradwyo gan Fwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor. Yn ogystal, bydd y rhaglen waith a'r dull o'i chyflwyno yn cael ei thrafod a'i chytuno gyda Penaethiaid ac ysgolion.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o’r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o’r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o’r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf yn rhan 5.1 o’r adroddiad nad oes ymhlygiadau ariannol yn codi o’r adroddiad a bydd GwE yn gweithredu ar y mater yma o fewn ei adnoddau cyfredol.

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 CHWEFROR 2021**

**Adroddiad gan:** **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

**Testun:** **Dysgu o bell ac ymgysylltiad rhieni/gofalwyr**

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Rhannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd-bwyllgor am ein strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion mewn perthynas â dysgu o bell.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliadau clir ar ysgolion (Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau: coronafeirws diweddarwyd 15 Ionawr 2021) o ran y blaenoriaethau ar gyfer y dysgu mewn ysgolion a lleoliadau yn ystod yr ymateb i COVID-19 ac wrth ini symud tuag adfer.

2.2 Fel rhan o strategaeth y rhanbarth, lluniwyd dwy ddogfen er mwyn cefnogi a chynorthwyo ysgolion ymhellach i ymateb i gwestiynau ac ymholiadau ynghylch dysgu o bell.

2.3 Mae'r ddogfen gyntaf at ddibenion llywio polisi neu ddatganiad ysgol am sut y darperir dysgu o bell (Atodiad 1 - Canllawiau Dysgu o bell ar gyfer ysgolion Gogledd Cymru). Gellir ei ddefnyddio i gynnig rhagor o fanylion ynghylch dysgu o bell i lywodraethwyr neu rieni/gofalwyr. Canllawiau Dysgu o Bell ar gyfer rhieni/gofalwyr Ysgolion Gogledd Cymru yw'r ail ddogfen (Atodiad 2), y gellir ei rannu a'i ddefnyddio gyda rhieni/gofalwyr.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae'r ddogfennau yn adeiladu ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ac yn rhoi trosolwg o'r arferion y gall ysgolion eu mabwysiadu er mwyn cryfhau eu harferion dysgu o bell ymhellach.

3.2 Diben y canllawiau yw:

- Cefnogi Penaethiaid ac athrawon i gynllunio dysgu o bell fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr

- Cefnogi Penaethiaid ac athrawon i reoli disgwyliadau rhieni/gofalwyr a rhanddeiliaid
- Cefnogi Penaethiaid ac athrawon i wneud y defnydd gorau o ddysgu byw
- Cefnogi Penaethiaid i werthuso arferion dysgu o bell ac wrth adrodd i randdeiliaid gan gynnwys y corff llywodraethu

3.3 Mae llawer o ysgolion yn cydnabod bod ymgysylltiad rhieni/gofalwyr wedi bod yn ffactor allweddol wrth sicrhau dysgu o bell / cyfunol effeithiol. Mewn ymateb i hyn, mae GwE a'r Awdurdodau Lleol wedi darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni/gofalwyr, gan gynnwys datblygu adnoddau a rhannu arferion da.

3.4 Mae angen datblygu strategaeth ranbarthol ar gyfer gwella ymgysylltiad rhieni/gofalwyr fel y gallant gefnogi dysgu eu plant yn effeithiol yn ystod cyfnod COVID a thu hwnt.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad ac i gefnogi ein strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni/gofalwyr a dysgu o bell yng Ngogledd Cymru.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

**5.1** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

**9.0 Atodiadau**

Atodiad 1 - Canllawiau Dysgu o bell ar gyfer ysgolion Gogledd Cymru
Atodiad 2 - Canllawiau Dysgu o Bell ar gyfer rhieni/gofalwyr Ysgolion Gogledd Cymru

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf yn rhan 5 uchod nad oes ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad a bydd GwE yn gweithredu ar y mater allweddol yma o fewn ei adnoddau cyfredol.

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

# Canllawiau Dysgu o bell ar gyfer ysgolion Gogledd Cymru

## Ionawr 2021

GwEGogledd.Cymru

**Beth yw Addysg o Bell?**
Yng nghyd-destun y papur hwn, byddwn yn diffinio dysgu o bell fel term eang sy'n cwmpasu'r holl ddysgu sy'n digwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth, pan na fydd athro’n bresennol yn yr un lleoliad â'r disgyblion. Gallai hyn fod naill ai'n addysgu byw neu'n ddeunydd a baratowyd gan yr athro a'i gyrchu gan y disgybl yn nes ymlaen. Mewn cyferbyniad, mae dysgu cyfunol yn cynnwys cymysgedd o ddulliau wyneb yn wyneb ac o bell. Byddai hwn yn deitl perthnasol pe bai dysgwyr yn cael mynediad at beth o'u haddysg yn yr ysgol gyda chysylltiad uniongyrchol â'r athro yn ystod y cyfnod clo.

**Diben y canllawiau**
- Cefnogi Penaethiaid ac athrawon i gynllunio dysgu o bell fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr
- Cefnogi Penaethiaid ac athrawon i reoli disgwyliadau rhieni a rhanddeiliaid
- Cefnogi Penaethiaid ac athrawon i wneud y defnydd gorau o ddysgu byw
- Cefnogi Penaethiaid i werthuso arferion dysgu o bell ac wrth adrodd i randdeiliaid gan gynnwys y corff llywodraethu

**Trosolwg o’r canllawiau**
1. Cyd-destun y canllawiau
2. Disgwyliadau ar gyfer Dysgu yn ystod y cyfnod clo
3. Ystyriaethau wrth gynllunio Dysgu o Bell
4. Ymarfer mewn Dysgu o Bell – beth mae’r dystiolaeth yn ei ddweud?
5. Ymarfer mewn Dysgu o Bell – arweiniad ac enghreifftiau o arferion yn ysgolion gogledd Cymru
6. Darllen ac arweiniad pellach

## 1. Cyd-destun y canllawiau

Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn gweithredu mewn amgylchiadau hynod a heriol ac, mewn cyfnod byr iawn o amser, maent wedi gorfod rheoli newid sylweddol yn eu dulliau a’u hymarfer. Does dim yn fwy felly na’r defnydd o dechnoleg a’r amgylchedd dysgu digidol sydd wedi dod yn rhan hanfodol o’r arferion hyn, yn benodol trwy Ddysgu Cyfunol a Dysgu o Bell. Mae ysgolion ledled gogledd Cymru wedi dangos creadigrwydd sylweddol wrth ymateb i’r newid hwn ac i anghenion dysgwyr, boed nhw’n dysgu gartref neu yn yr ysgol. Yn yr un modd, mae anawsterau a heriau yn wynebu staff ysgolion wrth wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliadau eglur ar ysgolion (***Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau: coronafeirws*** diweddarwyd 15 Ionawr 2021) lle nodir sut beth fydd addysgu da ar gyfer dysgwyr. Mae’r ddogfen hon yn adeiladu ar hyn ac yn rhoi trosolwg o arferion y gall ysgolion eu mabwysiadu er mwyn cryfhau eu harferion dysgu o bell ymhellach.

Mae cyflawni’r disgwyliad hwn a sut beth fydd dysgu yn ymarferol yn gorfod bod yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer y cyd-destun lleol ac anghenion amrywiol y gwahanol ddysgwyr a’u rhieni. Wrth ystyried y pwysau ar rieni, yn enwedig y rhai sy'n ceisio cydbwyso cefnogi dysgu gartref â gweithio gartref eu hunain; mae angen i ni hefyd gofio am y pwysau ar benaethiaid, athrawon a staff ysgol ehangach a'r ffiniau y maent, yn anochel, yn gweithio o’u mewn. Maent yn wynebu’r her o gydbwyso cyswllt wyneb yn wyneb â disgyblion ar y safle tra’u bod yn cynllunio, paratoi a chyflwyno dysgu ar-lein i’r ystod oed a gallu cyfan, gan ddarparu adborth ar y dysgu, ac yn aml yn darparu cefnogaeth TG. Tra bod angen i athrawon fod ar gael i gynnig cefnogaeth ar gyfer dysgu i ddisgyblion a rhieni, mae’n rhaid gosod terfynau er mwyn caniatáu i staff gael cydbwysedd bywyd a gwaith.

Mae athrawon ac arweinwyr yn adnabod eu hysgolion a'u dysgwyr, a nhw yw'r bobl gywir i wneud penderfyniadau manwl ynghylch cynllunio dysgu eu disgyblion. Nod y ddogfen hon yw dwyn ynghyd arferion llwyddiannus a nodwyd i athrawon ac arweinwyr yng ngogledd Cymru eu hystyried wrth iddynt ddatblygu eu harferion dysgu o bell ac ymateb i heriau.

**2. Disgwyliadau ar gyfer dysgu yn ystod y cyfnod clo**

Mae'r cwricwlwm yng Nghymru yn wahanol i wledydd eraill y DU, felly mae disgwyliadau sy'n gysylltiedig â dysgu hefyd yn wahanol ac wedi'u teilwra'n benodol i wella cynnydd disgyblion o fewn ein cyd-destun cenedlaethol. Er mwyn i ddisgyblion wneud cynnydd a llwyddo yn eu haddysg yng Nghymru, mae athrawon yn darparu ystod o weithgareddau sy'n cefnogi a chynyddu dysgu i'r eithaf, mae'r gweithgareddau hyn yn aml o reidrwydd yn wahanol i weithgareddau a'r ddarpariaeth a welir mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae canllaw Llywodraeth Cymru yn nodi '*os dychwelir at gyfyngiadau symud yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf ……. bydd yr eithriadau canlynol yn berthnasol o ran cyswllt a hyd y dysgu'*

- *Dylid cysylltu'n rheolaidd â'r holl ddysgwyr i 'ailgydio' – byddai hyn yn gyfle i holi ynghylch diogelwch a lles y dysgwr yn ogystal â thrafod eu profiad dysgu ac ystyried cefnogaeth ychwanegol bosibl.*
- *Dylai'r holl ddysgwyr gael yr un cyfnod dysgu ag y byddent yn ei gael petaent yn yr ysgol neu'r lleoliad, hyd yn oed os yw rhywfaint o'r dysgu'n cael ei wneud gartref neu mewn man arall. Bydd eithriadau i weithredu'r disgwyliad hwn; fodd bynnag dyma fydd y man cychwyn i bob dysgwr.*

Yn yr un modd, mae disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran dysgu o bell ar gyfer disgyblion mewn blwyddyn arholiad yn nodi pan fo gofyn ar ddisgyblion ym mlynyddoedd 10, 11, 12 ac 13 i ddysgu o bell, ac am gyfnod tymor y gwanwyn hyd hanner tymor:

- *Disgwyliwn i'r grŵp hwn o ddysgwyr dderbyn cyswllt dyddiol gan eu hysgol i gefnogi dysgu, cymhelliant a lles. Disgwyliwn iddynt dderbyn pedair awr o ddysgu ystyrlon y dydd, a fydd yn gyfuniad deniadol o ddysgu a chefnogaeth gydamserol ac anghydamserol, gan ddefnyddio dulliau digidol ac annigidol fel sy'n briodol i'r grŵp a'r pwnc. Nid ydym yn nodi disgwyliadau ar lefel fanylder sy'n is na hyn - mae athrawon ac arweinwyr yn adnabod eu hysgolion a'u dysgwyr, a nhw yw'r bobl gywir i wneud penderfyniadau manwl ynghylch cynllunio dysgu eu disgyblion a'u myfyrwyr.*
- *Disgwyliwn i'r adnoddau dysgu a ddarperir gan ysgolion fod o ansawdd digon uchel i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd mor agos â phosib at sut y byddent wedi gwneud cynnydd pe byddent yn y dosbarth. Disgwyliwn i adnoddau a gweithgareddau gyfeirio a rhoi cyd-destun i'r cynnwys sydd ar gael yn eang o ffynonellau gan gynnwys Hwb, CBAC, BBC, S4C a phrifysgolion.*
- *Disgwyliwn i ysgolion gefnogi dysgwyr sydd wedi'u cau allan yn ddigidol wrth gael mynediad at gyfleoedd dysgu o bell trwy ddosbarthu dyfeisiau ysgol gyda chytundebau defnyddiwr terfynol priodol. Os oes problemau wrth ddyrannu dyfeisiau neu heriau cysylltedd, rhaid i ysgolion roi gwybod i arweinydd Technoleg Addysg eu hawdurdod lleol.*
- *Disgwyliwn i ysgolion fod yn ymwybodol o ymgysylltiad dysgwyr â'r cynnig dysgu o bell a'i gofnodi*

3. **Ystyriaethau wrth gynllunio dysgu o bell**
   - Sicrhau bod disgyblion yn ddiogel, ar-lein ac all-lein
   - Mae sicrhau mynediad at dechnoleg yn allweddol, yn enwedig ar gyfer disgyblion dan anfantais. Mae angen i ysgolion feddwl yn ofalus ynghylch a oes gan ddisgyblion fynediad at y math cywir o ddyfeisiau wrth ddefnyddio addysg o bell ddigidol. Os nad oes gan ddisgyblion ddyfais ac os na ellir darparu dyfais, noe os nad ydynt yn gallu cael mynediad at ddysgu digidol (am ystod o resymau), gallai fod yn well ystyried dulliau annigidol yn ogystal. Fe allai hyn gynnwys rhannu copïau caled, tasgau ar bapur neu becynnau gwaith. Ni ddylai fod unrhyw anfantais yn y ddarpariaeth waeth pa ddull a ddefnyddir.
   - Wrth ddefnyddio addysg ddigidol o bell, dibynnir ar fynediad i'r rhyngrwyd. Eto, mae angen ystyried a yw'r disgyblion yn gallu cael mynediad a beth ellir ei ddarparu os nad ydynt.
   - Efallai na fydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu yn gallu cael mynediad at ddysgu digidol neu efallai y byddent yn cael trafferth
   - Bydd angen ar bob disgybl i ddysgu trwy ystod o ddulliau yn cynnwys arddulliau corfforol, cymdeithasol a chreadigol. Efallai bydd cydbwysedd y rhain angen amrywio rhwng gwahanol grwpiau oedran.
   - Cydraddoldeb mynediad at y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gweithwyr allweddol a disgyblion bregus yn yr ysgol.
   - Rhaid i ysgolion ystyried llesiant disgyblion wrth gynllunio darpariaeth dysgu o bell yn enwedig mewn perthynas ag amser ar sgrin.

4. **Ymarfer mewn Dysgu o Bell – Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud?**

***Mae ansawdd yr addysgu yn allweddol ac mae'n bwysicach na sut caiff gwersi eu darparu***

- Gall disgyblion ddysgu a gwneud cynnydd trwy addysgu o bell. Rhaid i elfennau allweddol dysgu effeithiol, sy'n sylfaenol ar gyfer pob dysgu waeth beth fo'r cyfrwng, fod yn bresennol gydag esboniadau clir, sgaffaldio ac adborth. Mae hyn yn bwysicach o lawer na sut neu bryd y cânt eu darparu. Mae ymchwil yn dangos nad oedd gwahaniaeth clir rhwng addysgu o bell yn fyw neu ddefnyddio fideo wedi'i recordio ymlaen llaw. Yr hyn sy'n bwysig yw a yw'r esboniad yn adeiladu'n glir ar ddysgu blaenorol neu sut mae dealltwriaeth disgyblion yn cael ei hasesu wedi hynny. Mae caniatáu amser ar gyfer rhoi adborth i ddysgwyr ac asesu'n ffurfiannol yn allweddol wrth sicrhau cynnydd.

***Mae cyfleoedd ar gyfer Rhyngweithio gyda Chymheiriaid yn bwysig***

- Gall cyfleoedd i ddysgwyr weld ei gilydd a chydweithio ar-lein gynnig cymhelliant a gwella deilliannau dysgu. Gall arferion gynnwys cydweithio ar weithgaredd, marcio cymheiriaid a sesiynau adborth, rhannu modelau o waith da gyda'i gilydd a chyfleoedd ar gyfer trafodaethau byw am gynnwys.

***Gall cefnogi disgyblion i weithio'n annibynnol wella deilliannau dysgu***

- Bydd gweithio'n annibynnol yn ffordd naturiol o weithio i ddisgyblion sy'n dysgu gartref. Mae cefnogi dysgwyr, yn enwedig dysgwyr bregus, i weithio'n annibynnol trwy ddarparu rhestrau gwirio neu gynlluniau dyddiol o fudd arbennig.

***Mae disgyblion yn gwneud y cynnydd mwyaf pan fydd eu llesiant yn dda***

- Mae sicrhau llesiant disgyblion yn cynnwys bod yn ymwybodol o'u hiechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Nid yw cyfnodau hir ar y sgrin yn dda i iechyd a datblygiad plant ar unrhyw oedran, yn enwedig i blant iau. Gall gweithgareddau dysgu gartref sy'n cynnwys

ystod o weithgareddau corfforol, cymdeithasol a chreadigol ar y sgrin ac oddi arno, gan gynnwys tasgau sydd wedi'u teilwra'n benodol i wella llesiant, wella gallu disgyblion i berfformio ar eu gorau ar draws yr holl gwricwlwm.

5. **Ymarfer mewn Dysgu o Bell – arweiniad ac enghreifftiau o arferion yn ysgolion gogledd Cymru**

***Mae dysgu o bell yn un ffordd o ddarparu cwricwlwm o ansawdd uchel gan ddefnyddio dysgu o ansawdd da.***

Mae angen i'r ddarpariaeth dysgu o bell gyd-fynd â chwricwlwm yr ystafell ddosbarth gymaint â phosib. Fel unrhyw gwricwlwm ystafell ddosbarth, mae angen ei drefnu'n ofalus i sicrhau bod disgyblion yn cael y deunydd angenrheidiol sydd ei angen arnynt i symud at y cam nesaf. Dylid gwneud Amcanion Dysgu a Meini Prawf Llwyddiant mor gwbl eglur o bell ag y byddent yn yr ystafell ddosbarth. Nid yw addysg o bell yr un peth ag addysg ddigidol. Weithiau gall fod yn fwy effeithiol cyflwyno addysg o bell trwy daflenni gwaith neu werslyfr, er erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o ysgolion lwyfan digidol fel y gallent ddarparu addysg ar-lein lle mai dyna'r dull mwyaf priodol. Gall dulliau ar-lein gynnwys deunydd byw a deunydd a baratowyd gan yr athro ac a gyrchir gan y disgybl yn nes ymlaen. Mae'n bwysig nad yw dysgu o bell yn or-gymhleth. Wrth ddefnyddio addysg o bell ddigidol, ni ddylai'r llwyfan fod yn rhy gymhleth i'w ddefnyddio ac nid oes rhaid i wersi fod y llawn graffeg a darluniau digidol. Weithiau, graffeg syml sy'n tynnu sylw at y cysyniadau a'r nodweddion allweddol yw'r cyfan sydd ei angen. Mae elfennau allweddol addysgu effeithiol yn bwysicach h.y. amcanion clir, disgwyliadau ac adborth.

Enghreifftiau o arferion effeithiol yn ysgolion gogledd Cymru:

- Mae dysgu'n gyfuniad o sesiynau byw, sgwrsio byw, fideos wedi'u recordio ymlaen llaw, tasgau a gweithgareddau a osodwyd i'w cwblhau gyda chymorth athro/rhiant yn ogystal â thasgau annibynnol.
- Mae amseriad y sesiynau byw yn amrywio er mwyn cynnwys y rhieni sy'n gweithio a'r cartrefi sydd â nifer o blant, ac er mwyn ystyried a yw dyfeisiau digidol ar gael. Mae rhai ysgolion yn cynnig sesiwn gofrestru ben bore ac yn sesiwn llythrennedd neu rifedd i ddilyn lle caiff dysgu newydd ei gyflwyno. Mae eraill yn ei gweld yn fwy buddiol cynnal sesiwn fyw rywbryd yn ystod y dydd er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anawsterau a gafwyd wrth gwblhau tasgau. Mae rhai yn cynnal sesiwn fyw arall ar ddiwedd y dydd er mwyn adolygu'r dysgu.
- Tasgau wedi'u gosod a'u rhannu'n ddyddiol yn hytrach nag yn wythnosol, er mwyn rheoli cyflymder y dysgu a chynnal y lefel ymgysylltu. Mae rhai ysgolion yn darparu trosolwg/amserlen wythnosol ar gyfer y teuluoedd hynny na allant ymuno â sesiwn gyswllt oherwydd ymrwymiadau gwaith y rhieni.
- Mae arfer penodol mewn dysgu Cyfnod Sylfaen yn cynnwys cynllunio cyfleoedd i ailadrodd a chydgrynhoi sgiliau newydd a sgiliau sy'n bodoli eisoes trwy chwarae / profiadau dysgu gweithredol a rhai sy'n seiliedig ar brofiad; gan gynllunio cyfleoedd fel bod y plant yn rhydd i ymateb mewn ffordd sy'n briodol yn ddatblygiadol iddynt e.e. ysgrifennu, darlunio, gwneud recordiad fideo/sain byr, tynnu llun a gwneud modelau; gan ddefnyddio enghreifftiau a gyflwynwyd gan blant fel enghraifft o arfer effeithiol ar gyfer eu plant (gyda chaniatâd).
- Defnyddio deunydd a recordiwyd er mwyn gwella'r dysgu gartref, er enghraifft, gwneud fideo o ddarllen stori, o ganu caneuon ac o gemau rhif/ffeithiau.
- Athrawon, mewn clystyrau, yn trefnu cyfarfodydd, weithiau'n gysylltiedig â grwpiau oedran, i drafod a rhannu syniadau parthed tasgau a gweithgareddau a weithiodd yn dda. Mae enghreifftiau o gydgynllunio a chyd-greu rhwng ysgolion.

- Mae’r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn dilyn amserlen ysgol ‘normal’ gyda rhai addasiadau er mwyn hwyluso dysgu. Mae gwersi ychydig yn fyrrach er mwyn rhoi toriad bach i ddysgwyr; mae’r diwrnod hefyd wedi’i gwtogi er mwyn gwella ffocws dysgwyr a chaiff tasgau a gwblhawyd eu huwchlwytho i lwyfan dysgu yn ystod, neu ar ddiwedd, y diwrnod. Gall gwersi fod yn fyw mewn rhai achosion neu wedi’u recordio o flaen llaw. Mewn gwersi byw yr athro sy’n cychwyn y dasg, ac yna gwaith annibynnol gan y dysgwyr tra bo’r athro ar gael i’w holi ac ar gyfer sesiwn lawn i gloi’r wers. Nid oes un ffordd ragnodedig o ymdrin â hyn; dylai’r ffocws fod ar ddysgu a chefnogaeth ac adnoddau sy’n hygyrch i’r dysgwyr.

***Mae Adborth ac Asesu ar gyfer Dysgu yn bwysicach nag erioed***

Mae adborth ac asesu ffurfiannol yn dal yr un mor bwysig ag ydynt yn y dosbarth. Gall fod yn anoddach darparu adborth ar y pryd, o bell, i ddisgyblion nag yn y dosbarth, ond mae llawer o athrawon wedi darganfod ffyrdd clyfar ac arloesol o wneud hyn trwy drafodaethau ystafelloedd sgwrsio, rhyngweithio un i un byw, negeseuon a meddalwedd dysgu addasol megis Headsprout ac ati. Mae’n bwysig i athrawon gadw mewn cyswllt rheolaidd â disgyblion a’u bod ar gael i ddysgwyr am o leiaf rannau o bob diwrnod. Mae rhai ysgolion yn cynnal sesiynau adborth dosbarth i gloi’r diwrnod ysgol tra bod eraill yn gwneud hyn yn fwy ar sail unigolion lle mae gan bob plentyn gyfnod wythnosol gydag athro. Gellir cynnwys cwisiau ‘dim byd yn y fantol’ (*low-stakes*) a thasgau asesu hwyliog mewn addysg o bell, felly hefyd aseiniadau ysgrifenedig a gweithgareddau ymarfer adalw gyda dysgwyr hŷn.

Enghreifftiau o arferion yn ysgolion gogledd Cymru:

- Cyswllt dyddiol rhwng disgyblion a’r athro i adolygu gwaith a gwblhawyd ac i egluro neu gyflwyno gweithgareddau dysgu newydd.
- Mewn ysgolion cynradd mae’r athro ar gael ar-lein drwy gydol y rhan fwyaf o’r diwrnod ysgol ar gyfer cymorth ac adborth yn cynnwys dathlu dysgu gartref a mynd i’r afael â chamsyniadau. Athrawon yn amlygu gallu cynyddol disgyblion i arddangos tueddiad cadarnhaol tuag at ddysgu, yn cynnwys sgiliau beirniadol a chreadigol yn unol â Phedwar Diben y Cwricwlwm newydd i Gymru.
- Athro yn rhoi sesiynau adborth i grŵp er mwyn galluogi adborth unigol a rhyngweithio cymheiriaid.
- Athrawon yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod disgyblion ADY yn gweithio ar eu targedau CDU
- Integreiddio sesiynau ‘Helpwr Heddiw’ i’r sesiwn fyw er mwyn cynnal eu lefel llafaredd yn y Gymraeg.
- Gwaith ‘grŵp bach’ byw gyda chymhorthydd yn cefnogi e.e. y rhai ag ADY, SIY neu ddisgyblion iau, neu’r disgyblion hynny lle cefnogir eu dysgu gan y Grant Dysgu Carlam
- Sesiynau noson rieni yn digwydd o bell.

***Gwersi byw***

Mae yna gamsyniad y dylai dysgu o bell gynnwys ffrydio di-dor o wersi yn unig. Gall defnyddio gwersi byw fod â manteision os cânt eu cynllunio a'u cyflwyno'n effeithiol a’u bod yn rhan o becyn cymorth cynhwysfawr. Gan ddefnyddio dulliau addysgu effeithiol, gall gwers fyw baratoi plentyn ar gyfer gweithgareddau’r diwrnod, gallant wneud cyd-fynd â’r cwricwlwm yn haws, gallant gadw sylw disgyblion a rhoi mwy o reolaeth i’r athro dros yr amgylchedd dysgu. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn â lles dysgwr (a’r athro). Mae amser i ffwrdd o'r sgrin yn bwysig i'r dysgwr a'r athro. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwr gymryd rhan yn ei ddysgu annibynnol ei hun a rhoi cyfle i'r athro gynllunio, paratoi a chael cyswllt unigol â dysgwyr gan roi adborth a darparu'r camau nesaf.

Mae gwahanol ymagweddau tuag at addysg o bell yn gweddu i wahanol fathau o gynnwys a disgyblion. Gellir gweld modelau cymysg ar draws ein hysgolion gyda chyfuniad o addysgu byw, deunydd wedi'i recordio, gweithgareddau a baratowyd ymlaen llaw a chyswllt unigol â dysgwyr.

| **Manteision ffrydio o bell byw** | **Anfanteision posib i'w hystyried cyn defnyddio ffrydio o bell byw** |
|---|---|
| | |
| Mae'n galluogi athrawon i roi negeseuon clir i ddysgwyr a sicrhau eu dealltwriaeth o dasg / cysyniad cyn iddynt fynd ymlaen â'r gwaith. Gall hyn leihau llwyth gwaith | Effaith negyddol gormod o 'amser sgrin' ar ddisgyblion gan gynnwys datblygu ystum corff gwael, a phroblemau corfforol eraill oherwydd eu bod wedi crymu o flaen sgrin. |
| Mae'n cynyddu ymgysylltiad disgyblion a'u dealltwriaeth o dasgau | Mae angen ei amserlennu'n ofalus a'i weithio o amgylch yr amserlen 'gofal yn yr ysgol', h.y. amserlen plant gweithiwyr allweddol / plant bregus sydd yn yr ysgol. |
| Mae'n rhoi mwy o reolaeth i'r athro dros yr amgylchedd dysgu | Gall anawsterau technegol leihau tegwch e.e. mynediad at *Chromebooks*, gliniaduron, llechi, hefyd materion mynediad i'r rhyngrwyd / cysylltedd |
| Gall dysgwyr gael adborth byw trwy 'sgwrs', yn breifat os dymunir | Mae tystiolaeth yn awgrymu bod canolbwyntio ar-lein yn fyrrach na hyd gwers nodweddiadol |
| Mae yna lawer o offer defnyddiol ar gael i gadw diddordeb disgyblion a'u hannog i gymryd rhan e, e, Jamboard, cwisiau byw, Padlet; Mentimeter ac ati. | Mewn ffrydio byw parhaus, gall fod yn anodd ymgorffori rhyngweithio a hyblygrwydd |
| Gall wella ymgysylltiad disgyblion sydd heb yr hunanddisgyblaeth i weithio'n annibynnol | Rhai disgyblion yn anfodlon cyfrannu ar lafar a ddim yn gyfforddus o flaen camera. |
| Lles - gall disgyblion weld ei gilydd a'u hathro yn rhyngweithio a chydweithio. Mae hyn yn cynnwys disgyblion bregus sydd yn yr ysgol. | Mae gan rai athrawon blant bach gartref sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn i ffrydio'n fyw. |
| Mae'n helpu rhieni i ddeall tasgau a chysyniadau, bwriadau dysgu ac ati er mwyn gallu cefnogi dysgu eu plentyn | |

Enghreifftiau o arferion yn ysgolion gogledd Cymru:

- Gwers fyw ddyddiol i gyflwyno gweithgareddau ac i osod disgwyliadau ar gyfer y gweithgareddau.
- Darparu tasgau a gweithgareddau gaiff eu cwblhau'n annibynnol oddi ar y sgrin.
- Pecynnau papur/copïau caled ar gael ar gais i'r rhai hynny sy'n cael anawsterau gyda'r

agweddau digidol.

- Mewn ysgolion cynradd, mae athrawon yn cael amser bob dydd pan nad ydynt ar gael ar-lein, er mwyn eu caniatáu i gynllunio a darparu cynnwys ar gyfer y diwrnod canlynol e.e. recordio fideos ac ati. Mae staff arall ar gael i gefnogi yn ystod y cyfnod hwn pe bai angen.
- Defnyddio 'llyfr dysgu gartref' fel cofnod o unrhyw waith gaiff ei gwblhau gartref, a gellir dod ag ef i'r ysgol fel tystiolaeth pan fydd y plentyn yn dychwelyd. Mae hefyd yn cefnogi'r syniad nad oes yn rhaid i bob tasg gael ei chwblhau ar-lein
- Cyfarwyddiadau ar gyfer tasgau yn cael eu hegluro ar fideo a recordiwyd o flaen llaw er mwyn cefnogi disgyblion sy'n cael trafferth gyda darllen a phrosesu cyfarwyddiadau ysgrifenedig, ac sy'n cwblhau tasgau gyda chefnogaeth gyfyngedig gan rieni. Darperir tasgau ymestynnol ychwanegol y gellir eu cwblhau'n annibynnol, sy'n atgyfnerthu sgiliau ond sydd hefyd yn rhoi amser i rieni gwblhau eu gwaith eu hunain os oes angen.

***Ymgysylltu a Chyfathrebu***

Mae'n anodd cynnwys dysgwyr mewn amgylchedd ar-lein. Mae pethau yn tynnu sylw ym mhobman ac nid yw athrawon yn bresennol yn gorfforol i reoli sefyllfaoedd. Bydd rhieni hefyd yn ei chael hi'n anodd addasu i ffordd hollol newydd o weithio. Gall cyfathrebu a gweithio gyda rhieni yn ystod yr amser hwn, heb roi baich ychwanegol arnynt, gefnogi dysgu gartref. Mae cyfathrebu rheolaidd â Dysgwyr a Rhieni yn cynyddu'r teimlad o berthyn i gymuned yr ysgol. Mae'r cyfathrebu rheolaidd hwn a'r ymdeimlad gwell o gymuned yn cael ei weld mewn sawl ffordd yn ein hysgolion. Gall gwasanaeth digidol neu wasanaeth ysgol gyfan neu ddosbarth, adborth, cylchlythyrau i ddisgyblion a rhieni neu sesiynau galw heibio ar-lein oll helpu rhieni a disgyblion fel ei gilydd i deimlo'n rhan o'r gymuned, hyd yn oed wrth ddysgu o bell. Mae cynnal perthnasoedd yn allweddol yn ystod yr amseroedd anodd hyn.

Enghreifftiau o arferion yn ysgolion gogledd Cymru:

- Ymgysylltu ag adborth adeiladol: er enghraifft, defnyddio holiadur i rieni i ddarganfod beth sy'n gweithio'n dda yn amgylchedd y cartref a pha gefnogaeth bellach sydd ei hangen.
- Gwasanaeth wythnosol wedi'i gyflwyno'n fyw neu wedi'i recordio o flaen llaw a fideos rheolaidd o straeon yn cael eu darllen.
- Galwadau ffôn i'r cartref, ar gyfer rhai nad ydynt yn ymgysylltu'n rheolaidd â dysgu, er mwyn holi am eu llesiant a chynnig cefnogaeth.
- Cymhorthfa wythnosol, un i un, gyda rhieni i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch dysgu eu plant e.e. cefnogaeth TG.
- Mae ysgolion cynradd clwstwr yn cysylltu â'r ysgol uwchradd ynghylch amseriad unrhyw sesiynau byw gan fod hyn yn effeithio ar y dyfeisiau sydd ar gael mewn cartrefi sydd â sawl brawd a chwaer.
- Darparu gweithgareddau sy'n cynnwys yr holl deulu gyda'i gilydd e.e. cwis teuluol wythnosol; rhannu ryseitiau hawdd y gall rhieni a phlant eu gwneud ar y cyd, gan amlinellu'r sgiliau rhifedd a llythrennedd y gall y gweithgaredd eu datblygu.
- Myfyrio ar y cyfnod clo a datblygu rhesymwaith ynghylch pam y maent wedi mabwysiadu'r dulliau y maent wedi'u mabwysiadu. Cynnwys hwn yn eu hasesiad risg a'i rannu â'r Llywodraethwyr.

**6. Casglwyd y canllawiau uchod o'r ddogfennaeth ganlynol. Mae llawer mwy o wybodaeth, enghreifftiau ac arweiniad i'w gweld yn y dogfennau hyn:**

- Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau: coronafeirws - Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau: coronafeirws | LLYW.CYMRU

- Disgwyliadau o ran dysgu o bell mewn blynyddoedd arholiad - Disgwyliadau o ran dysgu o bell mewn blynyddoedd arholiad - Hwb (llyw.cymru)
- Canllawiau ffrydio byw Llywodraeth Cymru - Ffrydio byw a fideogynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu - Cadw'n ddiogel ar-lein - Hwb (llyw.cymru)
- *What's working well in remote education – What's working well in remote education - GOV.UK (www.gov.uk)*
- *EEF Rapid Evidence Summary (Distance Learning) - Rapid_Evidence_Assessment_summary.pdf*
- Hwb yn cefnogi Dysgu o Bell - Dysgu o bell - Hwb (llyw.cymru)

Lluniwyd yr arweiniad rhanbarthol hwn mewn ymgynghoriad â chwe Awdurdod Lleol gogledd Cymru.

# Canllawiau Dysgu o Bell ar gyfer rhieni Ysgolion Gogledd Cymru

Mae dysgu da yn digwydd pan fydd plant yn glir ynglŷn â’r hyn maen nhw’n ei ddysgu, pan mae ganddyn nhw amser i gwblhau’r gwaith a phan maen nhw’n cael cyfleoedd i drafod a gwella eu gwaith.

Mae gwahanol ddulliau addysgu yn gweddu i wahanol fathau o ddysgwyr a phynciau. Gellir gweld cymysgedd o ffyrdd o ddarparu dysgu yn eich ysgol ac ar draws ein hysgolion, gyda chyfuniad o addysgu byw, deunydd wedi'i recordio a gweithgareddau wedi'u paratoi ymlaen llaw. Mae pob athro unigol mewn sefyllfa dda i benderfynu beth yw'r ffordd fwyaf ymarferol ac effeithiol iddyn nhw ddarparu dysgu o bell yn ystod yr amser hwn sy’n anodd i bawb.

## Beth yw Addysg o Bell?



Dysgu o bell yw’r  holl ddysgu sy'n digwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth, pan na fydd athro’n bresennol yn yr un lleoliad â'r disgyblion. Gallai hyn fod naill ai'n addysgu byw neu'n ddeunydd a baratowyd gan yr athro a'i gyrchu gan y disgybl yn nes ymlaen. Yr hyn sy’n bwysig yw bod plant yn glir ynglŷn â’r hyn maen nhw’n ei ddysgu, bod ganddyn nhw amser i gwblhau’r gwaith a’u bod yn cael cyfleoedd i drafod a gwella eu gwaith.

## Beth ddylwn i ddisgwyl gan ysgol fy mhlentyn?

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliadau eglur ar ysgolion lle nodir sut beth fydd addysgu da ar gyfer dysgwyr yn ystod yr amgylchiadau hynod a heriol hyn. Cyhoeddwyd canllawiau pellach mewn perthynas â dysgwyr mewn blynyddoedd arholiad  (Bl 10, 11, 12 ac 13). Mae’r canllawiau hyn ar gael yma:

Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau | LLYW.CYMRU

Disgwyliadau o ran dysgu o bell i ddisgyblion mewn blynyddoedd arholiad – Hwb (llyw.cymru)

Bydd angen i sut y bydd dysgu eich plentyn yn edrych yn ymarferol fod yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer cyd-destun ac anghenion amrywiol gwahanol ddysgwyr a rhieni yn eich ysgol. Wrth ystyried y pwysau ar rieni, yn enwedig y rhai sy'n ceisio cydbwyso cefnogi dysgu gartref â gweithio gartref eu hunain a'r rhai sy'n cydbwyso addysg mwy nag un plentyn, mae angen i ni hefyd gofio am y pwysau ar staff ysgolion. Maen nhw hefyd yn wynebu’r her o gydbwyso cyswllt wyneb yn wyneb â disgyblion ar y safle tra’u bod yn cynllunio, paratoi a darparu dysgu ar-lein ar gyfer yr ystod oedran a gallu cyfan, gan ddarparu adborth ar y dysgu, ac yn aml yn darparu cefnogaeth TG.



Mae’r cwricwlwm yng Nghymru yn wahanol i wledydd eraill y DU, felly mae disgwyliadau sy’n gysylltiedig â dysgu hefyd yn wahanol ac wedi’u teilwra’n benodol i wella cynnydd disgyblion o fewn ein cyd-destun cenedlaethol.  Er mwyn i ddisgyblion wneud cynnydd a llwyddo yn eu haddysg yng Nghymru, mae athrawon yn darparu ystod o weithgareddau sy'n cefnogi a chynyddu dysgu i'r eithaf, mae'r gweithgareddau hyn yn aml o reidrwydd yn wahanol i weithgareddau a’r ddarpariaeth a welir mewn rhannau eraill o'r DU.

## Sut ddylai dysgu o bell edrych yn ysgol fy mhlentyn?

Gall addysg o bell ddigwydd mewn sawl ffordd. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion lwyfan digidol fel y gallent ddarparu addysg ar-lein lle mai dyna’r dull mwyaf priodol. Fodd bynnag, weithiau gall fod yn fwy effeithiol cyflwyno addysg o bell trwy daflenni gwaith neu werslyfr. Gall dulliau ar-lein gynnwys deunydd byw a deunydd a baratowyd gan yr athro ac a gyrchir gan y disgybl yn nes ymlaen. Yr hyn sy’n bwysig yw bod eich plentyn / plant yn glir ynglŷn â’r hyn maen nhw’n ei ddysgu, bod ganddyn nhw amser i gwblhau’r gwaith a’u bod yn cael cyfleoedd i drafod a gwella eu gwaith.




Mae yna rai pobl sy’n meddwl y dylai dysgu o bell gynnwys ffrydio gwersi’n ddi-dor yn unig. Nid yw hyn yn wir o reidrwydd, yn enwedig gyda dysgwyr iau. Gall agwedd synhwyrol at wersi byw fod â manteision, sy'n cynnwys:

- Athrawon yn gallu rhoi negeseuon clir i ddysgwyr a sicrhau eu dealltwriaeth o dasg / cysyniad cyn iddynt fynd ymlaen â’r gwaith.
- Dysgwyr yn cael adborth byw ar eu gwaith sy’n eu galluogi i wybod yr hyn maen nhw wedi’i wneud yn dda a lle mae angen iddyn nhw wella..
- Gwella ymgysylltiad disgyblion sydd heb yr hunanddisgyblaeth i weithio'n annibynnol.
- Dysgwyr yn gallu gweld ei gilydd a’u hathro ac yn gallu rhyngweithio a chydweithio.
- Helpu rhieni i ddeall tasgau a chysyniadau, bwriadau dysgu ac ati er mwyn gallu cefnogi dysgu eu plentyn

Fodd bynnag, mae rhai anfanteision posib i’w hystyried cyn defnyddio ffrydio o bell byw:

- Effaith negyddol gormod o 'amser sgrin' ar ddisgyblion gan gynnwys datblygu ystum corff gwael, a phroblemau corfforol eraill oherwydd eu bod wedi crymu o flaen sgrin.
- Gall problemau technegol fod yn rhwystredig e.e. mynediad at offer, mynediad i’r rhyngrwyd/ problemau cysylltedd ac ati.
- Dysgwyr ag offer `TG cyfyngedig neu’n gorfod rhannu ag aelodau eraill o’r teulu.
- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod canolbwyntio ar-lein yn fyrrach na hyd gwers nodweddiadol mewn ysgol.





I’ch atgoffa, mae gwahanol ddulliau addysgu yn gweddu i wahanol fathau o ddysgwyr a phynciau. Gellir gweld cymysgedd o ffyrdd o ddarparu dysgu yn eich ysgol ac ar draws ein hysgolion, gyda chyfuniad o addysgu byw, deunydd wedi'i recordio a gweithgareddau wedi'u paratoi ymlaen llaw. Mae pob athro unigol mewn sefyllfa dda i benderfynu beth yw'r ffordd fwyaf ymarferol ac effeithiol iddyn nhw ddarparu dysgu o bell yn ystod yr amser hwn sy’n anodd i bawb.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni ac fe fyddem yn hapus i drafod hyn ymhellach.

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 CHWEFROR 2021**

**Adroddiad gan:** **Alwyn Jones - Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE**

**Testun:** **Rhaglenni Dysgu Carlam ar gyfer y Gymraeg**

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Ceisio cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i ddatblygu rhaglenni Dysgu Carlam ar gyfer y rhai sy’n derbyn ei haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (Iaith Gyntaf).

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae’r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion.

2.2 Yng nghyd-destun y Gymraeg, amlygwyd yn adroddiad thematig Estyn ‘*Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac unedau cyfeirio i ymateb i COVID-19’*, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2021, fod pryder fod disgyblion yn colli eu Cymraeg, ac yn enwedig rheini o gartrefi ble nad y Gymraeg yw iaith yr aelwyd.

2.3 Mae’r broblem hon yn debygol o fod wedi dwysau ymhellach yn dilyn y cyfnod clo ar ddechrau tymor y gwanwyn 2021 gydag ysgolion yn dychwelyd i ddysgu o bell. Mae’r cyfnod hwn wedi amlygu'r angen i gael cynlluniau a strategaethau clir mewn lle er mwyn arfogi athrawon i sicrhau dilyniant yn natblygiad sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu ein dysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg a hynny ar draws yr ystod gallu ac oedran.

## 3.0 Ystyriaethau

3.1 Mae angen ar fyrder i gael cynlluniau 'Dysgu Carlam' i dargedu sgiliau ieithyddol y dysgwyr yn y Gymraeg. Mae pryder sylweddol y gall dysgwyr newid cyfrwng o’r Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn ac yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, oherwydd iddynt golli eu Cymraeg gan nad ydynt wedi gallu cael eu trochi yn yr iaith yn unol â’r trefniadau arferol, nac yn cael cyfle i ymarfer yn ddigonol tra adref o’r ysgol.

3.2 Mae angen cael ecwiti rhwng y ddwy iaith a sicrhau fod darpariaeth a rhaglenni dysgu carlam effeithiol ar gael i ddatblygu sgiliau ieithyddol a llythrennedd y dysgwyr yn y Gymraeg sy'n cwrdd ag anghenion yr ystod oedran, eu gallu a'r categori angen.

3.3 Bydd angen rheoli disgwyliadau am yr hyn y gellir ei gyflawni yn y tymor byr a dylai ysgolion a rhanddeiliaid ystyried y canlynol:

- Mae'n debygol na fydd gan ysgolion fynediad i ystod ddigonol o adnoddau i gyflwyno amryw o raglenni dal i fyny pan fyddant yn ailagor, felly bydd angen strategaeth tymor hwy i adfer sgiliau'r Gymraeg yn llawn
- Dengys ymchwil fod rhaglenni penodol wedi profi'n fwy llwyddiannus nag eraill i wella sgiliau craidd a bydd angen ystyried hyn wrth ddatblygu rhaglenni cyffelyb ar gyfer y Gymraeg
- Dylid sefydlu gwaelodlin fel man cychwyn i ddadansoddi maint y broblem a'r mathau o ymyrraeth sydd eu hangen i adfer sgiliau'r Gymraeg
- Dylid ystyried sgiliau, dealltwriaeth a chynhwysedd staff i ddarparu unrhyw raglen neu ymyrraeth sydd eu hangen; a
- Dylid ystyried beth fydd rôl rhieni/gofalwyr i gefnogi'r dysgwyr i adfer eu sgiliau ieithyddol.

3.4 Bydd angen adnabod anghenion datblygiad proffesiynol staff neu gynhwysedd ysgol i ddiwallu anghenion y dysgwr. Bydd angen sicrhau datblygiad proffesiynol cynhwysfawr a phwrpasol er mwyn sicrhau fod staff yn hyddysg i ddarparu'r rhaglenni dysgu carlam ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r cynlluniau i ddatblygu rhaglenni Dysgu Carlam ar gyfer y rhai sy'n derbyn ei haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (Iaith Gyntaf).

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

---

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.  Felly, cymeraf y bydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau presennol.

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 Chwefror 2021**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Calendr Cyfarfodydd |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar raglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

**2.0 Cefndir**

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol.

2.2 Yn Atodiad 1, cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Oherwydd y sefyllfa bresennol, y Cydbwyllgor i barhau i gyfarfod yn rhithiol. Bydd y sefyllfa yn cael ei adolygu yn gyson wrth ymateb i sefyllfa Covid-19.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor:

4.1.1 Gymeradwyo'r calendr cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad 1.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr, a'r cyfrwng ar gyfer y cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw gyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

**9.0 Atodiadau**

Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig Cyd-bwyllgor GwE 2021/2022.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwy'n cefnogi'r argymhellion, gan fod y dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd Cydbwyllgor GwE, fel y'u cynigir yma, yn addas i bwrpas.

Yn benodol, bydd –

- 14 Gorffennaf 2021 yn amserol ar gyfer derbyn cyfrifon cyn-archwiliad 2020/21 (yn sgil llacio'r amserlen statudol oherwydd parhad yr argyfwng Covid-19),
- 22 Medi 2021 yn amserol ar gyfer derbyn a chymeradwyo adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gyfrifon 2020/21 (eto wedi estyniad i'r amserlen statudol eleni), a

- 16 Chwefror 2022 yn amserol ar gyfer cymeradwyo cyllideb 2022/23 (gan obeithio bydd trefn ariannu Llywodraeth Cymru yn gynt nac amserlen setliad eleni).

**Atodiad 1:**

**Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2021/2022**

| CYFARFOD | DYDDIAD | AMSER | CYFRWNG / LLEOLIAD |
|---|---|---|---|
| Cyd-Bwyllgor GwE | 14/07/2021 | 1.30 y.p | Rhithiol |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 22/9/2021 | 1.30 y.p | Rhithiol |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 10/11/2021 | 10.30 y.b | Rhithiol |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 16/02/2022 | 10.30 y.b | Rhithiol |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 25/05/2022 | 10.30 y.b | Rhithiol |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 13/7/2022 | 1.30 y.p | Rhithiol |